Adolygiad Perfformiad Blynyddol

2017/18



Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

Cynnwys

Cyflwyniad	Tudalen 3
Rhan 1 - Adrodd am gynnydd yn 2017/2018 wrth gyflawni'r camau i fodloni amcanion lles y cyngor	**Tudalen 7**
Diogelu pobl rhag niwed	**Tudalen 10**
Gwella **Addysg a Sgiliau**	**Tudalen 21**
Trawsnewid ein **Heconomi a'n Hisadeiledd**	**Tudalen 29**
Trechu Tlodi	**Tudalen 40**
Trawsnewid a Datblygu'r Cyngor yn y Dyfodol	**Tudalen 55**
Rhan 2: Sut rydym wedi gweithio wrth gymryd camau i gyflawni ein hamcanion lles	**Tudalen 63**
Rhan 3 - Sut mae'r cyngor yn newid y ffordd rydym yn gweithio: Ble mae angen i'r newid ddigwydd	**Tudalen 67**
Rhan 4 - Llywodraethu ac Atebolrwydd	**Tudalen 71**
Ble i gael mwy o wybodaeth	Tudalen 76

Cyflwyniad - Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2017/18

Mae Cynllun Corfforaethol y cyngor ar gyfer 2017/22, *Cyflwyno Abertawe Lwyddiannus a Chynaliadwy*, yn disgrifio gweledigaeth y cyngor ar gyfer Abertawe, ein 5 blaenoriaeth allweddol (yr Amcanion Lles a'r Amcanion Gwella), a gwerthoedd ac egwyddorion ein sefydliad a fydd yn sylfaen i gyflwyno'n blaenoriaethau a'n strategaeth gyffredinol.

Mae hyn yn cyflwyno'n dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i osod Amcanion Lles ac Amcanion Gwella.

Dengys ein hamcanion lles gyfraniad y cyngor at saith nod cenedlaethol Cymru a ddisgrifir yn Neddf (y 'Ddeddf') Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac maent yn disgrifio sut byddwn yn mwyafu'r cyfraniad hwn at y nodau cenedlaethol ac at les cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Abertawe drwy weithio'n unol â'r egwyddorion cynaladwyedd a amlinellir yn y Ddeddf.[1]

Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi'r camau sy'n cael eu cymryd i fodloni ein hamcanion lles a chyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol sy'n cael eu hamlinellu yn y Ddeddf.

Mae'r cynllun hefyd yn nodi sut rydym yn mwyafu'n cyfraniad at ein hamcanion lles a'n nodau cenedlaethol drwy'r ffordd rydym yn gweithio, sy'n unol ag egwyddorion cynaliadwy fel a ganlyn:

- Edrych ymlaen at yr heriau tymor canolig a thymor hir.
- Atal problemau rhag codi neu waethygu.
- Sicrhau nad yw ein hamcanion yn gwrth-ddweud ei gilydd, a'u bod yn ategu amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- Gweithio mewn partneriaeth ag eraill.
- Cynnwys pobl leol.

Adroddiad y cyngor am gynnydd y cyngor wrth gyflawni'r camau i fodloni ei amcanion lles fel a amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol yw Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2017/18 (yr 'Adolygiad'). Drwy wneud hynny, mae'r adolygiad yn ceisio disgrifio sut mae'r cyngor wedi gweithio'n unol â'r egwyddorion datblygu cynaliadwy er mwyn mwyafu ei gyfraniad at y nodau cenedlaethol.

Ein Cynllun Corfforaethol - gweledigaeth, gwerthoedd, egwyddorion ac amcanion lles

Mae ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017/22 sef *Cyflwyno Abertawe Lwyddiannus a Chynaliadwy* a'n hamcanion lles yn amlinellu sut byddwn yn gweithio i fynd i'r afael â heriau presennol a rhai'r dyfodol.

Yr heriau sydd i ddod

Mae Abertawe'n wynebu sawl her yn y blynyddoedd sydd i ddod, sy'n cynnwys:

- Newidiadau poblogaeth - Abertawe sy'n tyfu, sy'n heneiddio ac sy'n fwy amrywiol.
- Newidiadau economaidd - denu buddsoddiad, swyddi o safon a thechnoleg newydd i Abertawe wrth fynd i'r afael â'r bwlch sgiliau.

[1] Y Nodau Cenedlaethol yw: Cymru lewyrchus; Cymru gydnerth; Cymru iachach; Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

- Newid yn yr hinsawdd - peryglon llifogydd, ansawdd aer a dŵr, peryglon i ecosystemau a bioamrywiaeth a diogelwch ynni.
- Newidiadau cymdeithasol a diwylliannol - mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, addysg, cyflogaeth a chyfleoedd bywyd.

Rydym wedi ceisio mynd i'r afael â heriau'r presennol a'r dyfodol drwy ein Cynllun Corfforaethol a'n hamcanion lles.

Ein huchelgeisiau a'n hymrwymiadau i breswylwyr - ein hamcanion lles ar gyfer 2017/22

Er mwyn i ni fynd i'r afael â'r heriau hyn, rydym wedi blaenoriaethu pum amcan lles yn 2017/18, sef:

- ***Diogelu*** *pobl rhag niwed* - er mwyn sicrhau bod ein dinasyddion yn ddiogel rhag niwed a cham-fanteisio.
- *Gwella* ***Addysg a Sgiliau*** - fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn Abertawe yn ennill y sgiliau a'r cymwysterau y mae eu hangen arnynt i lwyddo mewn bywyd.
- *Trawsnewid ein* ***Heconomi a'n Hisadeiledd*** **-** fel bod gan Abertawe ganol dinas defnydd cymysg, ffyniannus ac economi leol a fydd yn cefnogi ffyniant ein dinasyddion.
- ***Trechu Tlodi*** - fel bod pob person yn Abertawe'n gallu cyflawni ei botensial.
- ***Trawsnewid a datblygu cyngor y dyfodol*** - fel ein bod ni a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu'n gynaliadwy ac yn addas i'r dyfodol.

Sut byddwn yn gweithio - ein gwerthoedd a'n hegwyddorion

Mae ein gwerthoedd a'n hegwyddorion a fynegwyd yn ein Cynllun Corfforaethol yn sail i gyflawni'n hamcanion lles ac maent yn adlewyrchu ffyrdd cynaliadwy o weithio:

Ein Gwerthoedd
Mae ein cynlluniau'n seiliedig ar dri gwerth clir a fydd yn arwain y ffordd rydym yn gweithio, sut byddwn yn datblygu fel sefydliad a'n penderfyniadau yn y blynyddoedd i ddod.

- ***Ffocws ar Bobl***

Byddwn yn canolbwyntio ar anghenion a chanlyniadau cymunedau ac ar wella bywydau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Abertawe. Byddwn hefyd yn parchu, yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi ein gweithwyr ac yn dangos y safonau uchaf o gywirdeb.

- ***Gweithio gyda'n gilydd***

Byddwn yn hyrwyddo ymagwedd partneriaeth gyfan, gan weithio ar draws gwasanaethau i wneud y mwyaf o adnoddau a gwybodaeth a byddwn yn gweithio gydag eraill y tu allan i'r cyngor i sicrhau ein bod yn blaenoriaethu ein hadnoddau er mwyn cael y gwasanaethau gorau ar gyfer ein cymunedau.

- ***Arloesedd***

Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi diwylliant blaengar. Byddwn yn meddwl ac yn gweithio'n wahanol i wella ein gallu i gyflawni ac i ymdopi â'r heriau ariannol, demograffig a chymdeithasol rydym yn eu hwynebu. Byddwn yn rhannu'r hyn rydym yn ei ddysgu ar draws y cyngor fel rhan o'n Rhaglen Arloesedd.

Ein Hegwyddorion
Bydd ein cynlluniau a'n blaenoriaethau yn seiliedig ar dair egwyddor allweddol. Mae'r egwyddorion hyn yn hanfodol er mwyn cyflawni ein hamcanion lles a chânt eu plethu i mewn i'n ffordd o weithio.

- ***Cynaladwyedd***

Byddwn yn gweithio i wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Abertawe. Mae hyn yn golygu sicrhau y diwellir anghenion y presennol heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.

Mae'n egwyddor allweddol sydd wrth wraidd y flaenoriaeth *Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol* a'n strategaeth *Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol*, sy'n ymwneud â thrawsnewid gwasanaethau'r cyngor, gan sicrhau dichonoldeb ariannol y cyngor a gwella canlyniadau i breswylwyr.

Fel rhan o hyn, byddwn yn parhau i gynnwys a cheisio barn preswylwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Mae ataliaeth ac integreiddio yn ganolog i egwyddor cynaladwyedd a byddwn yn datblygu cynlluniau tymor hir er mwyn mynd i'r afael â'n hamcanion lles, gan gydweithio ag eraill. Drwy'r ymagwedd hon, byddwn hefyd yn sicrhau ein bod yn bodloni gofynion y Ddeddf.

- ***Atal***

Byddwn yn ymyrryd yn gynharach er mwyn cefnogi pobl sydd yn y perygl mwyaf, yn newid ymddygiad ac yn atal yr angen am wasanaethau arbenigol drud, gyda rhaglen gefnogi tymor hir yn aml. Bydd hyn yn helpu i wneud teuluoedd a chymunedau'n fwy gwydn, yn lleihau'r galw am wasanaethau'r cyngor, yn lleihau costau ac yn cyflawni gwell canlyniadau. Byddwn yn mabwysiadu ymagwedd cyngor cyfan tuag at reoli'r galw am wasanaethau, gan geisio gwella ein dealltwriaeth o gyswllt â chwsmeriaid a sut gellir ail-lunio gwasanaethau er mwyn atal, lleihau neu arallgyfeirio galw.

- ***Partneriaethau***

Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid ar draws y sectorau cyhoeddus, busnes a gwirfoddol drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a thrwy ffyrdd cydweithredol eraill er mwyn wynebu'r heriau a rennir gan Abertawe a'i chymunedau.

Byddwn yn mabwysiadu ymagwedd 'Tîm Abertawe', gan weithio fel cyngor cyfan i sicrhau bod pob gwasanaeth yn gallu chwarae rôl mewn cyfrannu at ein hamcanion lles a sicrhau ein bod yn rhannu adnoddau ac arbenigedd. Er mwyn diwallu anghenion ein preswylwyr a mynd i'r afael â'r heriau sylweddol sy'n wynebu Abertawe, mae'n rhaid cael partneriaethau cynhyrchiol, integreiddio ein gwasanaethau'n well a rhannu adnoddau.

Cyflawni - y camau

Mae ein Cynllun Corfforaethol yn dangos bod ein holl amcanion lles gyda'i gilydd a'r camau rydym yn eu cymryd i'w cyflwyno'n dangos ein cyfraniad at bob un o'r saith nod cenedlaethol ac at les cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Abertawe a Chymru.

Nid yw'n cyfraniad at y nodau cenedlaethol a lles Abertawe a Chymru wedi'u mynegi yn ein Cynllun Corfforaethol yn unig. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi ein hamcanion lles allweddol a'n cyfraniad ond mae hefyd yn rhan o'n Fframwaith Gwella Perfformiad ehangach, sy'n cynnwys Cynlluniau Gwasanaeth adrannol; mae'r Cynllun Corfforaethol ynghyd â'r Cynlluniau Gwasanaeth sy'n datgan ein cyfraniad llawn. Gwelir y broses hon yn y diagram isod:



Cyflawni - ffyrdd cynaliadwy o weithio

Byddwn yn mwyafu eto'n cyfraniad at les cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Abertawe a Chymru drwy wreiddio ffyrdd cynaliadwy o weithio.

Adlewyrchir y ffyrdd hyn o weithio yn ein gwerthoedd a'n hegwyddorion ond hefyd yn y camau rydym yn eu cymryd ac rydym yn bwriadu eu cymryd, ac a amlygir yn y tabl drosodd, er mwyn mwyafu ein cyfraniad.

Adolygiad o Amcanion Lles 2018/19

Adolygodd y cyngor ei amcanion lles yn ystod 2018/19 ac mae wedi adnewyddu'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2018/22. Mae hyn yn dilyn llunio Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, adolygiad o gynnydd ac asesiad o'r dystiolaeth, gan edrych ar sut rydym yn cau unrhyw fylchau ac yn mwyafu ein cyfraniad at y nodau cenedlaethol.

Y prif newid yn dilyn yr adolygiad yw ychwanegiad chweched amcan lles i'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2018/22 - *'Cynnal ac ehangu adnoddau naturiol a bioamrywiaeth Abertawe.'*

Er nad oedd amcan lles penodol yn gysylltiedig â natur yn y Cynllun Corfforaethol cyn 2018/19, mae amcanion lles y cyngor yn gyfres integredig sy'n ceisio mynd i'r afael â **phob** agwedd ar les ar y cyd, gan gynnwys lles amgylcheddol.

Fodd bynnag, mae nifer o resymau dros ychwanegu amcan lles newydd mewn perthynas â natur -

- Bydd yn caniatáu i'r cyngor arddangos ei fod yn mwyafu ei gyfraniad at y nod llesiant cenedlaethol ar gyfer *'Cymru gydnerth' - 'Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd)'.*

- Cyflwyniad Adran 6, Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae hon yn atgyfnerthu'r nod Cymru gydnerth drwy roi dyletswydd bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau newydd ar awdurdodau lleol[2]. Bydd hyn yn gofyn bod y cyngor yn creu cynllun Adran 6 (A6). Mae'r arweiniad statudol yn awgrymu mai'r arfer gorau fyddai i gynllun Adran 6 fod yn rhan o'r Cynllun Corfforaethol.

[2]Adran 6 Deddf yr Amgylchedd - *'Rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.*

- Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi mabwysiadu *'Gweithio gyda Natur'* fel un o'i bedwar amcan lles. Bydd y chweched amcan lles newydd yn helpu i gydlynnu amcanion y cyngor ag amcanion y BGC yn well, fel a nodwyd yn arweiniad statudol y Ddeddf.

- Cynhaliodd y cyngor arolwg arall fel arweiniad a 'gwiriad dros dro' i helpu i lywio'r broses o adnewyddu'r Cynllun Corfforaethol a'r amcanion lles ar gyfer 2018/22. Ar y cyfan, mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod lefel gymharol uchel o gefnogaeth ymhlith yr ymatebwyr ar gyfer amcanion lles presennol y cyngor a'r camau arfaethedig y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd er mwyn gwireddu'r amcanion hyn. Fodd bynnag, derbyniwyd nifer o awgrymiadau am gynnwys natur a'r amgylchedd fel amcan lles ychwanegol, yn ogystal â chamau sy'n berthnasol i natur a'r amgylchedd.

- Mae Ymchwiliad Craffu i *'Amgylchedd Naturiol Abertawe'* ar waith ar adeg cyhoeddi'r cynllun hwn ac mae'n debygol y bydd yn argymell cynnwys chweched amcan lles ar natur yn y Cynllun Corfforaethol am y rhesymau a nodwyd uchod.

Sut gallwch chi gymryd rhan?

Gallwch gymryd rhan a dweud eich dweud: http://www.abertawe.gov.uk/dweudeichdweud

Gallwch gymryd rhan hefyd drwy fyrddau a phaneli craffu'r cyngor, sy'n agored i'r cyhoedd: https://www.abertawe.gov.uk/craffu

Gallwch gysylltu â'r cyngor ar unrhyw adeg drwy: e-bostio improvement@swansea.gov.uk neu ffonio 01792 637570.

Rhan 1 - Adrodd am gynnydd yn 2017/18 wrth gyflawni'r camau i fodloni amcanion lles y cyngor

Mae'r rhan hon o'r adolygiad yn adroddiad am y cynnydd a wnaed gan y cyngor wrth gyflawni'r camau a nodwyd yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2017/22 er mwyn gweithio tuag at fodloni pob amcan lles.

Ar gyfer pob amcan lles, mae'r adolygiad yn nodi'r penawdau canlynol:

1. Pam mae hwn yn amcan lles

2. Y camau rydym wedi dweud y byddem yn eu cymryd i fodloni'r amcan lles hwn

3. Mesur llwyddiant

4. Gwneud cynnydd tuag at y camau i fodloni'r amcan lles hwn - yr hyn sydd wedi gweithio

5. Y gwahaniaeth y mae'r amcan lles hwn yn ei wneud - astudiaeth(au) achos

6. Sut mae'r amcan lles hwn yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol

7. Y gwersi a ddysgwyd a'r meysydd i'w datblygu

Yn gyffredinol, mae'r adroddiadau'n dangos bod y cyngor yn gwneud cynnydd wrth gyflawni'r camau i fodloni ei amcanion lles, ac mae'r meysydd i'w datblygu a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu nodi ar ddiwedd pob adroddiad.

Mae'r adroddiadau hyn hefyd yn nodi:

1. Sut roedd grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig a phlant a phobl ifanc yn rhan o'r gwaith.

2. Sut mae ein hamcanion lles yn cyfrannu at hyrwyddo'r Gymraeg, diogelu bioamrywiaeth a chryfhau ein hymagwedd at drechu tlodi.

3. Sut mae ein hamcanion lles yn cyfrannu at gyflawni lles byd-eang drwy ddatgarboneiddio, gan gynnwys lleihau'r galw am ynni, cynyddu effeithlonrwydd ynni a'r defnydd o ynni glân.

Mae gwybodaeth ychwanegol am y pwyntiau penodol hyn wedi'u nodi isod:

1. *Cynnwys grwpiau â nodweddion gwarchodedig a phlant a phobl ifanc*

Mae cydweddiad agos iawn rhwng amcanion lles y cyngor a'r camau i fodloni'r amcanion lles ac amcanion cydraddoldeb y cyngor fel a nodwyd yn ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016/20.

https://www.abertawe.gov.uk/cynlluncydraddoldebstrategol

Rydym wedi cyflwyno Cynghorwyr Hyrwyddo sy'n gyfrifol am amrywiaeth eang o faterion cydraddoldeb yn ogystal â themâu ehangach megis iechyd a lles, gofalwyr a cham-drin domestig. Mae'r Hyrwyddwyr yn darparu llais ar gyfer grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli'n draddodiadol, neu faterion y dylid parhau i roi blaenoriaeth iddynt ym musnes y cyngor. Maent yn sicrhau bod y mater neu'r grŵp y maent yn ei hyrwyddo yn cael ei ystyried wrth lunio polisïau a phenderfyniadau'r cyngor.

Mae ein proses Asesiad Effaith Cydraddoldeb estynedig , sy'n cynnwys CCUHP, gofalwyr, cydlyniant cymunedol, tlodi, eithrio cymdeithasol a'r Gymraeg, yn parhau i fod yn ddefnyddiol iawn wrth sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael eu hystyried ac yr ymdrinnir â hwy. Mae'r Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn rhan o'r broses cynllunio corfforaethol a phennu cyllideb wrth ddatblygu'r polisi. Roedd y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017/22 a'n hamcanion lles yn destun Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a gyflwynwyd i'r cyngor ynghyd â'r cynllun pan fabwysiadwyd ef.

Rydym yn parhau i gydlynu a datblygu ymhellach ymgysylltiad y cyngor â chymuned Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) Abertawe drwy ein Fforwm LGBT ac mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru. Rydym yn cefnogi'r rhwydwaith BME rhanbarthol gyda chydweithwyr o'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Rydym hefyd yn hwyluso Grŵp Cydgysylltu Anableddau, sydd wedi cwrdd â sawl adran o'r cyngor i drafod materion o gyd-ddiddordeb. Rydym yn parhau i hyrwyddo Cymorth i Ddioddefwyr, sef y ganolfan genedlaethol swyddogol ar gyfer rhoi cymorth ac adrodd am droseddau casineb yng Nghymru.

Rydym yn parhau i fabwysiadu ymagwedd cyngor cyfan at Hawliau Plant drwy Gynllun Gweithredu CCUHP. Mae digwyddiadau *Sgwrs Fawr* y cyngor yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc drafod materion sydd o bwys iddynt. Mae disgyblion ysgolion yn cymryd rhan yn eu haddysg drwy Gynghorau Ysgol a *Llais y Disgybl*.

Rydym yn parhau i gyflwyno strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Hŷn a Heneiddio'n Dda. Roedd dros 200 o bobl yn bresennol mewn Digwyddiad Cynnwys Heneiddio'n Dda ym mis Ebrill 2017 i hyrwyddo gwasanaethau a gwybodaeth ac i gasglu barn am yr hyn y mae Heneiddio'n Dda'n ei olygu i bobl ynghyd â sut byddai canol dinas sy'n ystyriol o oed yn edrych. Roedd digwyddiad diweddarach

yn Stiwdio Theatr y Grand ym mis Hydref 2017 wedi denu dros 200 o bobl gyda thros 40 o arddangoswyr ac roedd Tîm CCUHP a thîm y Blynyddoedd Cynnar hefyd yn bresennol.

2. *Y Gymraeg*

Rydym yn parhau i ddatblygu gweithdrefnau a phrosesau er mwyn hwyluso mabwysiadu Safonau'r Gymraeg a'u gweithredu'n lleol. Mae'r cyngor yn rhoi ail flwyddyn Cam II Mwy na Geiriau (Fframwaith Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg ym meysydd Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol) ar waith. Mae ein tîm gwasanaethau hamdden wedi derbyn canmoliaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg am ei waith i gyflwyno gwersi nofio drwy gyfrwng y Gymraeg. Dywedodd y Comisiynydd, Meri Huws, fod y gwaith yn dangos ymrwymiad clir gan y cyngor i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo yn yr ardal. https://www.abertawe.gov.uk/cymraeg

3. *Bioamrywiaeth*

Ychwanegwyd amcan lles newydd - *'Cynnal ac ehangu adnoddau naturiol a bioamrywiaeth Abertawe'* - at ein cyfres o amcanion lles yn dilyn adolygiad fel rhan o'r broses o adnewyddu ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2018/2022. Bydd hyn yn caniatáu i'r cyngor fwyafu ei gyfraniad at nod cenedlaethol *Cymru gydnerth* ac i fodloni ein rhwymedigaethau bioamrywiaeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd.

4. *Lles byd-eang*

Dechreuodd Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol y gwaith o adolygu ymagwedd y cyngor at gaffael er mwyn sicrhau buddion economaidd a chymunedol lleol yn 2017/18, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Roedd hyn yn cynnwys edrych i weld sut y gallai cyflenwyr lleol gyflwyno cynigion am gontractau'r cyngor gan helpu i gyfrannu at leihau effaith fyd-eang a chynyddu buddion lleol.

Diogelu pobl rhag niwed

1. Pam mae hwn yn amcan lles

- Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod dinasyddion yn byw eu bywydau'n rhydd rhag niwed a chamfanteisio.
- Mae angen ystyried bod diogelu pobl ddiamddiffyn yn fusnes i bawb ym mhob gwasanaeth yn y cyngor, i'r holl aelodau etholedig ac i'r rhai sy'n gweithio ar ran y cyngor.
- Rydym hefyd am i blant fod yn ddiogel rhag niwed ac aros gyda'u teuluoedd neu dderbyn cefnogaeth mewn lleoliadau teuluol, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny.
- Rydym am sicrhau bod yr holl oedolion diamddiffyn yn cael eu diogelu yn eu cartrefi a'u bod yn gallu cyrraedd eu potensial.
- Rydym am fynd i'r afael â cham-drin domestig a sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cefnogi'n llawn.
- Rydym am i bobl heneiddio'n dda a gallu byw mor annibynnol a diogel â phosib, a hynny yn eu cartrefi eu hunain.

2. Y camau y rydym wedi dweud y byddem yn eu cymryd i fodloni'r amcan lles hwn

- Parhau i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ddiogelu a sut i nodi pryderon ac adrodd amdanynt ymhlith staff y cyngor, aelodau etholedig, partneriaid, y cyhoedd a'r rhai sy'n gweithio ar ran y cyngor.
- Parhau i sicrhau bod trefniadau diogelu cadarn ar waith i ddiogelu'r rhai sydd mewn perygl o niwed sylweddol ac ecsbloetiaeth.
- Parhau i gryfhau cydweithrediad a phartneriaethau diogelu drwy Fyrddau Diogelu Plant ac Oedolion Bae'r Gorllewin.
- Parhau i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael cyfle i leisio'u barn am y gwasanaethau maent yn eu derbyn. Gwneud hyn drwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a thrwy arfer sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n canolbwyntio ar eu cryfderau a'u rhinweddau a'r hyn y gallan nhw a'u teuluoedd ei wneud i'w helpu eu hunain.
- Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin domestig a rhoi ymyriadau a chefnogaeth effeithiol ac amserol ar waith.
- Gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â diogelu yn ei ystyr ehangach: er enghraifft, troseddau casineb a bwlio mewn ysgolion.
- Rhoi mynediad cyfartal at wasanaethau i bobl er mwyn hybu annibyniaeth a gwella ansawdd bywyd.
- Parhau i fwyafu annibyniaeth pobl a'r gallu i fyw yn eu cartrefi eu hunain am hwy.
- Drwy'r Strategaeth Atal, sicrhau bod gan ddinasyddion fynediad at yr holl wasanaethau atal, megis Cydlynu Ardaloedd Lleol, sy'n caniatáu iddynt hyrwyddo'u lles a byw bywydau iach ac actif.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i bawb, gan gynnwys gofalwyr a gofalwyr ifanc.
- Gweithio gyda phartneriaid drwy'r Strategaeth Heneiddio'n Dda i aros yn iach a heneiddio'n dda.
- Datblygu statws Abertawe fel y ddinas gyntaf yng Nghymru "sy'n ystyriol o ddementia".
- Gweithio gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i sefydlu Siarter Pobl Hŷn i sicrhau y clywir lleisiau pobl hŷn.

3. Mesur llwyddiant

- Mae pobl yn cael eu diogelu rhag niwed drwy drefniadau effeithiol ac ymyriadau a chefnogaeth amserol. Mae staff y cyngor a'r aelodau etholedig yn parhau i gael eu hyfforddi ac mae'r cyhoedd a phartneriaid yn ymwybodol o faterion diogelu fel eu bod yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon. Mae'r galw am wasanaethau cymdeithasol yn cael ei reoli'n effeithiol

fel bod y gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy ac yn ddichonadwy'n ariannol. Mae pobl yn derbyn cymorth wrth heneiddio'n ddau ac mae eu lleisiau, eu hannibyniaeth a'u cyfranogaeth yn eu gofal eu hunain yn cael ei hyrwyddo.

4. Gwneud cynnydd tuag at y camau i fodloni'r amcan lles hwn - yr hyn sydd wedi gweithio

- Mae "Diogelu" yn amcan ehangach i Gyngor Abertawe na'r gwaith hanfodol o ddiogelu'r plant a'r oedolion mwyaf diamddiffyn . Mae'r flaenoriaeth gorfforaethol hon hefyd yn ymwneud â diogelu'r cyhoedd a hawliau dinasyddion.

- Mae Cyngor Abertawe'n disgwyl bod pobl ddiamddiffyn Abertawe'n ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod. I gyflawni hyn, mae diogelu oedolion a phlant diamddiffyn yn flaenoriaeth gorfforaethol ac yn cael ei chydnabod ar draws y cyngor fel "busnes pawb".

- Wrth fynd i'r afael â'r heriau hyn, mae aelodau etholedig a swyddogion y cyngor wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i adolygu a diweddaru Polisi Diogelu Corfforaethol Cyngor Abertawe'n llawn i gynnwys ystod eang o bryderon posib, megis cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, radicaleiddio (Strategaeth PREVENT i ddiogelu pobl ddiamddiffyn rhag cael eu radicaleiddio) ac anffurfio organau rhywiol merched (FGM).

- Adlewyrchir yn y polisi newydd yr elfen allweddol y mae'n rhaid i Gyngor Abertawe ei rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod diogelu'n effeithiol yn parhau i fod yn fusnes i bawb. Wrth weithredu'r polisi hwn, mae'n rhaid bod gan y cyngor drefniadau effeithiol o ddydd i ddydd sy'n cael eu goruchwylio gan fframwaith llywodraethu diogelu corfforaethol cryf wedi'i gefnogi gan swyddogion diogelu arweiniol. Gan weithio gyda'n gilydd, gallwn helpu i sicrhau bod yr holl staff a'r darparwyr yn llwyr ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth ddiogelu ein dinasyddion mwyaf diamddiffyn.

Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ddiogelu

- Ar draws y cyngor, disgwylir i'n gweithlu cyfan, yr holl aelodau etholedig a phartneriaid allweddol gwblhau hyfforddiant gorfodol sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o ddiogelu yn ogystal â'r ddyletswydd i adrodd. Er enghraifft, mae **523** o aelodau staff yng Ngwasanaethau Adeiladau Corfforaethol Abertawe wedi cwblhau naill ai'r elfen e-ddysgu neu'r hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelu wyneb yn wyneb. Mae Cyngor Abertawe hefyd yn ceisio darparu'r sesiynau 90 munud am ddim i'r 1,100 o yrwyr tacsis sy'n gweithredu yn y ddinas dros y misoedd nesaf. Y dinasyddion hyn yw 'llygaid' a 'chlustiau' newydd pryderon posib ynghylch pobl ddiamddiffyn yn y ddinas.

- Mae nifer uchel o bryderon diogelu o hyd, ac mae angen mynd i'r afael â hwy i gyd. Derbyniodd y Gwasanaethau i Oedolion **1,321** o ymholiadau diogelu (1,271 y llynedd). Derbyniom **540** (522) fel atgyfeiriadau/pryderon posib lle bodlonwyd y trothwy. Gwnaed **1,307** (1,128) o geisiadau am ddiogelu rhag colli rhyddid i'r Gwasanaethau i Oedolion ar ran pobl yn ystod 2017/18. Cysylltwyd â'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd **9,529** o weithiau ynghylch plant diamddiffyn, lle daeth **1,722** o'r rhain yn atgyfeiriadau/bryderon posib yn ystod 2017/18.

Trefniadau diogelu effeithiol

- Mae gan ddiogelu arweinyddiaeth gref a chefnogaeth gan y cyngor cyfan, yn enwedig gan aelodau'r Cabinet, ein byrddau craffu a'r Tîm Rheoli Corfforaethol a arweinir gan y Prif Weithredwr. Mae arweinwyr diogelu ym mhob maes gwasanaeth sy'n gweithio gyda'i gilydd drwy grŵp Diogelu Corfforaethol sy'n cwrdd bob chwarter, wedi'i gadeirio gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cydweithio a phartneriaethau

- Cynhaliodd Byrddau Diogelu Bae'r Gorllewin raglen o weithgareddau er mwyn nodi Wythnos Diogelu Genedlaethol, gydag ymgyrch i gynyddu ymwybyddiaeth mewn partneriaeth â gorsaf radio The Wave, a ddarlledodd gyfres o hysbysebion gwybodaeth drwy'r wythnos. Yn ystod Wythnos Diogelu Genedlaethol, roedd ymgyrch bob dydd a oedd yn canolbwyntio ar un o'r problemau ehangach megis camfanteisio'n rhywiol ar blant, caethwasiaeth fodern, iechyd meddwl a chydnerthedd a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Cynhelir adolygiadau arfer a digwyddiadau gwersi a ddysgwyd gan y byrddau rhanbarthol er mwyn sicrhau bod yr holl gamau'n cael eu cymryd i leihau'r perygl o niwed neu gamdriniaeth. Mae gan y Byrddau Diogelu hefyd strwythur llywodraethu cadarn sy'n sicrhau bod trefniadau diogelu'n cael eu gweithredu'n effeithiol ym mhob partner statudol.

- Cynhaliodd y Bartneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) ei digwyddiad blynyddol, ar Ddiwrnod y Rhuban Gwyn, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd o faterion ynghylch trais yn erbyn menywod. Cefnogwyd hwn gan Aelodau Seneddol, cynghorwyr, yr Elyrch, y Gweilch ac ystod o wasanaethau cyhoeddus ac roedd pob un yn bresennol.

Cyfranogaeth a llais

- Ym mhob agwedd ar y gwaith gyda dinasyddion, rydym yn ceisio adborth gan blant, oedolion, teuluoedd a gofalwyr sy'n defnyddio ein gwasanaethau i gyflawni eu canlyniadau lles eu hunain; mae eu barn yn helpu i lywio ein taith wella. Mae'n rhaid i bawb, boed yn oedolyn neu'n blentyn, gael llais, cyfle a hawl i gael eu clywed fel unigolion a dinasyddion er mwyn llywio'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i gael rheolaeth dros eu bywydau pob dydd. Mae sgwrs 'yr hyn sy'n bwysig i chi' wrth wraidd ein ffordd o weithio bellach, ar draws y gwasanaeth cyfan. Rydym wedi parhau i weithredu ffyrdd arloesol o weithio gyda phlant, pobl ifanc, oedolion a theuluoedd drwy ein fframwaith arfer Signs of Safety. Mae'r ymagwedd flaengar hon at waith achosion amddiffyn plant yn seiliedig ar gryfderau, wedi'i threfnu i ystyried diogelwch ac wedi'i gwreiddio mewn partneriaeth a chydweithredu. Drwy'r drws blaen ym mhob agwedd ar waith cymdeithasol, gallwn ddisgwyl i weithiwr archwilio cryfderau a pheryglon mewn teuluoedd er mwyn sefydlogi a chryfhau sefyllfa plentyn a theulu. Mae'r ymagwedd hon nawr yn cael ei chyflwyno i'r Gwasanaethau i Oedolion drwy'r fframwaith arfer 'Gwneud yr hyn sy'n bwysig' a ddatblygwyd yn ddiweddar.

- Mae gan blant sy'n derbyn gofal lais cryfach byth o ran yr hyn sy'n bwysig iddynt a gwell cyfleoedd mewn bywyd o ganlyniad i'r ystod o wasanaethau o safon a gefnogir gan Fwrdd Magu Plant Corfforaethol Abertawe. Mae Strategaeth Cyfranogiad a Chydgynhyrchu newydd y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn ceisio hyrwyddo ystod eang o gyfleoedd cyfranogiad a chyfranogaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae **Bright Spots** yn darparu adborth 360 gradd i blant yn lleoliadau'r fframwaith, gwaith stori bywyd, cyflwyniadau mewn adolygiadau. Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yw **InfoNation** sydd ar gael i bobl ifanc 16 ac 17 oed yng nghanol y ddinas, gydag amrywiaeth eang o gefnogaeth ar gael.

Cam-drin Domestig

- Mae gan Gyngor Abertawe Strategaeth VAWDASV a ddatblygwyd drwy ymagwedd bartneriaeth ac ymgynghoriad â'r cyhoedd. Mae amcanion y strategaeth yn cynnwys: Cynyddu ymwybyddiaeth o

VAWDASV a herio agweddau atynt; cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a bod cam-drin bob amser yn anghywir; rhoi ffocws cynyddol ar alw troseddwyr i gyfrif a darparu cyfleoedd i newid eu hymddygiad. Mae ymyrryd yn gynnar ac atal hefyd yn flaenoriaeth ac mae'r gweithwyr proffesiynol perthnasol wedi'u hyfforddi i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol ac addas ar gyfer dioddefwyr.

- Dylai fod gan ddioddefwyr, neu'r rheiny sydd mewn perygl o gamdriniaeth, gael mynediad cyfartal at adnoddau addas a gwasanaethau o safon sy'n seiliedig ar anghenion ac sy'n ymatebol i ryw. Mae gan Ganolfan Cam-drin Domestig Abertawe ddarpariaeth ar gyfer plant a'u teuluoedd sy'n cymryd 'ymagwedd teulu cyfan' at gefnogaeth. Mae'r ganolfan hon yn sicrhau ymatebion mwy cyfatebol a llwybr at Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd gan yr heddlu a roddir ar ôl i'r heddlu gael ei alw allan i ddigwyddiad. Gan na fyddai'r mwyafrif o atgyfeiriadau'n bodloni'r trothwy ar gyfer ymyriad statudol o reidrwydd, mae'r ganolfan yn helpu i gydlynu gwasanaethau ymyrryd yn gynnar, atal a chefnogi teuluoedd. Mae'r datblygiad hwn yn cael ei wella gan siop dan yr unto ar gyfer cam-drin yn y cartref sy'n agored i bawb (benywod neu wrywod) y mae ganddynt brofiad o gam-drin domestig ar hyn o bryd neu yn y gorffennol neu unrhyw un sy'n chwilio am wybodaeth a chefnogaeth.

Troseddau casineb

- Gan weithio gyda phartneriaid allweddol, mae Abertawe wedi datblygu Cynllun Gweithredu Rhanddeiliaid Troseddau Casineb gyda thri amcan strategol: atal troseddau casineb; cynyddu adrodd a mynediad er mwyn cefnogi dioddefwyr a gwella'r ymateb amlasiantaeth i droseddau casineb. Goruchwylir y cynllun hwn gan bartneriaeth amlasiantaeth ac mae hyfforddiant e-ddysgu sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb ar gael ar gyfer holl staff y cyngor ac mae'n ofynnol i bawb. I nodi Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, trefnodd y cyngor seminar cynyddu ymwybyddiaeth o'r enw 'What if...it was you?' lle clywodd staff y cyngor gan amrywiaeth o siaradwyr, gan gynnwys Anabledd Cymru, Stonewall Cymru, Y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig, Heddlu De Cymru a Chymorth i Ddioddefwyr.

Bwlio mewn ysgolion

- Mae Abertawe'n ymrwymedig i weithio dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) er mwyn sicrhau hawliau dynol plant. Mae'r hawliau hynny'n cynnwys bod yn ddiogel, goroesi a ffynnu, derbyn addysg, cael eu clywed a chyflawni eu potensial. Mae Cyngor Abertawe, y gwasanaethau addysg ac ysgolion yn ymdrin â bwlio'n ddifrifol iawn. Rydym yn deall yr effaith y gall ei chael ar y plentyn ac ar ei allu i gyflawni ei botensial llawn. Er y disgwylir bod gan yr holl ysgolion strategaethau a pholisïau gwrth-fwlio er mwyn mynd i'r afael â bwlio, disgwylir iddynt hefyd gael ymagweddau ataliol, ysgol gyfan ar waith sy'n dysgu'r sgiliau sy'n hyrwyddo cyfathrebu a pherthnasoedd da i blant er mwyn cydnabod bwlio a mynd i'r afael â hynny pan fydd yn digwydd. Ar hyn o bryd mae'r awdurdod lleol yn archwilio sut y gall wneud defnydd o feddalwedd ddiogelu **My Concern** er mwyn monitro bwlio'n ehangach i sicrhau bod ysgolion yn cael y gefnogaeth a dargedir sy'n berthnasol.

- Gwnaed gwaith gyda grŵp o benaethiaid ysgolion cynradd i ailddatblygu **My Selfie**. Mae My Selfie'n darparu cyfle i ddisgyblion ysgolion cynradd gael roi adborth uniongyrchol am eu bywyd ysgol a'u lles. Mae'r wefan yn darparu cyfeiriadau at adnoddau lles a diogelu ar gyfer disgyblion o bob oedran. Gall staff addysgu allweddol mewn ysgolion wneud defnydd o'r wybodaeth er mwyn cael dealltwriaeth gyfannol o anghenion y disgybl unigol ac i wella addysgeg.

Radicaleiddio (Strategaeth Prevent)

- Nod y **Strategaeth Prevent** yw lleihau'r bygythiad i'r DU o derfysgaeth drwy atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth. Mae'n canolbwyntio ar ddiogelu pobl sy'n agored i gael eu radicaleiddio neu eithafiaeth (treisgar a di-drais). Mae gan Gyngor Abertawe'r rôl arweiniol wrth gyflwyno'r Strategaeth Prevent yn unol â'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015. Y tri phrif amcan yw: ymateb i her ideolegol terfysgaeth; atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth; a gweithio gydag amrywiaeth o sectorau a sefydliadau lle mae risgiau o radicaleiddio. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid megis yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd Lleol, y Gwasanaethau Prawf, sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch ac ysgolion i ddiogelu dinasyddion rhag eu radicaleiddio, drwy broses amlasiantaeth o'r enw Channel, wedi'i chadeirio gan Gyngor Abertawe. Mae'r rhaglen yn sicrhau bod plant ac oedolion diamddiffyn yn derbyn cefnogaeth cyn i'r rhai a fyddai am iddynt groesawu terfysgaeth fanteisio ar eu natur ddiamddiffyn, a chyn iddynt ddechrau cymryd rhan mewn gweithgarwch terfysgaeth droseddol. Ym mlwyddyn ariannol 2017-18, cawsom 19 o atgyfeiriadau Prevent.

- Cyflwynwyd hyfforddiant cynyddu ymwybyddiaeth Prevent i 3,322 o aelodau staff rheng flaen, gan gynnwys staff addysgu ac aelodau etholedig ers mis Ionawr 2013, gyda 294 o aelodau ychwanegol o staff yn cwblhau hyfforddiant e-ddysgu gorfodol ers mis Awst 2017. Cydnabuwyd eithafiaeth asgell dde fel y perygl mwyaf o eithafiaeth yn Abertawe. Er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o'r bygythiad, roedd 129 aelod o staff a 34 disgybl ysgol uwchradd yn bresennol mewn gweithdai yn gynharach eleni er mwyn helpu i gefnogi ein dinasyddion.

Mynediad cyfartal at wasanaethau

- Gall dinasyddion Abertawe ddisgwyl gwybod a deall pa wasanaethau sydd ar gael er mwyn hyrwyddo annibyniaeth a gwella ansawdd bywyd a chael mynediad at y gwasanaethau hyn er mwyn cyflawni eu canlyniadau lles. Gall pobl gael mynediad at yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth cywir pan fo'u hangen arnynt, yn y ffordd maent am eu derbyn a defnyddio'r wybodaeth hon i reoli a gwella eu lles eu hunain. Rydym yn disgwyl i lais pob dinesydd gael ei glywed gan y gwasanaethau, bod pobl yn gwrando ar bob llais yn astud, a bod pobl yn siarad drostynt eu hunain ac yn cyfrannu at y penderfyniadau a wneir arnynt.

- Mae Cyngor Abertawe'n cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y trefniadau rheng flaen ar gyfer lles yn gywir drwy gynyddu ymwybyddiaeth gorfforaethol o'r cyfraniadau y gall holl wasanaethau'r cyngor eu gwneud at les a diogelu dinasyddion a theuluoedd a thuag at gryfhau cymunedau.

- Atebodd ein Gwasanaethau i Oedolion **25,016** (25,200) o alwadau ffôn, lle'r oedd **12,965** ohonynt yn bobl ag anghenion gofal a chefnogaeth. Mewn gwirionedd, derbyniodd **7,573** (7,015) o bobl ofal a chefnogaeth gan y Gwasanaethau i Oedolion eleni. Cysylltwyd â'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd **9,529** o weithiau ynghylch pryderon lle'r oedd **1,722** ohonynt yn atgyfeiriadau i'n gwasanaethau statudol. Yn ystod 2017/18, roedd **3,428** o blant ac oddeutu **2,085** o deuluoedd yn cael eu cefnogi'n uniongyrchol gan y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Ystyrir drws blaen croesawgar, effeithiol fel rhan hanfodol o Abertawe Gynaliadwy er mwyn sicrhau bod y bobl gywir yn cael y cymorth cywir gan yr unigolion cywir ar yr adeg gywir. Rydym yn ceisio deall sut rydym yn ymateb ar draws yr holl gontinwwm angen pan fo pobl yn cysylltu â ni am gymorth.

- Drwy Ymagwedd Meddwl trwy Systemau, cytunwyd ar achos busnes i weithredu Canolfan Cam-drin Domestig amlasiantaeth gan bartneriaid ac rydym yn defnyddio'r un fethodoleg i weithio tuag at gyflwyno gwasanaeth system unigol ar gyfer plant a theuluoedd ar draws y continwwm er mwyn atal cynnydd mewn angen ac i reoli galw. Yn ychwanegol, mae'r ymagwedd gydgynhyrchu yn y gwasanaethau cymdeithasol wedi gweld newid yn y ffordd y mae defnyddwyr gwasanaeth yn

ymgysylltu â'r cyngor. Bydd Rhwydwaith Cydgynhyrchu Abertawe'n cael ei lansio'n dilyn llwyddiant y rhwydwaith cydgynhyrchu rhanbarthol a gynhaliwyd gan asiantaethau Abertawe.

- Rydym yn parhau i gyflwyno prosesau caffael a chomisiynu i gefnogi ymagweddau cydgynhyrchu; rydym yn cydgynhyrchu manyleb gwasanaeth ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol ac rydym yn cynnwys dinasyddion yn y broses dendro. Rydym hefyd yn cynnwys dinasyddion yn y gwaith o ailfodelu ac ailddendro Byw â Chymorth.

Mwyafu annibyniaeth pobl

- Mae gwasanaethau'r cyngor yn parhau i fod yn brysur iawn, gyda galw cynyddol am wasanaethau cymdeithasol yn benodol. Er mwyn rheoli galw a thueddiadau tymor hir, mae Cyngor Abertawe wedi mabwysiadu Model Gwasanaeth ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion yn ogystal â gweledigaeth a rennir ar gyfer iechyd, gofal a lles yn y ddinas:

  "Bydd gan bobl yn Abertawe fynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol modern a fydd yn eu galluogi i fyw bywydau bodlon gydag ymdeimlad o les o fewn teuluoedd cefnogol a chymunedau cadarn. Byddwn yn helpu pobl i fod yn ddiogel a chael eu hamddiffyn rhag niwed, ac yn rhoi cyfleoedd iddynt deimlo'n ddigon hyderus i allu lleisio barn, dewis a rheolaeth ym mhob agwedd ar eu bywydau. Bydd ein gwasanaethau'n canolbwyntio ar atal, ymyrryd yn gynnar a galluogi, a byddwn yn rhoi gwell cefnogaeth i bobl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael gyda chefnogaeth ein gweithlu hynod fedrus a gwerthfawr."

- Mae ein Rhaglen Gwella Gwasanaethau i Oedolion yn canolbwyntio ar ddilyn chwe egwyddor allweddol er mwyn gwella ar gyfer gosod y person wrth wraidd ei ofal a'i gefnogaeth, gofalwyr a'n cymunedau.

  - Ataliaeth well
  - Cymorth cynnar gwell
  - Ymagwedd newydd at asesu
  - Cadw pobl yn ddiogel
  - Gweithio gyda'n gilydd yn well
  - Gwell cost effeithiolrwydd

- Yn ogystal â chytuno ar egwyddorion, mae datblygiadau sylweddol newydd sy'n helpu i fwyafu annibyniaeth pobl a'r gallu i fyw yn eu cartrefi eu hunain am hwy:

  - Yn unol â Model Gorau Posib Bae'r Gorllewin ar gyfer Gofal Canolraddol, datblygwyd y gwasanaeth Gofal Cartref Ailalluogi er mwyn cynnig cefnogaeth tymor byr i fwy o bobl i adfer eu sgiliau a'u hyder er mwyn parhau i fod yn eu cartrefi am hwy.
  - Mae 28 gwely ailalluogi preswyl dynodedig yn Nhŷ Bôn-y-maen a Thŷ Waunarlwydd sy'n cynnig cefnogaeth fwy penodol er mwyn caniatáu i bobl adfer eu sgiliau a'u hyder er mwyn dychwelyd i'w cartrefi pryd bynnag y bo modd.
  - Mae nifer y bobl sy'n cael eu cefnogi yn y cartref gan ofal cartref tymor hir wedi cynyddu, ond mae nifer y bobl sy'n byw mewn lleoliadau preswyl/nyrsio a ariennir wedi aros yr un peth, sy'n golygu bod mwy o bobl yn cael eu cefnogi yn eu cartrefi eu hunain.
  - Mae'r fframwaith arfer gwaith cymdeithasol yn cefnogi ymarferwyr i gael trafodaethau sy'n seiliedig ar gryfderau â phobl o'r cychwyn er mwyn sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei darparu yn unol â'u dymuniadau.

- Mae gan y Pwynt Mynediad Cyffredin dîm amlddisgyblaeth mewn lle bellach i helpu i flaenoriaethu wrth y 'drws blaen', ac mae hyn yn cynnwys mynediad at Nyrsio Ardal drwy bwynt cyswllt unigol.
- Mae trawsnewid gofal cartref a gofal preswyl yn rhan o raglen Abertawe Gynaliadwy.

Strategaeth Atal

- Drwy **Strategaeth Atal** y cyngor, rydym yn sicrhau bod gan ddinasyddion fynediad at yr holl wasanaethau atal, megis Cydlynu Ardaloedd Lleol, sy'n caniatáu iddynt hyrwyddo'u lles a byw bywydau iach ac actif. Er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael mewn cymunedau cryf a gwydn, mae Abertawe wedi ehangu'r cydlynu ardaloedd lleol o 4 i 10 ardal leol, a derbyniwyd cyllideb gan bartner allanol am safle newydd ym Mlaen-y-maes.

Gofalwyr a gofalwyr ifanc

- Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i wella mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth ar gyfer pob gofalwr a gofalwr ifanc. Mae ein Cynghorwyr Hyrwyddo'n hyrwyddo anghenion gofalwyr a gofalwyr ifanc. Mae cefnogaeth ar gyfer gofalwyr ifanc bellach ar gael drwy ystod ehangach o bartneriaid, megis y YMCA, a gweithgareddau megis Art Baba's a thrwy Amgueddfa Abertawe. Mae Strategaeth Gofalwyr yn y broses o gael ei datblygu; bydd hon yn adlewyrchu barn gofalwyr ifanc.

Heneiddio'n dda

- Mae Abertawe'n gweithio gyda phartneriaid drwy'r **Strategaeth Heneiddio'n Dda** i helpu pobl i barhau i fod yn iach ac i heneiddio'n dda, ac mae rhwydwaith sefydledig ar gyfer pobl sy'n 50 oed ac yn hŷn yn cefnogi'r gwaith hwn, sy'n cysylltu dinasyddion ag ystod eang o wybodaeth, grwpiau cefnogaeth a digwyddiadau. Datblygir cynllun cynnwys a chyfranogiad ar gyfer pobl hŷn, sy'n seiliedig ar y model rydym wedi'i ddatblygu ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd ein gwaith sy'n datblygu ar Hawliau Dynol yn ategu'r gwaith hwn.

Dinas sy'n Ystyriol o Ddementia

- Mae Cyngor Abertawe'n ceisio datblygu statws Abertawe fel y **ddinas gyntaf yng Nghymru sy'n ystyriol o ddementia**. Mae mudiad lleol, Abertawe sy'n Ystyriol o Ddementia, yn canolbwyntio ar wella cynhwysiad ac ansawdd bywyd pobl â dementia yn Abertawe a'r ardaloedd cyfagos. Mae dros 9,000 o Ffrindiau Dementia yn Abertawe ac mae fforwm yn cwrdd yn rheolaidd i gefnogi prosiectau a mentrau sy'n ystyriol o ddementia yn yr ardal. Mae hefyd yn creu rhwydwaith hanfodol rhwng sefydliadau ar gyfer rhannu gwybodaeth a nodi meysydd i'w gwella.

Siarter Pobl hŷn

- Mae gwaith ar waith i sicrhau bod gwasanaethau'r cyngor yn cael eu cyflwyno gan ystyried egwyddorion a bennir gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Fel fframwaith ar gyfer sut mae trin pobl hŷn, mae'n cynnwys:

    - Annibyniaeth
    - Cyfranogiad
    - Gofal
    - Hunangyflawniad
    - Urddas

- Mae gwaith yn cael ei wneud er mwyn sefydlu siarter i sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed ym mhob agwedd ar gyflwyno gwasanaethau.

5. Y gwahaniaeth y mae'r amcan lles hwn yn ei wneud - astudiaeth(au) achos

- Dyma dair enghraifft lle mae Cyngor Abertawe'n gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y sector iechyd, y trydydd sector ac yn yr economi leol er mwyn sicrhau bod amrywiaeth dda o gyfleoedd lles, ymyrryd yn gynnar ac atal.

Astudiaeth Achos 1: Mae'r Gwasanaethau Dydd yn helpu i adeiladu cymunedau cefnogol er mwyn helpu i ddiogelu ein pobl fwyaf diamddiffyn.

Mae Gwasanaeth Dydd Sant Ioan yn cefnogi pobl hŷn sy'n byw ag anghenion cymhleth, y mae llawer ohonynt yn dioddef o ddementia, ar eu pennau eu hunain, gydag ychydig iawn o gefnogaeth neu ddim cefnogaeth o gwbl gan deulu neu ddim rhyngweithio cymdeithasol heblaw am eu hymweliad wythnosol â'r gwasanaeth dydd. Er mwyn cysylltu â'n cymuned leol ac i aelodau gael rôl fuddiol ynddi, mae'r staff wedi bod yn gweithio ar y cyd ag Eglwys Ddiwygiedig Unedig Christwell i gynnig cyfleoedd cymunedol, rhannu sgiliau a gwybodaeth a meithrin cysylltiadau a pherthnasoedd gwerthfawr. Mae hwn yn brosiect arloesol mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys elusen digartrefedd Caerlas, cludiant cymunedol DANSA a gwasanaethau prawf a Sefydliad ROOTS Cymru. Enwebwyd Gwasanaeth Dydd Sant Ioan gan Gyngor Abertawe am wobr Gofal Cymdeithasol Cymru am y datblygiad hwn.

Astudiaeth Achos 2: Mae diogelu'n fusnes i bawb

Mae'r mwyafrif o weithwyr y cyngor - o blymwyr a seiri i gyfrifyddion a gweithredwyr y canolfannau galwadau wedi cwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol. Mae Cyngor Abertawe wedi ehangu'r cynnig o hyfforddiant 90 munud am ddim i grwpiau allweddol o weithwyr. Er enghraifft, clustnodwyd pob un o'r 1,100 o yrwyr tacsis sy'n gweithredu yn y ddinas i'w hyfforddi. Mae llawer o'r rheiny sydd wedi'u hyfforddi bellach yn gwybod yr hyn y mae angen iddynt ei wneud os ydynt yn poeni am ddiogelwch plentyn neu oedolyn diamddiffyn ac maent yn dweud bod y cwrs yn werthfawr iawn. Meddai Amy Ward, gyrrwr tacsi, "Mae wedi bod yn agoriad llygaid i mi ac roeddwn yn teimlo fel ei fod yn bwysig iawn. Mae'n siomedig bod y pethau hyn yn digwydd ond mae'n dangos i chi yr hyn y mae angen i chi gadw llygad amdano. Mae rhai gyrwyr rwyf wedi siarad â hwy'n dweud nad oes ganddynt yr amser i gwblhau'r cwrs ond rwyf wedi esbonio iddynt y gallai fod angen help ar eich merch, eich mab neu eich chwaer chi." Ychwanegodd gyrrwr arall, Nigel Lucas, "Rwy'n credu dylai pob gyrrwr gwblhau'r hyfforddiant er mwyn rhannu'r neges. Rwy'n falch fy mod i wedi mynd."

Astudiaeth Achos 3: Cymuned Gydgynhyrchu Abertawe

Mae Rhwydwaith Cydgynhyrchu Abertawe, drwy Gymuned Gydgynhyrchu Abertawe a gefnogir gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe (CGGA), a thrwy ddatblygu strategaethau a chynlluniau comisiynu sy'n seiliedig ar bobl, bellach yn ymgorffori cynnwys dinasyddion wrth ddylunio a chyflwyno gwasanaethau newydd ac wrth ddatblygu'r farchnad gofal cymdeithasol. Er enghraifft, er mwyn mynd i'r afael â newidiadau i bolisïau cenedlaethol, mae Abertawe wedi bod yn gweithio'n agos gydag 8 darparwr lleol a chyda dinasyddion i gyd-ddylunio fframwaith sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i ddiogelu hawliau ein dinasyddion mwyaf diamddiffyn ac i lywio comisiynu yn y dyfodol, a ategir gan fanyleb gwasanaeth a berchnogir ar y cyd sydd wedi'i diweddaru. Cwblhawyd adolygiad strategol o'n llwybr llety unigol ar gyfer pobl ifanc sy'n 16 oed ac yn hŷn. Un o ganlyniadau hyn yw bod Abertawe'n

dechrau ar arfer caffael gyda'n darparwyr a fydd yn arwain at opsiynau gwell ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal.

6. Sut mae'r amcan llesiant hwn yn cyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol?

- *Cymru lewyrchus* - ceisio ehangu cyfleoedd dysgu a chyflogaeth drwy'r Strategaeth Heneiddio'n Dda
- *Cymru gydnerth* - cefnogi oedolion ag anableddau dysgu i elwa o swyddi a chyfleoedd profiad gwaith sy'n gwneud gwahaniaeth iddynt a'u cymunedau lleol, gan gynnwys gwaith i gefnogi rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt ac amgylcheddol.
- *Cymru iachach* - diogelu pobl rhag niwed a gwella iechyd a lles corfforol, emosiynol a meddyliol. Cynyddu annibyniaeth pobl drwy gydol eu bywyd a gwella eu gallu i fyw bywydau actif a llawn.
- *Cymru sy'n fwy cyfartal* - defnyddio cryfderau teuluoedd a chymunedau yn eu gofal eu hunain fel y gallant gyrraedd eu potensial ac osgoi'r angen am gael mynediad at wasanaethau statudol neu'r angen i barhau ynddynt.
- *Cymru o gymunedau cydlynus* - bod gweithwyr y cyngor, yr aelodau etholedig a'r bobl yn ein cymunedau'n teimlo'n hyderus o ran sut i nodi, trafod ac adrodd am bryderon diogelu mewn perthynas â phlant ac oedolion.
- *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu* - gweithio gyda phartneriaid drwy'r Strategaeth Heneiddio'n Dda er mwyn manteisio ar gyfleoedd dysgu a chyflogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.
- *Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang* - mae ymrwymiad y cyngor i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn llywio trefniadau diogelu'r cyngor.

7. Gwersi a ddysgwyd a meysydd i'w datblygu

- Gwnaed cynnydd sylweddol gan y cyngor o ran bodloni ei amcan lles ond dysgwyd gwersi ac mae meysydd i'w datblygu ymhellach.

Hyfforddiant Diogelu

- Mae gallu'r gweithlu i barhau i gyflwyno'r hyfforddiant diogelu'n barhaus dan straen am fod canlyniadau'r toriadau'n parhau i gael effaith. Mae datblygu'r gweithlu'n bwriadu nodi anghenion hyfforddi a rhoi gwybod am gyfleoedd neu fodelau eraill o gyflwyno a fydd yn bwysig. Mae diwygio arfer gwaith cymdeithasol yn bwysig er mwyn cynnal trefniadau diogelu effeithiol. Bydd y prosiect hwn yn cael ei fonitro er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth ailgynlluniedig yn cael ei wreiddio, ei integreiddio'n effeithiol a sicrhau yr ymdrinnir ag unrhyw faterion anrhagweledig.

Llais

- Mae'r gwaith i wella cyfleoedd i blant sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn parhau; er enghraifft, drwy ddefnyddio 'My Concern' mewn ysgolion i ganiatáu i ddisgyblion adrodd am faterion diogelu, gan gynnwys troseddau casineb a bwlio mewn ysgolion. Mae gan y gwasanaethau iechyd hefyd gyfrifoldebau mewn perthynas ag eiriolaeth a gallai fod yn rhan o drefniadau yn eu gwaith yn y dyfodol gyda'r cyngor. Mae Strategaeth Gofalwyr yn y broses o gael ei datblygu; bydd hon yn adlewyrchu barn gofalwyr ifanc.

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

- Bydd y gwaith i weithredu'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gyda phartneriaid yn cael ei symud ymlaen. Mae cyfleoedd gweithio ar y cyd o bosib gyda Chyngor Castell-nedd Port Talbot a gellir archwilio cyfleoedd ariannu gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae gwaith wedi dechrau i ystyried rhoi cefnogaeth benodol ar waith ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd a'r rhai o'r gymuned LGBT. Bydd cynnal cyfranogaeth a pherchnogaeth partneriaethau'n hanfodol ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol.

Troseddau casineb/bwlio

- Mae dros hanner ysgolion Abertawe bellach yn defnyddio 'My Concern' i gofnodi pob achos o bryder am ddiogelu/les. Mae'r feddalwedd ddiogelu yn dileu'r angen am ffeiliau papur trwy fonitro a rheoli pob pryder lles sydd gan y plant a'r bobl ifanc. Mae'r cyngor wrthi'n ystyried ar hyn o bryd y ffordd orau o ddefnyddio'r feddalwedd i ddarparu trosolwg o'r mathau o achosion sy'n cael eu cofnodi. Byddai hyn yn rhoi trosolwg lefel uchel i'r cyngor ac yn caniatáu i ni glustnodi cefnogaeth yn effeithlon ac yn effeithiol. Mae cwblhau'r pecyn e-ddysgu Troseddau Casineb bellach yn orfodol i bob aelod o staff a byddwn yn parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o adrodd am droseddau casineb drwy fentrau a gyflwynir yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb.

Mynediad cyfartal at wasanaethau er mwyn hyrwyddo annibyniaeth/byw ar eu pennau eu hunain

- Mae'r cyngor yn ymrwymedig i hyrwyddo annibyniaeth pobl ac i wella ansawdd eu bywydau ac i ganiatáu i bobl fyw gartref am hwy. Mae risgiau ynghylch herio'r diwylliant presennol, sef 'gwneud dros bobl'. Ymdrinnir â hyn yn bennaf drwy ymagwedd ailalluogi ac adolygu at ofal, ar y cyd â chyfeirio effeithiol. Fodd bynnag, gellid cefnogi hyn ymhellach drwy gyfathrebu'n well a hyrwyddo datrysiadau eraill yn y gymuned.

Strategaeth Atal

- Diben y Strategaeth Atal yw lleihau'r galw am wasanaethau statudol a herio'r diwylliant 'gwneud dros bobl'. Mae dangosyddion perfformiad priodol yn cael eu cwblhau ar draws y cyngor ar gyfer y strategaeth, gan gynnwys sefydlu gwaelodlinau, targedau ac amserlenni adrodd disgwyliedig ar gyfer pob amcan strategol. Mae cyfleoedd allweddol ar gyfer cydweithio'n fewnol ac â phartneriaid i gyflwyno'r gwasanaethau cywir ar yr amser cywir yn y lle cywir. Bydd cynnal cyfranogaeth a pherchnogaeth partneriaethau'n hanfodol ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol.

Gwybodaeth, cyngor a chymorth

- Er mwyn gwreiddio'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a gweithio i greu pwyntiau mynediad clir, mae datblygu continwwm cefnogi teuluoedd a threfniadau cymorth cynnar yn hanfodol, sydd hefyd wedi'u hanelu at newid y diwylliant 'gwneud dros bobl'. Mae cyflwyno'r prosiect hwn mewn modd amserol yn hanfodol i gyflwyno'r strategaethau er mwyn lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ddiogel ac i wella cynaladwyedd ariannol y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Cynhelir adolygiad o'r systemau hefyd er mwyn datblygu ymhellach sut mae cael mynediad at y gwasanaethau cyhoeddus yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac i ganiatáu mynediad teg at wybodaeth, cyngor a chymorth mewn perthynas â'r gwasanaethau statudol a'r sector ataliol.

Heneiddio'n Dda/Dementia

- Mae llwyddiant y *Strategaeth Heneiddio'n Dda'n* ddibynnol ar heriau'r diwylliant 'gwneud dros bobl'. Bydd y llwyddiant yn ddibynnol ar ddod o hyd i adnoddau i gyflwyno'r prosiect 'Gwneud i bob cyswllt gyfrif' er mwyn sicrhau bod sylw ehangach yn cael ei roi a'i fod yn cael ei wreiddio yn yr hyn sydd eisoes yn bodoli. Bydd cynnal cyfranogaeth a pherchenogaeth partneriaethau'n hanfodol ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol, gan gynnwys gwaith i sicrhau statws Abertawe fel Dinas sy'n Ystyriol o Ddementia. Byddwn yn edrych i adolygu amcanion *Heneiddio'n Dda* yn 2018/19 yn unol ag ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau dynol.

Siarter Pobl Hŷn

- Bydd gwaith i sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed yn cael ei ddiwallu drwy gynllun cyfranogiad sy'n seiliedig ar hawliau. Dyma gyfle i adeiladu ar y gwaith da a wnaed yn y cyngor o ran hyrwyddo hawliau plant fel rhan o CCUHP. Bydd y cynllun cyfranogiad sy'n seiliedig ar hawliau'n cyd-fynd ag ymagwedd Dinas Hawliau Dynol ond bydd angen i lefelau staffio hwylsuo hyn wrth i bethau ddatblygu.

Gwella **addysg a sgiliau**

1. Pam mae hwn yn amcan lles?

- Rydym am i bob plentyn a pherson ifanc yn Abertawe ennill y sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol i lwyddo mewn bywyd.
- Mae plant a phobl ifanc sy'n mynd i'r ysgol yn rheolaidd yn fwy tebygol o ennill y sgiliau a'r cymwysterau angenrheidiol i fynd ymlaen i addysg bellach, addysg uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Bydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn cyflwyno cyfleusterau o'r radd flaenaf ym meysydd ynni, gweithgynhyrchu clyfar, arloesedd a gwyddorau bywyd, gyda buddsoddiad sylweddol yn isadeiledd digidol y rhanbarth a sgiliau'r gweithlu a'r doniau sy'n sail i bob un.
- Mae angen cymwysterau a sgiliau ar blant a phobl ifanc sy'n addas ar gyfer anghenion economaidd y dyfodol.
- Rydym am i blant gael eu hatal rhag colli diddordeb mewn dysgu.
- Pan fydd plentyn yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol, daw'r cyngor yn rhiant corfforaethol â chyfrifoldeb cyfreithiol a moesol dros y plentyn hwnnw. Rydym am i blant sy'n derbyn gofal lwyddo yn yr ysgol a chael cyfleoedd ar gyfer addysg bellach, addysg uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Rydym am i'n plant a'n pobl ifanc fod yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau byd-eang fel y gallant fod yn ddinasyddion actif a chyfrifol, cyflawni eu potensial a gwneud gwahaniaeth i'w cymunedau.
- Rydym am i'n plant a'n pobl ifanc feddu ar sgiliau Cymraeg priodol.

2. Y camau rydym wedi dweud y byddem yn eu cymryd i fodloni'r amcan lles hwn.

- Cydlynu'n system addysg a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau ein bod yn creu'r bobl iawn â'r sgiliau iawn i gyflenwi'r economi newydd ac ateb her Bargen Ddinesig Bae Abertawe.
- Parhau i gefnogi a herio ysgolion i wella presenoldeb a pherfformiad disgyblion ac annog ysgolion i gefnogi ei gilydd.
- Mae ysgolion yn dilyn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, gan sicrhau bod strategaeth glir ar waith ar gyfer ysgolion. Adlewyrchir hyn yn y canlyniadau ar draws pob oed, sy'n rhagori ar y targedau a bennwyd ac sy'n uwch na chyfartaledd Cymru.
- Dal ati i ganolbwyntio ar wella llythrennedd (yn Gymraeg ac yn Saesneg) a rhifedd ar bob lefel.
- Trawsnewid yr ystad ysgolion i ateb y galw ac ymateb i'r datblygiadau sy'n cael eu nodi yn y *Cynllun Datblygu Lleol*.
- Codi lefelau sgiliau yn y gweithle ac ym maes adeiladu a chynyddu dyheadau galwedigaethol, a chyfrannu at ddatblygiad pobl ifanc ac oedolion uchelgeisiol, medrus drwy ddarparu prentisiaethau.
- Hyrwyddo dysgu gydol oes i adlewyrchu natur newidiol y byd gwaith a chefnogi lles a lleihau unigedd cymdeithasol.
- Addysgu dinasyddion ifanc i barchu hawliau, deall cyfrifoldebau a bod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n ymwybodol o'r byd drwy barhau i gefnogi ysgolion i ddod yn *Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICE*F fel rhan o'n hymrwymiad i CCUHP a hefyd Eco-sgolion, gan gynyddu dealltwriaeth, parch a gwerthfawrogiad o'n hamgylchedd.
- Parhau i gynnwys plant a phobl ifanc yn eu haddysg drwy *Lais y Disgybl* a *Chynghorau Ysgol* a digwyddiadau cynnwys y *Sgwrs Fawr*.
- Ateb y galw am addysg Gymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion drwy gynllun strategol *Y Gymraeg mewn Addysg*.

- Defnyddio'n rhaglen adeiladau a chynnal a chadw ysgolion i leihau ein hôl troed carbon drwy osod paneli solar/PV a systemau gwres effeithlonrwydd uchel a defnyddio cyflenwyr lleol lle y bo'n bosib.

- Sicrhau nad yw plant dan anfantais oherwydd tlodi wrth gyflawni a chyrraedd safonau a lles mewn addysg.

3. Mesur llwyddiant

- Mae disgyblion, gan gynnwys disgyblion diamddiffyn, yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn gwella eu llythrennedd, eu rhifedd a'u llwyddiannau addysgol gan gynnwys mewn pynciau STEM. Mae'r galw am addysg ac addysg Gymraeg yn parhau i gael eu bodloni ac mae mwy o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau addysg. Mae disgyblion yn ymwybodol o'u hawliau, maent yn parhau i gael cyfle i ddweud eu dweud am eu haddysg ac mae ganddynt gyfleoedd i ddysgu am werth yr amgylchedd a gweithio gyda natur. Y tu allan i'r ysgol, mae mwy o bobl yn ymrwymo i brentisiaethau yn y cyngor ac mae dysgu gydol oes yn parhau i gael ei hyrwyddo.

4. Gwneud cynnydd tuag at y camau i fodloni'r amcan lles hwn - yr hyn sydd wedi gweithio.

Sgiliau ar gyfer yr economi newydd a'r Fargen Ddinesig

- Mae ysgolion mewn cydweithrediad ag ERW (y consortiwm addysg rhanbarthol ar gyfer de-orllewin Cymru) yn parhau i ddatblygu Strategaeth Ddigidol a gweithredu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol. Dewiswyd Ysgol Gyfun Tre-gŵyr ac Ysgol Gynradd St Thomas yn Abertawe fel ysgolion arloesi yng Nghymru i arwain ar ddatblygiad Cymhwysedd Digidol fel rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru i wella'r cwricwlwm ysgolion. Mae nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn Abertawe wedi cymryd rhan yn her godio'r DVLA, a oedd yn caniatáu i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth am raglenni cyfrifiaduron, datrys problemau, sgiliau cyfathrebu a gwaith tîm. Darparwyd hyfforddiant i nifer o ysgolion, yn enwedig, codio a chyfrifiadureg mewn ysgolion cynradd.

- Bydd Partneriaeth Sgiliau Abertawe'n cael ei lansio yn nhymor yr haf 2018 a bydd yn darparu fforwm i bartneriaid weithio gyda'i gilydd a sicrhau bod pobl ifanc yn datblygu'r sgiliau a'r cymwysterau cywir ar gyfer y dyfodol.

Presenoldeb yn yr ysgol

- Mae presenoldeb mewn ysgolion yn Abertawe'n parhau i wella. Ar gyfer ysgolion cynradd, cododd presenoldeb i 95.05% ar gyfer blwyddyn academaidd 2016-2017, cynnydd o 0.17% ar y flwyddyn flaenorol. Er y collwyd y targed (95.2%) o drwch blewyn, roedd Abertawe yn yr 8^{fed} safle yng Nghymru yn 2017 a'r uchaf erioed yn Abertawe a'r lle sydd wedi gwella mwyaf yng Nghymru dros y 5 mlynedd diwethaf.

- Ar gyfer ysgolion uwchradd, cododd presenoldeb i 94.3% ar gyfer blwyddyn academaidd 2016-2017, cynnydd bach o 0.01% ar y flwyddyn flaenorol. Er y collwyd y targed (94.5%) o drwch blewyn, roedd Abertawe yn y 7^{fed} safle yng Nghymru yn 2017 ac mae'n parhau i fod yr uchaf erioed ar gyfer Abertawe a'r lle sydd wedi gwella mwyaf yng Nghymru dros y 5 mlynedd diwethaf. Bydd perfformiad yn cael ei herio mewn rhai ysgolion lle nodwyd bod angen gwella.

- Cefnogwyd gwelliannau i bresenoldeb mewn ysgolion gan barhad y Rhaglen Ysgogi Presenoldeb. Yn ogystal, mae gan bob ysgol bellach gynllun gweithredu presenoldeb, wedi'i ddatblygu mewn

partneriaeth ag Ymgynghorwyr Herio a'r Gwasanaeth Lles Addysg. Mae gweithdrefnau atgyfeirio sefydledig wedi'u gwreiddio er mwyn mynd i'r afael â phresenoldeb gwael.

Cyflawniadau disgyblion

- Mae gan Abertawe hanes gwych o ran perfformiad disgyblion, er bod amrywiadau ym mherfformiad y gwahanol gyfnodau (oedran). Mae perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen (7 oed) yn dangos bod tuedd gadarnhaol o welliant yn ystod y pum mlynedd diwethaf (er bod dangosydd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae safle Abertawe wedi gostwng dros amser). Ar y cyfan, mae perfformiad y Cyfnod Sylfaen yn ddigonol. Bwriedir gwneud gwaith i wella perfformiad y Cyfnod Sylfaen drwy gefnogi athrawon newydd gymhwyso, gan sicrhau bod cyswllt rheolaidd rhwng cydlynwyr y Cyfnod Sylfaen, gwella pa mor barod yw plant i fynd i'r ysgol a nodi a rhannu arfer gorau rhwng ysgolion. Mae gwaith yn cael ei wneud i gefnogi ysgolion â gwaelodlinau a chymedroli ar gyfer disgyblion wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Yn ogystal, rhagwelir y bydd perfformiad y Cyfnod Sylfaen hefyd yn cael ei wella drwy gysylltu'n agos â'n Strategaeth Tlodi, sy'n ceisio gwella deilliannau i blant yn ystod eu blynyddoedd cynnar.

- Mae perfformiad Cyfnod Allweddol 2 (11 oed) yn dangos tuedd gadarnhaol o welliant yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac ar hyn o bryd mae yn y 13eg safle yng Nghymru, sy'n dangos gwelliant o 2015-2016. Mae'r gyfradd wella yn arafach na'r gyfradd genedlaethol yn ystod y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae perfformiad presennol yn dangos bod Abertawe'n gyfartal â'r cyfartaledd cenedlaethol.

- Mae perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 3 (14 oed) wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn dros y pum mlynedd diwethaf. Mae Abertawe bellach yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y dangosydd pynciau craidd, gyda chyfradd wella gyflymach na'r gyfradd genedlaethol yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mae ei safle'n uwch na'r disgwyl. Mae perfformiad mewn profion cenedlaethol yn dda iawn. Yn gyffredinol, mae perfformiad yn gryf.

- Mae perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 4 (16 oed) rhwng 2012 a 2016 yn ardderchog, gydag ysgolion Abertawe'n dangos gwelliant parhaus yn yr holl brif ddangosyddion. Mae cymhariaeth â'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws pob prif ddangosydd wedi bod yn ffafriol dros amser yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, yn 2016-2017, mae arholiadau newydd wedi arwain at berfformiad yn cael ei addasu ledled Cymru. Erys perfformiad Abertawe'n gymharol gryf er gwaethaf gostyngiadau mewn dangosyddion perfformiad.

- Cefnogwyd ysgolion gyda pherfformiad disgyblion drwy barhau i gyflwyno cynlluniau gweithredol, yn enwedig gan y rheiny yn yr Uned Cefnogi'r Cwricwlwm, Uned y Cyfnod Cynradd ac Uned y Cyfnod Uwchradd. Mae ysgolion yn Abertawe wedi dangos gwelliant am y bedwaredd flwyddyn yn olynol dan system categoreiddio ysgolion Llywodraeth Cymru. Dengys y canlyniadau sydd wedi'u cyhoeddi fod mwy o ysgolion yn y ddinas yn y categori gwyrdd nag erioed ac am yr ail flwyddyn yn olynol nid oes unrhyw ysgol yn y coch. Mae tanberfformio mewn ysgolion yn cael ei herio a darperir cefnogaeth i ysgolion i wella perfformiad drwy gydweithrediad ysgol i ysgol a gweithio mewn partneriaeth.

Rhifedd a llythrennedd

- Mae ysgolion yn parhau i ddilyn y fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol gan sicrhau bod strategaeth glir ar gyfer ysgolion. Adlewyrchir hyn yn y canlyniadau a'r gwelliannau ar draws yr holl gyfnodau allweddol mewn Cymraeg a Saesneg (heblaw am Gyfnod Allweddol 4 mewn Saesneg a

rhifedd), sydd wedi rhagori ar y targedau a osodwyd ac sy'n uwch na chyfartaledd Cymru. Cynllunnir cefnogaeth ychwanegol ar gyfer Mathemateg/rhifedd a Saesneg ar y lefel uwchradd.

Trawsnewid yr ystad ysgolion

- Sefydlwyd y rhaglen i drawsnewid yr ystad ysgolion Abertawe yn Rhaglen Amlinellol Strategol Ysgolion yr 21ain Ganrif y cyngor. Mae cam cyntaf y rhaglen (Band A) bron wedi'i gwblhau ac mae wedi cynnwys datblygiadau yn ysgolion cynradd Newton, Glyncollen, Burlais, Tre-gŵyr ac YGG Lôn Las, gyda gwaith wedi dechrau yn YG Gŵyr a Phentrehafod.

- Bydd cam nesaf y rhaglen (Band B) yn cynnwys datblygu Ysgol Gynradd Gorseinon, Uned Atgyfeirio Disgyblion newydd yn y Cocyd, ehangu YGG Tan-y-lan, YGG Tirdeunaw ac YGG Pontybrenin ac ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg. Cynllunnir amrywiaeth o welliannau i ysgolion cyfrwng Saesneg hefyd. Bydd datblygiad safle Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) strategol sylweddol yn debygol o effeithio'n fawr ar yr angen (a'r achos) am ddarpariaeth wedi'i chyfoethogi i ddiwallu anghenion ardal Penderi, er bod angen mwy o eglurder ynghylch amserlenni.

- Mae ysgolion yn parhau i elwa o raglen cynnal a chadw cyfalaf flynyddol yr awdurdod lleol, sydd wedi'i blaenoriaethu ar sail risg, ac sy'n gyson â chynlluniau' Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a glustnodir i ysgolion lle mae'r angen mwyaf. Mae'r gwaith yn parhau i ddilysu asesiadau cyflwr ac addasrwydd wedi'u diweddaru.

Prentisiaethau a sgiliau cyflogadwyedd

- Rydym yn parhau i gyflwyno ein Strategaeth Prentisiaethau i helpu i gynyddu dyheadau galwedigaethol a lefelau sgiliau yn y gweithle. Mae oddeutu 200 o bobl ifanc wedi elwa o raglen prentisiaethau'r cyngor yn y Gwasanaethau Adeiladau Corfforaethol dros y deng mlynedd diwethaf gan ddysgu crefftau megis gwaith coed, plastro, gosod briciau, plymio a gwaith trydanol. Mae'r rhaglen prentisiaethau wedi'i hyrwyddo a'i chlustnodi'n benodol i blant sy'n derbyn gofal. Yn ddiweddar, mae'r cyngor wedi llofnodi cytundeb â Choleg Gŵyr er mwyn datblygu strategaeth prentisiaethau ehangach sy'n ceisio cynnig cyfleoedd eraill i adrannau'r cyngor megis TG, Gwastraff, Priffyrdd, Adfywio Economaidd a Pharciau.

- Rydym yn cynllunio ymhellach i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd mewn ysgolion fel rhan o Strategaeth Tlodi'r cyngor. Rydym yn parhau i ddarparu profiad gwaith a deilliannau cyflogaeth ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) a thrwy raglen Cynnydd, darparu cefnogaeth ychwanegol i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET. Yn ogystal, rydym yn bwriadu defnyddio ein prosesau AD ein hunain i rannu profiadau gwaith, hyfforddeiaethau a phrentisiaethau ar draws ystod o alluoedd, gan gynnwys unigolion difreintiedig a phlant sy'n derbyn gofal yn benodol.

Dysgu Gydol Oes

- Rydym yn parhau i hyrwyddo dysgu gydol oes. Mae Dysgu Gydol Oes Abertawe'n darparu amrywiaeth o raglenni analwedigaethol mewn lleoliadau cymunedol, gan gynnwys coginio, celf a chrefftau, cyfrifiaduron a gwaith. Mae hefyd yn hyrwyddo cyfleoedd dysgu ar-lein megis Open Learn (cwrs am ddim gan y Brifysgol Agored) a Future Learn (cyrsiau a ddarperir gan brifysgolion). Mae'r rhaglen 'Dewch Ar-lein Abertawe' hefyd yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau cyfrifiaduron a thabledi sydd wedi'u creu i annog pobl i fynd ar-lein ac maent wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion y bobl sy'n cymryd rhan.

- Rydym yn parhau i gyflwyno rhaglenni cyflogadwyedd a dysgu sy'n seiliedig ar waith er mwyn helpu pobl leol i ddatblygu sgiliau ac i gael mynediad at gyfleoedd gwaith. Rydym yn bwriadu datblygu ein partneriaeth â'r Ganolfan Byd Gwaith a phartneriaid allweddol O Fudd-dal i Waith i gynyddu mynediad at sgiliau a chyfleoedd swyddi, nifer y bobl sy'n barod i fynd i'r gwaith a chyfleoedd profiad gwaith i bobl leol yn adrannau'r cyngor a thrwy bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Eco-sgolion

- Mae ysgolion yn rhannu arfer da ar ddysgu yn yr awyr agored a'r amgylchedd drwy gyfarfodydd penaethiaid a rhwydweithiau eraill. Mae Tîm Cadwraeth Natur y cyngor a sefydliadau eraill megis yr RSPB hefyd yn gweithio gydag ysgolion. Mae gan y mwyafrif o ysgolion yn Abertawe Gydlynydd Eco ac mae gan lawer o ysgolion Bwyllgor Eco. Mae Eco-sgolion yn darparu cyfleoedd i wella sgiliau ac ymwybyddiaeth amgylcheddol disgyblion ac i helpu i wella amgylchedd yr ysgol ymysg buddion eraill.

Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF

- Rydym yn parhau i gyflwyno ein Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc mewn ysgolion yn Abertawe er mwyn addysgu plant a phobl ifanc am ddinasyddiaeth, hawliau ac i ddeall cyfrifoldebau.

- Yn ystod 2017-2018, roedd 100% o ysgolion Abertawe'n rhan o'r broses a chyflawnodd 75% Lefel 1 neu uwch. Rhwng 2013-17, cymerodd bron 50,000 o blant a phobl ifanc yn Abertawe ran ac mae mwy na 2,000 aelod o staff addysgu a mwy na 1,000 aelod o staff nad ydynt yn addysgu hefyd wedi bod yn rhan o'r broses dros yr un cyfnod.

- Er bod y contract gydag UNICEF i gyflwyno'r Dyfarniad Ysgolion sy'n Parchu Hawliau wedi dod i ben, rydym yn gweithio ar fodel cynaliadwy i 'hyfforddi'r hyfforddwyr' i ddod yn aseswyr fel y gall y broses asesu barhau. Yn ogystal, rydym yn parhau i hyrwyddo Hawliau Plant yn y cyngor a thrwy ein partneriaethau ehangach.

Llais y Disgybl

- Rydym yn parhau i gynnwys plant a phobl ifanc yn eu haddysg drwy *Lais y Disgybl, Cynghorau Ysgol* a'r *Sgwrs Fawr*. Mae Fforwm Llais y Disgybl ar draws y sir yn cynnwys cynrychiolydd etholedig o bob ysgol uwchradd. Mae'r fforwm wedi cyfathrebu â'r Prif Swyddog Addysg ac mae'r disgyblion wedi cael dweud eu dweud mewn penderfyniadau ynghylch: ymwybyddiaeth ofalgar mewn ysgolion, yr hyn sy'n helpu disgyblion, y Gymraeg, bwlio a chyllideb/cyllid y cyngor.

- Yn ogystal â *Llais y Disgybl*, mae'r ysgolion wedi bod yn cynnal gwaith prosiect i helpu i gefnogi plant a phobl ifanc i ddeall hawliau a dinasyddiaeth dda. Gofynnwyd i bob ysgol uwchradd yn Abertawe enwebu disgyblion ar gyfer Senedd Ieuenctid y DU ac etholwyd aelod a dirprwy aelod ym mis Gorffennaf 2017.

- Mae plant a phobl ifanc hefyd wedi bod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt drwy *Arolwg Mawr Plant a Phobl Ifanc* a'r *Sgwrs Fawr*. Yn 2017, gofynnwyd i bron 4,000 o blant a phobl ifanc am eu barn am yr ysgol, addysg, eu hiechyd a'u lles a gwneud penderfyniadau. Roedd bron 2,500 o blant a phobl ifanc yn rhan o'r *Sgwrs Fawr* a buont yn trafod pynciau megis digartrefedd, perthnasoedd iach a chyllideb y cyngor. Cymerodd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ran yn y broses hefyd drwy fforymau megis *Fforwm 123* ar gyfer plant 7-10 oed, y *Grŵp Shout Out* i blant 11-17 oed, gweithgareddau gan *Voices From Care* a *Fforwm Ymadawyr Gofal 16+ oed sy'n newydd*.

Addysg Gymraeg

- Rydym yn parhau i ateb y galw am addysg Gymraeg ac yn hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg mewn ysgolion drwy weithredu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP). Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gynllun WESP Abertawe. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer ysgolion Cymraeg Band B mewn egwyddor. Er bod targedau WESP o ran cynyddu nifer y disgyblion ar gyfer 2020, mae cynlluniau tymor hwy ar gyfer hyd at 2024 yn cael eu datblygu fel rhan o strategaeth sirol gydlynol ehangach yn y tymor hir.

Disgyblion diamddiffyn a chyflawniad

- Mae'r gwaith yn parhau er mwyn sicrhau nad effeithir ar gyrhaeddiad a lles addysgol plant sy'n byw mewn tlodi. Er bod perfformiad plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim wedi aros yn sefydlog yn ystod y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, mae'r bwlch mewn perfformiad o ran disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn cynyddu o'u cymharu â'r ehangu garfan ehangach. Mae'r gwaith yn dal i fynd rhagddo ar hyn o bryd i wella perfformiad yr holl blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim dros bob cyfnod allweddol, yn enwedig Cyfnod Allweddol 4. Er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth fwyaf addas yn cael ei rhoi mewn lle ac i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal dan anfantais oherwydd eu hamgylchiadau unigol, mae'r Tîm Addysg PDG yn eu cefnogi.

5. Y gwahaniaeth y mae'r amcan lles hwn yn ei wneud – astudiaeth(au) achos

Astudiaeth Achos 1 - Atal pobl ifanc rhag bod yn NEET

- Abertawe oedd y ddinas gyntaf yn y DU i ddod yn rhan o Rwydwaith Rhyngwladol Dinasoedd Dysg UNESCO. Cynhaliodd Abertawe ddigwyddiad dysgu ym mis Gorffennaf 2017 ar gyfer aelodau'r rhwydwaith er mwyn cyfnewid arfer da. Roedd y gynhadledd yn canolbwyntio ar ymagwedd Abertawe at weithio gyda phobl ifanc a oedd yn NEET (nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) a dysgu entrepreneuraidd, a oedd yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn Abertawe.

- Mae ymagwedd Abertawe tuag at weithio gyda phobl ifanc sy'n NEET wedi bod yn canolbwyntio ar: nodi'r rheiny sydd yn y perygl mwyaf; trefnu a chydlynu cefnogaeth yn well; sicrhau bod dulliau cryfach o olrhain a throsglwyddo pobl ifanc trwy'r system; teilwra darpariaeth i fodloni anghenion pobl ifanc; a chryfhau sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd cyflogaeth.

- Y nod yw cynnig pwynt cyswllt unigol i bobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf mewn ffordd gydlynol er mwyn sicrhau bod gan bob person ifanc dros 16 oed le dysgu sy'n addas. Mae'r cyngor wedi buddsoddi mewn darpariaeth NEET newydd yn Info-Nation ar Ffordd y Brenin, sydd wedi'i gyd-leoli ag ystod ehangach o ddarparwyr ôl-16.

- Cryfhawyd y ddarpariaeth bresennol drwy sicrhau cyllid Ewropeaidd ar gyfer amrywiaeth o brosiectau a ddyluniwyd ar gyfer pobl ifanc sy'n NEET, megis Cynnydd (ar gyfer plant a phobl ifanc 11-24 oed), Cam Nesaf, (ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed) a Chymunedau am Waith (ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed). Targedir pob rhaglen er mwyn gweithio gyda phobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf o fod yn NEET drwy gynnig cefnogaeth wedi'i theilwra er mwyn dileu rhwystrau i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, gan gynnwys cryfhau parodrwydd pobl ifanc i gymryd rhan.

Astudiaeth Achos 2 - *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)*

- Cyngor Abertawe oedd y cyntaf yn y DU i fabwysiadu a sefydlu'n llawn *Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)* sy'n pennu hawliau'r holl blant gan eu galluogi i gymryd rhan mewn cymdeithas mewn ffordd deg. Fel rhan o ymrwymiad y cyngor i CCUHP, mae ysgolion Abertawe yn cymryd rhan yn y *Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau.*

- Mae'r wobr yn cydnabod llwyddiant mewn agweddau gwahanol ar fywyd ysgol, gan gynnwys cyfranogaeth disgyblion mewn penderfyniadau ysgol. Mae bron pob ysgol wedi'i chefnogi gan y cyngor i fod yn Ysgol sy'n Parchu Hawliau. Bellach, mae mwy na 15 o'n hysgolion wedi ennill Lefel 2 – lefel uchaf y wobr gan UNICEF y DU i ysgolion sydd wedi sefydlu hawliau plant wrth wraidd eu polisïau, eu harferion a'u hethos. Mae mwy na 48,000 o blant a phobl ifanc, 2,050 o staff addysgu a 1,320 o staff nad ydynt yn addysgu wedi chwarae eu rhan.

- YGG Llwynderw oedd yr ysgol Gymraeg gyntaf i dderbyn y wobr. Cefnogir y gwaith hwn drwy gynnwys disgyblion gyda *chynghorau ysgol* a thrwy Lais y Disgybl, sydd wedi'u hanelu'n uniongyrchol at gynyddu cyfranogaeth disgyblion, yn unol ag Erthygl 12 CCUHP.

6. Sut mae'r amcan lles hwn yn cyfrannu at gyflawni'r holl nodau llesiant cenedlaethol

- *Cymru lewyrchus* - Ymateb i'r Fargen Ddinesig drwy sicrhau bod pobl ifanc yn llwyddo mewn pynciau STEM a sgiliau digidol, megis codio cyfrifiaduron.
- *Cymru gydnerth* - Cefnogi ysgolion i fod yn Eco-sgolion er mwyn cynyddu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'n hamgylchedd a pharch ato.
- *Cymru iachach* - Parhau i gynnwys plant yn eu haddysg drwy ddigwyddiadau Llais y Disgybl, Cynghorau Ysgol a'r Sgwrs Fawr. Mae pynciau wedi cynnwys ymwybyddiaeth ofalgar mewn ysgolion, bwlio, digartrefedd a pherthnasoedd iach.
- *Cymru sy'n fwy cyfartal* - Sicrhau nad yw plant dan anfantais oherwydd tlodi neu ffactorau eraill sy'n cyfyngu arnynt wrth gyflawni a chyrraedd safonau a lles mewn addysg.
- *Cymru o gymunedau cydlynus* - Trawsnewid yr ystad ysgolion i ateb y galw ac i ymateb i'r datblygiadau a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).
- *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu* - Ateb y galw ar gyfer addysg Gymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion drwy Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.
- *Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang* - Dysgu dinasyddion ifanc sut mae parchu hawliau, deall cyfrifoldebau a bod yn ymwybodol ar lefel fyd-eang drwy barhau i gefnogi ysgolion i fod yn Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF fel rhan o ymrwymiad y cyngor i CCUHP.

7. Y gwersi a ddysgwyd a'r meysydd i'w gwella

Sgiliau ar gyfer yr economi newydd a'r Fargen Ddinesig

- Cynhaliodd y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Addysg a Sgiliau adolygiad o system addysg a hyfforddiant Abertawe er mwyn asesi a yw pobl ifanc yn datblygu'r sgiliau a'r cymwysterau cywir ar gyfer economi newydd y dyfodol a Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Daeth yr arolwg i'r casgliad fod angen gwella cydlynu rhwng ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddi eraill er mwyn annog pobl ifanc i astudio pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg), gwella cymhwysedd digidol a datblygu llwybrau clir ar gyfer dysgu a hyfforddi.

Presenoldeb Disgyblion

- Bydd presenoldeb disgyblion yn cael ei herio mewn rhai ysgolion lle nodwyd bod angen gwneud gwelliannau.

Y Cyfnod Sylfaen

- Cynllunnir gwneud gwaith i wella perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen drwy: gefnogi athrawon newydd gymhwyso, cefnogi ysgolion gydag asesu i sicrhau bod cyswllt rheolaidd rhwng cydlynwyr y Cyfnod Sylfaen, gwella pa mor barod yw plant i fynd i'r ysgol a thrwy nodi a rhannu arfer gorau rhwng ysgolion. Yn ogystal, rhagwelir y bydd perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen hefyd yn cael ei wella drwy gysylltu'n agos â'n Strategaeth Tlodi, sy'n ceisio gwella canlyniadau i blant yn ystod eu blynyddoedd cynnar.

Rhifedd a llythrennedd

- Cynllunnir cefnogaeth ychwanegol ar gyfer Mathemateg/rhifedd a Saesneg ar lefel uwchradd.

Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)

- Gallai effaith y CDLl olygu bod angen mwy o ddarpariaeth er mwyn diwallu anghenion ardal Penderi, er bod angen mwy o eglurder o ran amserlenni.

Prentisiaethau

- Yn ddiweddar, mae'r cyngor wedi llofnodi cytundeb â Choleg Gŵyr er mwyn datblygu strategaeth prentisiaethau ehangach sy'n ceisio cynnig cyfleoedd eraill mewn adrannau'r cyngor megis TG, Gwastraff, Priffyrdd, Adfywio Economaidd a Pharciau. Yn ogystal, rydym yn bwriadu defnyddio ein prosesau AD ein hunain er mwyn rhannu profiadau gwaith, hyfforddeiaethau a phrentisiaethau ar draws ystod o alluoedd, gan gynnwys unigolion difreintiedig a phlant sy'n derbyn gofal yn enwedig.

Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF

- Mae Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF wedi dod i ben bellach. Rydym yn gweithio ar fodel cynaliadwy i hyfforddi'r hyfforddwyr i fod yn aseswyr fel y gall y broses asesu barhau.

Addysg trwy gyfrwng y Gymraeg

- Er bod targedau WESP o ran cynyddu nifer y disgyblion ar gyfer 2020, mae cynlluniau tymor hwy ar gyfer hyd at 2024 yn cael eu datblygu fel rhan o strategaeth sirol gydlynol ehangach yn y tymor hir.

Tlodi a chyflawniad disgyblion

- Mae'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r garfan ehangach yn ehangu. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i wella perfformiad pob plentyn sy'n derbyn prydau ysgol am ddim ym mhob cyfnod allweddol, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4.

Trawsnewid ein **Heconomi a'n Hisadeiledd**

1. Pam mae hwn yn amcan lles

- Rydym am wella perfformiad economaidd a chreu cyfoeth a chyfleoedd cyflogaeth i wella lles economaidd dinasyddion Abertawe.
- Sicrhawyd y buddsoddiad mwyaf erioed i dde-orllewin Cymru yn dilyn cymeradwyo Bargen Ddinesig arloesol Bae Abertawe ar 20 Mawrth 2017.
- Mae'r Fargen Ddinesig yn werth £1.3 biliwn a bydd yn trawsnewid tirlun economaidd yr ardal, yn hybu'r economi leol £1.8 biliwn ac yn creu bron 10,000 o swyddi dros y 15 mlynedd nesaf.
- Yn Abertawe, caiff 100,000 troedfedd sgwâr o le swyddfa newydd, fforddiadwy a hyblyg ei adeiladu ar Ffordd y Brenin yng nghanol y ddinas ar gyfer busnesau technolegol fel rhan o'r pentref digidol a fydd yn elwa o isadeiledd digidol o'r radd flaenaf.
- Bydd y Fargen Ddinesig yn arwain at ddatblygiad 'pentref blychau' 215,000 o droedfeddi sgwâr yn Ardal Arloesedd y Glannau yn SA1 sy'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd ac sy'n eiddo i Brifysgol y Drindod Dewi Sant. Bydd hwn yn darparu lle fforddiadwy i gwmnïau newydd.
- Bydd y Fargen Ddinesig hefyd yn cefnogi digideiddio'r arena dan do arfaethedig sydd â lle i 3,500 o bobl ar gyfer safle datblygu canol dinas Abertawe, yn ogystal â datblygu sgwâr digidol i gynnwys sgriniau digidol a gwaith celf digidol.
- Bydd y Fargen Ddinesig yn hybu adfywio ffisegol canol y ddinas ymhellach, yn unol â'n Fframwaith Strategol diwygiedig ar gyfer Canol y Ddinas - yn enwedig datblygu a gwella eiddo a gwelliannau trafnidiaeth cysylltiedig, gan ddarparu isadeiledd galluogi i gefnogi adfywiad.
- Rydym am fanteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan y Fargen Ddinesig ac adfywio canol y ddinas drwy greu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i'r bobl ddi-waith a'r rhai sy'n anweithgar yn economaidd drwy gymalau budd cymunedol mewn contractau a chyflwyno gwasanaethau cefnogi cyflogadwyedd mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill y cyngor a phartneriaid allanol.
- Rydym am gael fframwaith polisi cynllunio sy'n cefnogi twf ac adfywio ac yn sicrhau bod gan gymunedau ddigon o dai o safon mewn lleoliadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion y gymuned a chefnogi twf economaidd cynaliadwy.
- Rydym am fanteisio ar botensial twf sydd heb ei ddefnyddio i gynhyrchu ynni cynaliadwy, amddiffyn yr amgylchedd a hybu'r economi, gan gynnwys parhau i roi pwysau ar y llywodraeth i gymeradwyo'r Morlyn Llanw.
- Rydym am fanteisio ar asedau ac isadeiledd naturiol, diwylliannol ac adeiledig Abertawe i ddatblygu'r economi wrth amddiffyn yr amgylchedd a gwella lles.

2. Y camau rydym wedi dweud y byddem yn eu cymryd i fodloni'r amcan lles hwn

- Gweithio gyda phartneriaid i roi'r Fargen Ddinesig ar waith i fuddsoddi mewn isadeiledd digidol a chefnogi buddsoddiad, arloesedd, twf, swyddi, sgiliau a chynhyrchedd.
- Manteisio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan y Fargen Ddinesig a pharhau i adfywio canol y ddinas.
- Mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n cefnogi adfywio Abertawe ac yn hyrwyddo cymunedau cynaliadwy.
- Hyrwyddo a gwella economi wledig amrywiol a chynaliadwy.
- Creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer y di-waith tymor hir a'r rhai sy'n anweithgar yn economaidd drwy gymalau budd cymdeithasol mewn contractau.
- Gwella, ehangu ac amrywio cyfleusterau ac isadeiledd hamdden, diwylliannol a threftadaeth i helpu i hybu'r economi, hyrwyddo twristiaeth a gwella lles.
- Archwilio'r syniad o sefydlu gwesty a datblygiad hamdden newydd ger Stadiwm Liberty i ategu datblygiadau diwylliannol ac annog tacsis afon i fynd ag ymwelwyr i'r marina.
- Cais Abertawe i fod yn Ddinas Diwylliant y DU 2021.

- Hyrwyddo digwyddiadau hamdden a diwylliannol cyhoeddus i helpu i wella lles, hyrwyddo cydlyniant cymunedol a darparu buddion economaidd.
- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau pentref chwaraeon rhyngwladol a chanolfan rhagoriaeth chwaraeon.
- Cefnogi ehangu Stadiwm Liberty ac annog llwyddiant i'r Elyrch a'r Gweilch.
- Hyrwyddo'r Economi Werdd, gan gynnwys ynni adnewyddadwy (megis Cynllun Ynni a Menter Cymunedol Abertawe a'r Morlyn Llanw), darparu sicrwydd ynni, lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd a manteision economaidd a chyflogaeth.
- Gweithio gydag eraill i ddarparu cludiant ac isadeiledd cynaliadwy a charbon isel gan ddarparu cysylltedd a symudedd gwell a rhatach a'r manteision economaidd cysylltiedig am gost amgylcheddol is a gwell ansawdd aer.
- Hyrwyddo bioamrywiaeth a gwarchod mannau gwyrdd Abertawe, gan gynnwys parciau ar gyfer hamdden a chwarae, i hybu iechyd a lles.
- Rheoli arfordir Abertawe, hybu ansawdd dŵr ymdrochi a chynnal statws Baner Las ar draethau Abertawe i annog twristiaeth, amddiffyn yr amgylchedd a chefnogi lles.
- Gwneud cynnydd o ran tai strategol a safleoedd datblygu cymysg i ddiwallu'r angen am gartrefi a darparu cyflogaeth.
- Rhoi blaenoriaeth i ddarparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig.
- Cefnogi ailgylchu a sicrhau ein bod yn parhau i fod yn awdurdod trefol arweiniol ar gyfer ailddefnyddio gwastraff yng Nghymru.

3. Mesur llwyddiant

- Mae gan Abertawe economi sy'n defnyddio asedau naturiol, chwaraeon a diwylliannol. Drwy'r Fargen Ddinesig, y buddsoddiad mewn isadeiledd digidol ac adfywio Abertawe a chanol y ddinas, mae'r economi'n darparu mwy o'r swyddi cywir, twf, sgiliau, hyfforddiant a chynhyrchedd lle mae anghenion o ran tai'n cael eu diwallu ac mae lles cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol yn cael ei gefnogi.

4. Gwneud cynnydd tuag at y camau i fodloni'r amcan lles hwn - yr hyn sydd gweithio

Y Fargen Ddinesig a chanol y ddinas

- Penodwyd Ambassador Theatre Group (ATG) i reoli'r Arena Ddigidol arloesol â lle i 3,500 o bobl, ar ran Cyngor Abertawe, ar ôl cymryd rhan mewn proses ymgeisio gystadleuol iawn. Bydd yr arena dan do, uwchben maes parcio aml-lawr newydd, mewn ardal wedi'i thirlunio ar dir i'r de o Heol Ystumllwynarth ac yn rhan o safle datblygu Cam 1 Abertawe Ganolog sydd hefyd yn cynnwys hen ganolfan siopa Dewi Sant. Dechreuodd y gwaith galluogi ym mis Awst 2018. Carreg filltir sylweddol 17/18 oedd bod y caniatâd cynllunio amlinellol wedi'i sicrhau ar gyfer Cam 1 Abertawe Ganolog.

- Mae fersiwn ddrafft ddatblygedig o gynllun busnes Ardaloedd Digidol Canol Dinas a Glannau Abertawe wedi'i hanfon i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn iddynt ei ystyried, a chaiff yr achos busnes terfynol ei gyflwyno'n ffurfiol yn 2018/19. Mae prosiect Abertawe'n cynnwys pentref digidol ar Ffordd y Brenin yng nghanol dinas Abertawe (a fydd yn darparu lle swyddfa hyblyg a fforddiadwy ar gyfer busnesau technoleg newydd a'r rhai sy'n tyfu), y Sgwâr a'r Arena Ddigidol, yn ogystal â 'phentref blychau' ac 'ardal arloesi' ar ddatblygiad glannau SA1 Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a fyddai'n creu lleoedd datblygu ac ardaloedd cydweithio i fusnesau newydd a rhai bach.

- Mae'r gwaith wedi dechrau ar ddatblygu Ffordd y Brenin yng nghanol y ddinas, sy'n cael ei thrawsnewid yn barc dinas a fydd yn cynnwys ardaloedd cyhoeddus newydd, tir parc wedi'i

dirlunio, traciau beicio a llwybr cerbydau dwyffordd, un lôn ynghyd â llwybrau cerdded lletach a gaiff eu creu. Pan fydd wedi'i gwblhau, bydd cynllun adfywio Prosiect Isadeiledd Ffordd y Brenin, gwerth £12 miliwn, yn paratoi'r ardal ar gyfer creu pentref digidol newydd yn y ddinas a gyflwynir fel rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe, gwerth £1.3 biliwn.

- Mae cyswllt rheolaidd wedi bod â'r busnesau twristiaeth a chreadigol er mwyn rhoi gwybod iddynt am y cynnydd a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r Fargen Ddinesig.

Cynllun Datblygu Lleol

- Cymeradwyodd y cyngor gyflwyniad Cynllun Datblygu Lleol Adnau Abertawe a'r dystiolaeth ategol i Lywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer archwiliad cyhoeddus annibynnol. Mae'r CDLl yn cyflwyno glasbrint y cyngor ar gyfer datblygu, defnydd a chadwraeth tir yn y dyfodol ar draws Abertawe tan 2025. Bydd y CDLl yn cefnogi adfywiad Abertawe ac yn hyrwyddo cymunedau cynaliadwy.

Economi Wledig

- Parhaodd y cyngor â phrosiect y Cynllun Datblygu Gwledig i helpu adfywio economaidd y cymunedau gwledig. Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig wedi ariannu astudiaethau dichonoldeb ar gyfer cynllun lliniaru effeithiau carbon cymuned Coeden Fach a phrosiect Solar Cymunedol Killan er mwyn darparu ynni glân i gartrefi. Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig hefyd yn cefnogi Amaethyddiaeth Cymuned Cae Tan, sy'n cynnig cyfleoedd gwirfoddoli a dysgu i amrywiaeth o grwpiau ac unigolion, megis ysgolion lleol, i gynyddu ymwybyddiaeth o ffermio cynaliadwy ac ailgysylltu plant a phobl ifanc â'r tir a'u bwyd. Yn ogystal, cafwyd gafael ar arian i ariannu bws y Gower Explorer ar ddydd Sul er mwyn darparu opsiynau teithio cynaliadwy i gael mynediad i benrhyn Gŵyr ar ddydd Sul.

Y Tu Hwnt i Frics a Morter

- Mae'r cyngor wedi parhau i gyflwyno buddion cymunedol drwy brosiect Y Tu Hwnt i Frics a Morter. Mae Y Tu Hwnt i Frics a Morter yn cydweithio ag ystod eang o brosiectau cyflogadwyedd gan gynnwys Gweithffyrdd+ a Chymunedau am Waith er mwyn dod o hyd i swyddi a hyfforddiant i ymgeiswyr. Mae Y Tu Hwnt i Frics a Morter yn rhan o Rwydwaith Cyflogadwyedd Abertawe ac yn cyfathrebu ag adrannau mewnol sy'n caffael contractau'n rheolaidd. Mae cydweithrediad â chynghorau eraill wedi arwain at ymagwedd gorllewin Cymru at fframweithiau rhanbarthol ar gyfer buddion cymunedol mewn contractau. Roedd 19 o brosiectau'r cyngor yn cynnwys cymalau buddion cymunedol yn 2017/18 a chrëwyd dros 2,300 o wythnosau hyfforddi a chyflogaeth drwy gynllun Y Tu Hwnt i Frics a Morter ar gyfer y di-waith a'r anweithgar yn economaidd.

- Cyflwynodd y cyngor Strategaeth Prentisiaid a Hyfforddeion Gorfforaethol a fydd yn arwain at gyflwyno mwy o brentisiaethau a hyfforddeiaethau nag erioed o'r blaen ar draws llawer o adrannau'r cyngor, gan gynnwys y Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol, Gofal Cymdeithasol i Oedolion, TG, Rheoli Gwastraff, Priffyrdd, Adfywio Economaidd a Pharciau. Bydd rhai prentisiaethau a lleoliadau profiad gwaith yn benodol ar gyfer pobl ifanc, y di-waith tymor hir a grwpiau dan anfantais. Byddai cyfleoedd hefyd yn cysylltu â rôl magu plant corfforaethol y cyngor i bobl ifanc sy'n gadael ei system ofal. Mae gosod briciau, plymio, plastro, gwaith coed, gosodiadau trydanol ac aml-grefftau ymysg y sgiliau y bydd dosbarth 2017 yn dechrau eu meistroli yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd sydd i ddod. Dechreuwyd 35 o brentisiaethau neu hyfforddeiaethau yn y cyngor yn 2017/18.

- Datblygom raglen brentisiaeth greadigol ar gyfer gwaith marchnata digidol a thechnegol gyda Choleg Gŵyr i gefnogi uchelgeisiau digidol newydd Theatr y Grand. Rydym hefyd yn rhan o gydweithrediad rhanbarthol â Sgiliau Creadigol a Diwylliannol sy'n cynnig lleoliadau gwaith mewn Sgiliau Treftadaeth (wedi'u hariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri) ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETs), wedi'u cynnal yn ein horielau a'n hamgueddfeydd. Bydd y garfan gyntaf yn dechrau ar ei lleoliad ym mis Medi 2018.

Cyfleusterau/isadeiledd hamdden, diwylliannol a threftadaeth

- Yn ystod 2017/18, cynhaliodd y cyngor nifer o fentrau a oedd yn ceisio ehangu ac amrywio cyfleusterau hamdden a diwylliannol er mwyn helpu i hyrwyddo twristiaeth a rhoi hwb i'r economi leol a gwella lles. Cymeradwywyd Cam 1 cais y cyngor i Gronfa Dreftadaeth y Loteri gyda phartneriaid, gan gynnwys Distyllfa Wisgi Penderyn a Phrifysgol Abertawe am gyllid er mwyn ailddatblygu Distyllfa Wisgi Penderyn a Chanolfan Ymwelwyr yng Ngwaith Copr yr Hafod. Bydd hyn yn addysgu pobl am hanes cyfoethog safle Gwaith Copr yr Hafod, yn denu ymwelwyr, yn rhoi hwb i swyddi ac yn ehangu'r gwaith adfywio parhaus ar hyd coridor Afon Tawe fel rhan o strategaeth adfywio coridor Afon Tawe. Bydd y strategaeth hefyd yn creu cyd-destun ar gyfer prosiectau adfywio, gan gynnwys sefydlu safleoedd ac isadeiledd ar gyfer prosiect ceir cebl Skyline a awgrymwyd ar gyfer Mynydd Cilfái fel rhan o'r gwaith adfywio a arweinir gan dreftadaeth mewn ardal ddifreintiedig.

Dinas Diwylliant

- Nid oedd y cyngor yn llwyddiannus yn ei gais i fod yn Ddinas Diwylliant y DU. Fodd bynnag, ers hynny, mae'r cyngor wedi datblygu Strategaeth Ddiwylliannol er mwyn adeiladu ar etifeddiaeth y cais i fod yn Ddinas Diwylliant y DU. Mae'r cyngor wedi ymgynghori â Llywodraeth Cymru ac wedi cytuno ar gynllun er mwyn creu llwyfan ar gyfer diwylliant a all adeiladu ar y sylfeini a osodwyd yn ystod y cais i fod yn Ddinas Diwylliant.

- Mae etifeddiaeth y cais i fod yn Ddinas Diwylliant wedi ein helpu i greu fframwaith diwylliannol sydd wedi sefydlu ffyrdd newydd o weithio gyda'n partneriaid. Mae'r rhain yn seiliedig ar eu helpu i fod yn wydnach, wedi eu rheoli'n well, a sefydlu rhwydweithiau gwell ar gyfer gwaith partneriaeth a gwaith ar y cyd. Un enghraifft dda o weithio mewn partneriaeth yw'r gwaith rhwng Amgueddfa Abertawe, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a Theatr na nÓg i gynyddu'r ymweliadau â'n hamgueddfeydd a'n horielau.

- Mae lleoliadau diwylliannol yn y ddinas wedi ymrwymo i wella profiad yr ymwelydd i ehangu eu cynulleidfaoedd drwy fabwysiadu safonau cenedlaethol ar gyfer pa mor addas ydynt i deuluoedd a chynnwys pobl hŷn, pobl awtistig a ffoaduriaid. Enillodd Canolfan Dylan Thomas wobr genedlaethol am y lleoliad gorau i deuluoedd yn 2017.

- Un peth mae'r cyngor yn edrych arno gyda'n partneriaid yn y rhwydwaith Dinasoedd Peilot yw'r gwersi ar effaith diwylliant ar ddinasyddion a chymunedau amrywiol lle mae gwaith adfywio. Mae ein rhaglen Ysgrifennu Creadigol ar gyfer ffoaduriaid wedi'i hamlygu gan bartneriaid Ewropeaidd yn y rhwydwaith Dinasoedd Unedig a Llywodraethau Lleol fel model o arfer da.

Hyrwyddo digwyddiadau hamdden a diwylliannol cyhoeddus

- Mae'r cyngor wedi ceisio adeiladu ar etifeddiaeth y cais i fod yn Ddinas Diwylliant er mwyn rhoi hwb i dwristiaeth, i ddarparu buddion economaidd ac i hyrwyddo lles. Parhaodd y cyngor i hyrwyddo statws y ddinas ar gyfer cynnal digwyddiadau diwylliannol proffil uchel o'r radd flaenaf.

Llwyddodd Abertawe i ddenu y Penwythnos Mwyaf gan y BBC gyda pherfformwyr megis Taylor Swift ac Ed Sheeran. Mae'r cyngor hefyd wedi cefnogi a hyrwyddo rhaglen o ddigwyddiadau blaenllaw ar draws y ddinas, gan gynnwys Sioe Awyr Genedlaethol Cymru, rhaglennu cerddoriaeth, digwyddiadau a gwyliau diwylliannol a chwaraeon ochr yn ochr â chasgliad eang o wyliau a digwyddiadau cymunedol sy'n ceisio gwella lles.

- Bu'r cyngor yn gweithio gyda Cruise Wales ac Associated British Ports i ddenu a threfnu ymweliad llong y Saga Pearl. Trefnwyd teithiau sy'n ymweld â Phenrhyn Gŵyr a Dylan Thomas ar gael i deithwyr, yn ogystal â bysus gwennol i ganol y ddinas. Trefnwyd teithiau i ymweld â phenrhyn Gŵyr a rhai oedd yn ymwneud â Dylan Thomas , yn ogystal â bysus gwennol i ganol y ddinas. Cafwyd y Saga Pearl, sy'n pwyso 19,000 tunnell ac sy'n cynnwys saith bwrdd llong i deithwyr, ei hatgyweirio yn Nociau Abertawe yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chyrhaeddodd Abertawe ym mis Gorffennaf 2017.

- Parhaodd y cyngor i integreiddio twristiaeth ddiwylliannol fel rhan o farchnata cyrchfannau dan frand Dewch i Fae Abertawe gydag ymgyrch integredig a oedd yn gysylltiedig â Blynyddoedd Thematig Croeso Cymru. Lansiodd y cyngor fideo newydd i helpu i ddathlu diwylliant arfordirol Abertawe ac i ddenu cynifer o ymwelwyr â phosib i Fae Abertawe, y Mwmbwls a phenrhyn Gŵyr eleni. Mae'r fideo gan Gyngor Abertawe, sydd nawr yn cael ei gynnwys ar sianel YouTube Croeso Bae Abertawe, yn cydweddu â thema 'Blwyddyn y Môr' Croeso Cymru. Mae'r fideo'n cynnwys darnau am Bier y Mwmbwls, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub yn y Mwmbwls ar waith, Bae y Tri Chlogwyn a Phen Pyrod, ynghyd â mannau diwylliannol arbennig yn Abertawe, gan gynnwys Arddangosfa Dylan Thomas, Amgueddfa Abertawe, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ac Oriel Gelf Glynn Vivian.

- Cyflwynodd y cyngor o leiaf ddau ddigwyddiad blynyddol ychwanegol yng nghanol y ddinas er mwyn annog ymwelwyr a masnach i ganol y ddinas, gan gynnwys gweithgareddau Marchnad y Nadolig, Calan Gaeaf a'r Faner Borffor. Darparodd y cyngor a'i bartneriaid hefyd gyfleoedd ar gyfer masnachu ar y stryd, hyrwyddo ar y stryd, menter 'Busk Til Dawn' canol y ddinas i annog adloniant ar y stryd a digwyddiadau eraill. Hyrwyddwyd y rhain drwy wefan canol y ddinas ac ar gyfryngau cymdeithasol.

Pentref Chwaraeon Rhyngwladol/Canolfan Rhagoriaeth Chwaraeon

- Rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid, yn bennaf Pwll Cenedlaethol Cymru a'r brifysgol, er mwyn archwilio'r cyfle i gael Pentref Chwaraeon Rhyngwladol. Mae'n ddyddiau cynnar ar gyfer y cyfle hwn, sydd hefyd yn cael ei ystyried fel rhan o strategaeth newydd ddiwygiedig Twristiaeth Bae Abertawe i nodi cyfleoedd datblygu a thwf ar draws y Bae. Yn y lle cyntaf, mae trafodaethau ac arfarniadau opsiynau ar waith gyda phartneriaid Bwrdd Pwll Cenedlaethol Cymru a'r brifysgol fel rhan o gynllun ehangach ar gyfer gweithredu'r safleoedd presennol yn y pentref chwaraeon ac o'i gwmpas yn y dyfodol.

Stadiwm Liberty

- Cytunodd y cyngor ar brydles newydd gyda'r bwriad o drosglwyddo rheolaeth weithredol Stadiwm Liberty i Glwb Pêl-droed Dinas Abertawe. Bydd y cyngor yn rhan o'r camau gweithredu yn y dyfodol wrth gefnogi'r Elyrch a'r Gweilch i ehangu'r ddarpariaeth bresennol. Dan dermau'r cytundeb, byddai'r clwb yn talu rhent blynyddol i'r cyngor yn ogystal â darparu cyfran o unrhyw arian o hawliau enwi'r stadiwm. Byddai'r Elyrch hefyd yn ymrwymo i adeiladu caeau chwaraeon 3G mewn rhai cymunedau yn Abertawe. Adeiladwyd y stadiwm dan berchnogaeth y cyngor yn 2005 ac roedd wedi cael ei reoli trwy gytundeb tridarn rhwng y cyngor, yr Elyrch a'r Gweilch - y mae pob un

ohonynt yn cael eu cynrychioli trwy Gwmni Rheoli Stadiwm Abertawe (CRhSA) a reolir ar y cyd ganddynt.

- Fel rhan o'r cytundeb newydd, y clwb pêl-droed fydd yn rheoli CRhSA a'r stadiwm yn llwyr yn y dyfodol. Byddai'r cytundeb hefyd yn: galluogi'r cyngor i ddechrau derbyn refeniw uniongyrchol o'r stadiwm am y tro cyntaf erioed trwy daliadau rhent gwarantedig; rhoi'r gallu i'r Elyrch reoli eu tynged eu hunain a pharhau i gystadlu â chlybiau eraill drwy geisio ffrydiau refeniw newydd yn y stadiwm; a, chaniatáu i'r Gweilch barhau i chwarae yn y stadiwm ar brydles tymor hir.

Yr Economi Werdd

- Parhaodd y cyngor i fuddsoddi yn yr 'Economi Werdd' yn ystod 2017/18 er mwyn darparu buddion economaidd ac amgylcheddol. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau arbed ynni ac arian yn rhaglenni'r cyngor, megis: y gwaith ailddatblygu a wnaed yn Oriel Gelf Glynn Vivian a gafodd ei adeiladu i safonau Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu - da iawn; paneli solar a osodwyd yn Theatr y Grand; parhau â'r menter goleuadau stryd LED; monitro ardaloedd awyr lân a'r System Nowcaster a osodwyd ar brif rwydweithiau ffyrdd; ac adeiladu tai cyngor newydd i safon ynni effeithlon PassivHaus. Ystyrir defnyddio mentrau PV a solar a 'Chartrefi fel Gorsafoedd Pŵer' ar gyfer cynlluniau'r dyfodol.

Trafnidiaeth gynaliadwy a charbon isel

- Bu'r cyngor yn gweithio i ddarparu trafnidiaeth gynaliadwy a charbon isel yn ystod 2017/18 i helpu i wella lles amgylcheddol wrth wella cysylltedd a darparu buddion economaidd. Parhaodd y cyngor i ddatblygu gofynion cyflwyno Teithio Llesol a'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol a bu'n gweithio gyda phartneriaid megis Sustrans er mwyn ei wneud yn haws i bobl gerdded a beicio yn Abertawe. Mae 10% o'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol wedi'i wario ar Welliannau Teithio Llesol. Rydym wedi gweithio gyda chwmnïau bysus i wella dibynadwyedd a pha mor deniadol yw cludiant cyhoeddus. Cyflwynodd y cyngor Gynllun Olwynion i'r Gwaith; cynllun nid er elw ar gyfer benthyca sgwteri i'r rheiny nad oes ganddynt ffyrdd eraill o gyrraedd y gwaith neu barhau mewn swydd/hyfforddiant am nad oes ganddynt eu cludiant eu hunain neu fod diffyg cludiant cyhoeddus ar gael.

- Mae Cyngor Abertawe wedi archwilio'r cysyniad o gyflwyno mwy o bwyntiau gwefru ceir trydan trwy weithio ar y cyd â'i bartneriaid mewn awdurdodau lleol, prifysgolion a byrddau iechyd yn Abertawe, Sir Gâr, Castell-nedd Port Talbot a Sir Benfro. Cynhaliwyd Sioe Deithiol Aer Glân hefyd gan Gyngor Abertawe yn Sgwâr y Castell er mwyn arddangos technoleg cerbydau trydan a hydrogen. Daeth oddeutu 6,000 o bobl i ymweld â'r digwyddiad, gyda llawer ohonynt yn trefnu troeon prawf. Roedd BMW, Renault, Tesla, Mitsubishi, KIA, Toyota, Audi, My Big Green Fleet a Riversimple ymhlith yr arddangoswyr. Roedd ceir trydan Cyngor Abertawe a Phrifysgol Abertawe hefyd yn cael eu harddangos, yn ogystal â Sinclair C5 o'r 1980au a sioeau byw gan Titan y robot cyfeillgar.

- Mae'r cyngor wedi sicrhau cerbydlu o gerbydau trydan. Mae hyn yn golygu y bydd gan y cyngor fwy o gerbydau trydan ar y ffordd nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru. Bydd is-adrannau gan gynnwys rheoli gwastraff, priffyrdd, y gwasanaethau adeiladau ac eiddo corfforaethol a chyfleusterau sydd ar y ffordd yn rheolaidd oherwydd eu gwaith, yn defnyddio'r cerbydau trydan.

- Agorodd y cyngor gyswllt trafnidiaeth sylweddol newydd a fydd yn lleihau tagfeydd, yn gwella ansawdd aer ac yn hwyluso mwy o safleoedd datblygu ar hyd Afon Tawe. Datblygwyd Ffordd Ddosbarthu'r Morfa am gost o £5miliwn o bunnoedd, gan Gyngor Abertawe ac mae wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ymestyn am 1.7km o Stadiwm Liberty, i gyfeiriad y de ar hyd ochr

orllewinol Afon Tawe, i ganol y ddinas. Bydd yn helpu i leihau tagfeydd a gwella ansawdd aer ar Heol Castell-nedd gerllaw, sy'n teithio drwy ardal yr Hafod yn Abertawe.

Bioamrywiaeth a mannau gwyrdd

- Mae'r cyngor wedi parhau i hyrwyddo bioamrywiaeth a gwarchod mannau gwyrdd Abertawe, gan gynnwys parciau, at ddibenion hamdden ac i gefnogi lles. Mae polisïau'r CDLl yn ceisio cynyddu darpariaeth a hygyrchedd mannau agored dros y cyfnod hyd at 2025. Parhaodd y cyngor i gyflwyno Cynllun ParkLives sy'n cynnig sesiynau gweithgareddau am ddim mewn parciau a mannau agored lleol a chyflwyno cynllun cerdded Cymru gyfan, Dewch i Gerdded Cymru. Ystyrir Isadeiledd Gwyrdd fel yr ysgogiad ar gyfer gwella lles cenedlaethau'r dyfodol ac mae ganddo fuddion ecolegol sylweddol, gan gynnwys ar gyfer cysylltedd bywyd gwyllt, dod â cholli cynefinoedd i ben yn ogystal â cheubyllau carbon, y mae pob un ohonynt yn cyfrannu at gynaladwyedd yr economi ehangach yn ogystal â gwella lles. Mae'r cyngor wedi cynnal nifer o weithdai ar isadeiledd gwyrdd ac mae strategaeth yn cael ei pharatoi mewn cydweithrediad â Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r cyngor hefyd wedi cynnal prosiect ar y cyd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, cynghorau Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i nodi'r adnoddau isadeiledd gwyrdd presennol a'r meysydd blaenoriaeth i'w gwella.

- Gyda chyllideb gan Grant Refeniw Sengl Llywodraeth Cymru, mae cymunedau lleol wedi'u cefnogi i reoli a gwella eu mannau gwyrdd lleol a'u safleoedd bywyd gwyllt. Er enghraifft, plannu coed yng nghaeau chwarae Pentylla yn Townhill, gwelliannau i fynediad yng Ngwarchodfa Natur Bro Abertawe, clirio'r eithin yng Ngwarchodfa Natur Leol Pwll Du, gosod grisiau a llwybr yn Chwarel Rosehill a ger pwll Mayhill a chodi sbwriel yng ngwarchodfa natur Fferm y Garth.

Arfordir Abertawe/Y Faner Las

- Bu Abertawe'n gweithio gyda chydweithwyr a Croeso Cymru i wella lles, i annog twristiaeth ac i hyrwyddo ein harfordir fel rhan o Flwyddyn y Môr 2018. Bu'r cyngor hefyd yn cefnogi twristiaeth drwy lanhau'r traethau er mwyn sicrhau bod ansawdd dŵr yn dda ac i gynnal statws y Faner Las. Bu'r cyngor yn annog pobl i beidio â thipio'n anghyfreithlon a thaflu sbwriel ar y traeth ac mewn mannau arfordirol drwy gyfathrebu'n effeithiol ac yn benodol a thrwy gynnal ymgyrchoedd gorfodi, gan gynnwys taflenni ar gyfer y traethau a oedd yn rhoi gwybod i ymwelwyr am y rheolau a'r canllawiau arfer da mewn perthynas â diogelwch a glendid ar draethau.

Tai strategol a safleoedd datblygu cymysg

- Bu'r cyngor yn parhau i ddarparu tai strategol a safleoedd datblygu cymysg er mwyn diwallu'r angen am dai ac i ddarparu buddion cyflogaeth lleol. Adeiladodd y cyngor deg o dai dwy ystafell wely ac wyth fflat un ystafell wely yn Colliers Way a Chwrt Trevor ym Mhenderi, lle mae pobl yn byw ynddynt nawr. Fel rhan o gynllun peilot, bydd y cartrefi newydd yn helpu i arwain y ffordd yr adeiledir tai cyngor eraill yn Abertawe yn y dyfodol. Dyluniwyd pob cartref newydd i fodloni safonau blaengar ac ynni effeithlon PassivHaus, gan olygu nad oes angen llawer o ynni i'w gwresogi na'u hoeri sy'n helpu i gadw biliau tanwydd yn isel ac i helpu'r amgylchedd. Rhoddodd y gwaith adeiladu hwb i'r economi leol drwy gefnogi a chreu swyddi, darparu cyfleoedd i brentisiaid a defnyddio cyflenwyr lleol.

- Mae'r cyngor wedi gwerthu safle'r Four Seasons ar Heol y Trallwn yn Llansamlet am £400,000 i gwmni adeiladu lleol o'r enw Morganstone, a fydd yn adeiladu 41 eiddo fforddiadwy ar y safle ar gyfer y gymdeithas tai Grŵp Pobl. Mae'r safle wedi bod yn wag ac yn llawn gordyfiant ers i glwb y Four Seasons gael ei ddinistrio mewn tân yn 2011. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer tai

cymdeithasol fforddiadwy ar y safle, a bydd yn cynnwys 12 tŷ tair ystafell wely, 11 tŷ dwy ystafell wely, chwe fflat dwy ystafell wely, wyth fflat un ystafell wely a phedwar bynglo dwy ystafell wely.

Gwastraff/Ailgylchu

- Mae gweithredu'r camau gweithredu a nodwyd yn adolygiad comisiynu'r gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu ynghyd â'r mentrau amrywiol sydd ar waith wedi sicrhau bod y gyfradd ailgylchu gyffredinol wedi cynnal safle'r awdurdod fel yr awdurdod trefol arweiniol yng Nghymru. Mae mentrau a gyflwynwyd yn cynnwys cael gwared ar sgipiau gwastraff gweddilliol mewn tair o'r canolfannau ailgylchu gwastraff cartref a chyflwyno 'her' i breswylwyr sy'n mynd â gwastraff gweddilliol i'r ddau safle arall.

5. Y gwahaniaeth y mae'r amcan lles hwn yn ei wneud - astudiaeth(au) achos

Astudiaeth achos - Diwylliant 21

Mae datblygiad cynaliadwy'n tanategu ymagwedd strategol Abertawe at ddiwylliant. O ganlyniad, Abertawe oedd y ddinas gyntaf yn y DU i gofrestru ar gyfer Diwylliant 21 (Agenda 21 am Ddiwylliant http://www.agenda21culture.net/. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys rhannu dysg a gweithio gyda dinasoedd o'r un statws a chydweithwyr eraill yn y sefydliad Dinasoedd Unedig a Llywodraeth Leol i wreiddio naw ymrwymiad yn ein polisïau a'n rhaglenni cyflwyno.

Mae'r ymagwedd hon wedi cynyddu ein gallu i fwyafu cyfraniad diwylliant at bob un o'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae'r camau gweithredu i gyflawni'r ymrwymiadau hyn yn llunio'r sail i'n rhaglen waith a strategaeth ddiwylliannol y ddinas.

Mae llywodraethu diwylliannol a chynyddu amrywiaeth cyfranogiad yn ffocws allweddol yn ein gwaith. Mae creu a chyflwyno'r strategaeth hon yn broses ailadroddol ac mae'n cael ei goruchwylio gan grŵp o arweinwyr o amrywiaeth o sefydliadau eang, o Fwrdd Iechyd PABM, Cymdeithas Tai Coastal i Ranbarth Gwella Busnes Abertawe, ac mae'n cael ei llywio/ei hyrwyddo gan artistiaid, ymarferwyr a chynrychiolwyr o'r gymuned ehangach sydd o gefndiroedd amrywiol yn unol ag egwyddorion cynnwys a chydweithio.

Cyfeirir strategaeth ddiwylliannol Abertawe drwy 'Fframwaith' o flaenoriaethau, sy'n cynnwys:

Economi greadigol: archwilio'r cryfderau, y cyfleoedd a'r rhwystrau arbennig o ran tyfu sector diwydiannau creadigol sy'n gynaliadwy ac yn gryf ac o ran hwyluso effeithiau eraill i'r economi ehangach;
Diwylliant, y gymuned a lles - cyflwyno Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol: archwilio rôl diwylliant wrth gefnogi cymunedau cydlynol, ffyniannus, cydnerth ac iach;
Addysg, sgiliau ac ymchwil ddiwylliannol: sefydlu gwybodaeth gydlynol ar gyfer Diwydiannau Diwylliannol a Chreadigol yn y ddinas, sy'n defnyddio arloesedd ac yn cyflwyno llwyddiant o ran cadw a denu pobl dalentog;
Cynllunio diwylliannol: gwreiddio diwylliant a chreadigedd mewn datblygu, gan ganolbwyntio ar y cynlluniau adfywio allweddol yng nghanol dinas Abertawe a chynigiad ehangach ar gyfer Bae Abertawe ;
Twristiaeth ddiwylliannol: nodi ffyrdd o gydlynu'r cynnig diwylliannol drwy amrywio a chynyddu twristiaeth a gwneud y mwyaf o botensial Bae Abertawe fel cyrchfan trefol a gwledig.
Mae'r pileri hyn yn caniatáu ymagwedd tymor hir at gynllunio ac yn mabwysiadu ymagwedd ataliol, gan fuddsoddi nawr er mwyn gwrthbwyso tueddiadau'r dyfodol (megis y posibilrwydd o golli pobl dalentog) fel ffordd o wella canlyniadau'r dyfodol.

Yn ganolog i'r ymagwedd hon yw bod angen deall bod rhaid i ganlyniadau 'Dinas Diwylliant Cymru' fwyafu'r cyfraniad at bob un o'r nodau llesiant cenedlaethol os ydym am fanteisio ar bob cyfle i greu Abertawe â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

6. Sut mae'r amcan lles hwn yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol

- *Cymru lewyrchus* - Gweithredu'r Fargen Ddinesig gyda phartneriaid i fuddsoddi mewn isadeiledd digidol ac i gefnogi buddsoddiad, arloesedd, twf, swyddi, sgiliau a chynhyrchiant. Gwreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy yn y broses o ailddatblygu canol y ddinas drwy gynnwys gofynion ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau (gwastraff ac ynni), ynni adnewyddadwy, ehangu bioamrywiaeth/isadeiledd gwyrdd a defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol sy'n cefnogi economi gynhyrchiol a charbon isel ac addasu/lliniaru ar gyfer newid yn yr hinsawdd.
- *Cymru gydnerth* - Hyrwyddo'r 'Economi Werdd' gan gynnwys ynni adnewyddadwy i ddarparu buddion diogelwch ynni, lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd a manteision economaidd.
- *Cymru iachach* - Hyrwyddo bioamrywiaeth a gwarchod mannau gwyrdd Abertawe, gan gynnwys parciau ar gyfer hamdden a chwarae, i hybu iechyd a lles. Rheoli arfordir Abertawe a hyrwyddo ansawdd dŵr wedi'i wella a Statws y Faner Las i annog twristiaeth, amddiffyn yr amgylchedd ac i gefnogi lles.
- *Cymru sy'n fwy cyfartal* - Creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer pobl sydd wedi bod yn ddi-waith ac yn anweithgar yn economaidd yn y tymor hir drwy gymalau budd i'r gymuned yng nghontractau'r cyngor.
- *Cymru o gymunedau cydlynus* - Rhoi blaenoriaeth i ddarparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig.
- *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu* - Gwella, ehangu ac amrywio cyfleusterau ac isadeiledd hamdden, diwylliannol a threftadaeth i helpu i roi hwb i'r economi, i hyrwyddo twristiaeth ac i wella lles.
- *Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang* - Cefnogi ailgylchu a sicrhau bod y cyngor yn parhau i fod yn awdurdod drefol arweiniol yng Nghymru ar gyfer ailgylchu gwastraff. Mae cynnwys egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth ailddatblygu canol y ddinas, yn enwedig mewn perthynas ag effeithlonrwydd adnoddau a defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol yn cyfrannu at economi carbon isel sy'n addasu/lliniaru ar gyfer newid yn yr hinsawdd.

7. Y gwersi a ddysgwyd a'r meysydd i'w datblygu

Gwnaed cynnydd sylweddol gan y cyngor o ran bodloni ei amcan lles ond dysgwyd gwersi ac mae meysydd i'w datblygu ymhellach.

Y Fargen Ddinesig

- Mae cyfleoedd i hyrwyddo, rheoli a rhyddhau asedau eiddo'r cyngor i gefnogi gweithredu'r Fargen Ddinesig ymhellach. Gellir hefyd sefydlu cyfleoedd cydweithredol lle bydd angen i incwm a gollir o asedau eiddo presennol gael ei ystyried a'i liniaru.

- Bydd angen rhoi ystyriaeth i greu niferoedd digonol o weithwyr lleol cymwys i ddiwallu anghenion prosiectau'r Fargen Ddinesig ac i recriwtio arbenigwyr profiadol y bydd eu hangen er mwyn cyflwyno prosiectau: er enghraifft, datblygu Arweinwyr Creadigol Digidol dros Gymru. Yn ogystal, bydd angen i'r cyngor gael strategaeth Dinas Glyfar glir a pharhau i archwilio ffyrdd o greu ffrydiau incwm yn y dyfodol er mwyn llywio ac ariannu prosiectau datblygu'r dyfodol.

- Mae'r byd manwerthu sy'n newid o hyd a'i effaith ar y farchnad eiddo ar lefel leol a chenedlaethol wedi golygu bod angen i'r cyngor adolygu cynlluniau ar gyfer cyflwyno rhan o Gam 2 Abertawe Ganolog a'u hailwampio.

CDLl

- Bydd angen adolygu'r holl ganllawiau Cynllunio Atodol sy'n bodoli unwaith y caiff y CDLl ei fabwysiadu.

Y Tu Hwnt i Frics a Morter

- Bydd angen i'r cyngor barhau i fonitro cyfranogiad contractwyr yn y prosiect Y Tu Hwnt i Frics a Morter. Gellid hyfforddi gweithwyr sy'n fwy cyflogadwy drwy fynediad at gyrsiau hyfforddiant cyn cyflogaeth ar draws cynlluniau cyflogadwyedd. Ar hyn o bryd, mae gan bob cwrs gyllid ar gyfer ei gyfranogwyr ei hun ond byddai cyrsiau ar gyfer pawb yn fwy buddiol. Mae cyfranogiad adrannau yn y polisi i osod cymalau budd cymunedol mewn contractau'n hanfodol i greu cyfleoedd hyfforddiant a gwaith.

Dinas Diwylliant

- Mae'r gwaith ar y cais i fod yn Ddinas Diwylliant wedi creu cyfleoedd ar gyfer cyflwyno rhaglenni sy'n seiliedig ar ganlyniadau er mwyn creu sgiliau a gallu o fewn y sector diwylliannol ac i sicrhau buddsoddiad preifat gwell ar gyfer gweithgarwch creadigol/diwylliannol yn y ddinas. Mae hefyd fwy o gyfleoedd i gyflwyno Prentisiaethau Creadigol yng nghynllun prentisiaethau ehangach y cyngor.

Digwyddiadau diwylliannol

- Er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch manwerthu presennol yng nghanol y ddinas, byddai mwy o ddigwyddiadau'n annog mwy o bobl i ymweld â chanol y ddinas ac yn gweithredu fel ysgogwr economaidd ar gyfer busnesau lleol a buddsoddwyr posib. Yn yr un modd, byddai darparu digwyddiadau'n helpu i wella amrywiaeth yr adloniant gyda'r hwyr a chyda'r nos ac, yn enwedig, y cyfnod anodd wrth iddi ddechrau nosi pan fydd y siopau'n cau. Byddai hyn hefyd yn gwella canfyddiad o'r sector ac yn annog ymweliadau rheolaidd, er bydd argaeledd yr adnoddau a'r costau'n cyfyngu ar yr hyn y gellir ei wneud a gall hyd yn oed rhoi rhai digwyddiadau mewn perygl.

Stadiwm Liberty (Gwaith Copr yr Hafod/Skyline/Coridor Tawe)

- Mae cael cyllid digonol mewn lle ar gyfer prosiectau, megis y rheiny sy'n cael eu datblygu ar hyd Coridor Afon Tawe, bob amser yn hanfodol er mwyn iddynt gyflawni eu potensial llawn. Bydd angen i'r gefnogaeth arfaethedig ar gyfer caeau chwarae 3G a'r posibilrwydd o incwm ychwanegol o hawliau enwi gael eu hailystyried yn dilyn darostyngiad Clwb Pêl-droed Abertawe o'r uwch-gynghrair.

Economi Werdd

- Nid yw'r llywodraeth ganolog yn cefnogi prosiect y Morlyn Llanw ac felly mae'r cyngor yn edrych ar opsiynau eraill er mwyn mynd ag ef rhagddo. Mae'r cyngor wedi bod yn gweithio gyda Phrifysgol Abertawe i gomisiynu adroddiad sy'n amlinellu'r achos ar gyfer datblygu'r morlyn. Mae arweinydd y cyngor bellach wedi cynnull tasglu a fydd yn ceisio mynd â'r prosiect rhagddo.

Cludiant carbon isel

- Mae angen cynnydd yn nifer y pwyntiau gwefru ac isadeiledd addas ar draws y ddinas er mwyn darparu ar gyfer mwy o gerbydau trydan. Mae diffygion yn y rhwydwaith beicio a byddai datblygu map beicio'n fuddiol. Fel rhan o ofynion cyflwyno datblygiad Teithio Llesol a'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol, mae'n rhaid i'r ceisiadau am grantiau gael eu cydlynu'n gywir er mwyn osgoi ceisiadau sy'n cystadlu â'i gilydd.

- Yn ddiweddar, bu'r cyngor yn llwyddiannus wrth sicrhau arian grant gwerth £2.068 miliwn ar gyfer 2018-19 gan gronfa Teithio Llesol Lywodraeth Cymru. Defnyddir yr arian hwn i ddatblygu ac adeiladu cysylltiadau strategol a lleol i feicwyr/gerddwyr a fydd yn annog teithio cynaliadwy ar gyfer teithiau gwasanaeth a hamdden. Bu'r cyngor yn gweithio gyda Phrifysgol Abertawe wrth sefydlu a hyrwyddo cynllun llogi beiciau yn ardal Bae Abertawe, a ddechreuodd dros haf 2018; mae 5 gorsaf i adael y beiciau (3 ohonynt ar dir y cyngor) a 50 o feiciau.

Bioamrywiaeth/mannau gwyrdd

- Mae angen gwneud mwy o waith i gynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd mannau gwyrdd. Yn ogystal, mae angen darparu cyngor ecolegol yn gyffredinol i sicrhau ei fod yn cael ei ystyried yn llawn ar draws yr awdurdod ym mhob cynllun, strategaeth a phrosiect. Gellir cefnogi hyn drwy hyfforddiant ac addysg ehangach ar fioamrywiaeth Deddf yr Amgylchedd (Cymru) o fewn y cyngor.

- Mae angen ceisio cael mwy o wasanaethau a gwybodaeth ar gael ar-lein, h.y. rhywogaethau anfrodorol ymledol, clefyd coed ynn, y rhwydwaith Hawliau Tramwy etc. Mae'n debygol y bydd mwy o goed yn cael eu cymynu dros y blynyddoedd nesaf oherwydd clefyd coed ynn felly mae plannu coed newydd wedi dod yn fwyfwy bwysig, fel y mae'r angen i baratoi a mabwysiadu Polisi Coed a Chynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol y cyngor. Mae Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd y sir yn y broses o gael ei datblygu a bydd angen i'r cyngor ystyried ac ymateb i argymhellion Ymchwiliad Craffu i'r Amgylchedd Naturiol.

Tai strategol a safleoedd datblygu defnydd cymysg

- Mae maint y datblygiad sy'n cael ei gynnig yn darparu mwy o gwmpas i drafod cyfraniadau a106 a lefelau o ddarpariaeth tai fforddiadwy. Mae perygl na fydd hyrwyddwyr/perchnogion safleoedd yn cyflwyno safleoedd i'w datblygu a gall fod effaith bosib ar gyflwyno unrhyw ostyngiad yng nghyllid y dyfodol. Felly, bydd angen i'r cyngor barhau i ymchwilio i ffyrdd arloesol o ddarparu tai fforddiadwy.

Tai gwledig fforddiadwy

- Bydd angen cynnal asesiadau manylach o anghenion tai lleol ar gyfer ardaloedd gwledig a bydd yn bwysig sicrhau bod y buddion fforddadwyedd yn cael eu cynnal am byth ar gyfer y preswylwyr olynol.

Gwastraff/Ailgylchu

- Mae perygl y gallai newidiadau posibl i bolisïau casglu/ailgylchu pren gael effaith ar y gyfradd ailgylchu gyfan. Mae peryglon i enw da a pheryglon ariannol os nad ydym yn llwyddo i fodloni targedau ailgylchu statudol. Yn hanesyddol, mae'n anodd cyflawni cyfraddau ailgylchu da mewn fflatiau oherwydd bod y cyfleusterau'n wael/gyfyngedig. Dylid ailasesu'r angen am lifft â chymorth mewn eiddo, unwaith y'i darperir, yn rheolaidd er mwyn darparu ar gyfer anghenion/amgylchiadau newidiol ac i reoli galw cynyddol.

Trechu Tlodi

1. Pam mae hwn yn amcan lles

- Rydym am gael Abertawe lle nad yw tlodi incwm yn rhwystr i wneud yn dda yn yr ysgol, cael bywyd iach a bywiog, datblygu sgiliau a chymwysterau a chael galwedigaeth sy'n rhoi boddhad.
- Rydym am herio mynediad annigonol at wasanaethau angenrheidiol o ansawdd da drwy dargedu adnoddau lle maent yn cael yr effaith fwyaf, gyda phenderfyniadau am hynny'n cael eu gwneud ar y cyd â defnyddwyr gwasanaeth.
- Rydym am i'n holl breswylwyr gael y cyfle a'r adnoddau i ymuno mewn gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a hamdden ac wrth wneud penderfyniadau.
- Rydym am i bobl fwyafu eu hincwm a chael y gorau o'r incwm sydd ganddynt.
- Rydym am i bobl osgoi talu'r 'premiwm tlodi', sef y costau ychwanegol y mae'n rhaid i bobl ar incwm isel dalu am hanfodion megis tanwydd a chludiant.
- Rydym am sicrhau y caiff y rhwystrau i gyflogaeth, megis cludiant a gofal plant, eu dileu.
- Rydym am sicrhau nad yw pobl o gymunedau mwyaf difreintiedig Abertawe yn cael eu heithrio a'n bod yn lleihau anghydraddoldebau rhwng cymunedau ac ynddynt.

2. Y camau rydym wedi dweud y byddem yn eu cymryd i fodloni'r amcan lles hwn

- Rhoi'r Strategaeth Tlodi ddiwygiedig ar waith i rymuso pobl leol, newid diwylliannau i bwysleisio bod trechu tlodi'n fusnes i bawb a thargedu adnoddau i gynyddu mynediad at gyfleoedd a ffyniant i'r eithaf.
- Gweithio gyda'n partneriaid iechyd i sicrhau, drwy ein Strategaeth Blynyddoedd Cynnar, fod plant yn eu blynyddoedd cynnar ac yn y Cyfnod Sylfaen yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o ran datblygiad ieithyddol, emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol a'u bod yn barod i ddysgu ac i fynd i'r ysgol.
- Drwy ein Fframwaith Datblygu Ieuenctid, sicrhau bod gan bobl ifanc fynediad at gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant wedi iddynt gyrraedd 16 oed.
- Helpu i fynd i'r afael ag effeithiau diwygio lles, megis cefnogi pobl i hawlio'r budd-daliadau llawn y mae ganddynt hawl iddynt fel y gallant fwyafu eu hincwm.
- Buddsoddi i wella tai ac adeiladu tai cyngor mwy ynni effeithlon a thai fforddiadwy i helpu i ddiwallu'r angen am dai, lleihau biliau tanwydd, adfywio stadau a dod â buddion economaidd a chyflogaeth ehangach.
- Atal digartrefedd a chefnogi pobl i gynnal eu tenantiaethau i helpu i gynnal sefydlogrwydd a diogelwch i deuluoedd, diogelu iechyd a lles ac atal eithrio cymdeithasol.
- Archwilio'r syniad o greu ein menter ynni ein hunain i ddarparu ynni rhad i gartrefi, gan helpu i fynd i'r afael â biliau tanwydd domestig uchel a thlodi tanwydd.
- Cefnogi mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, helpu i ddileu tlodi tanwydd a rhoi hwb i ddatblygiad economaidd drwy'r cynllun ARBED a mesurau effeithlonrwydd ynni mewn tai cymdeithasol.
- Archwilio gostyngiadau treth a chefnogaeth ar gyfer lleoliadau banciau bwyd ac annog busnesau i leihau gwastraff bwyd drwy gyflenwi nwyddau i fanciau bwyd lleol, wrth archwilio opsiynau cynaliadwy ar gyfer lleihau tlodi bwyd.
- Treialu 30 awr o ofal plant am ddim ar y cyd â Llywodraeth Cymru, gwerthuso'r effaith ar dlodi a gweithio i sicrhau bod gan bob cymuned wasanaeth bws o safon sy'n ddibynadwy ac yn fforddiadwy i helpu i leihau rhwystrau i gyflogaeth.
- Cefnogi unigolion i oresgyn eu rhwystrau i gyflogaeth drwy brosiectau cyflogadwyedd sy'n canolbwyntio ar y person megis *ESGYN* a *Chymunedau am Waith.* Lansio rhaglen cyflogadwyedd beilot newydd gyda model recriwtio cymdeithasol.
- Helpu cymunedau tlotaf Abertawe i drechu tlodi drwy gael mynediad at gelfyddydau, diwylliant a threftadaeth er mwyn datblygu sgiliau, magu hyder, a chynyddu hunan-barch a dyhead.

- Darparu digwyddiadau amgylcheddol rhad neu am ddim, gan gynnwys teithiau tywys ar droed ac ar feic, ystod eang o sgyrsiau, gweithdai a chyrsiau hyfforddi am fywyd gwyllt a materion amgylcheddol, a llawer o weithgareddau i blant sy'n hybu llythrennedd amgylcheddol ac iechyd a lles gwell.
- Rhoi'r *Cynllun Cyflwyno Cydlyniant Cymunedol* ar waith i hyrwyddo cymunedau cydlynol a chynhwysol yn Abertawe.

3. Mesur llwyddiant

- Mae gan Abertawe strategaeth gorfforaethol a chynhwysfawr i fynd i'r afael â thlodi. Caiff llwyddiant ei farnu yn ôl llwyddiant y gwaith a wnaed i helpu i fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau tlodi, eu lliniaru a'u goresgyn. Bydd llwyddiant yn golygu:
  - dechrau ar oed cynnar i helpu plant i gyrraedd eu cerrig milltir datblygu a rhoi cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, gwaith neu hyfforddiant i bobl ifanc;
  - lliniaru effeithiau tlodi incwm;
  - atal achosion eithrio cymdeithasol, megis digartrefedd;
  - helpu i liniaru effeithiau'r 'premiwm tlodi' ar gostau tai, tanwydd a thrafnidiaeth; a
  - helpu i gael gwared ar y rhwystrau i gyflogaeth megis gofal plant amhosib ei fforddio.

4. Gwneud cynnydd tuag at y camau i fodloni'r amcan lles hwn – yr hyn sydd wedi gweithio

Strategaeth Trechu Tlodi

- Mabwysiadodd y cyngor ei Strategaeth Tlodi newydd ar gyfer 2018-20, sef 'Gweithio Tuag At Ffyniant i Bawb yn Abertawe', ym mis Ionawr 2018. Mae'r strategaeth yn cynnwys argymhellion a wnaed gan Banel Ymchwiliad Craffu'r cyngor yn ei adroddiad 'Gweithredu, partneriaeth, cyfranogiad - sut gellir gwella Strategaeth Trechu Tlodi'r Cyngor?' Mae'r strategaeth yn nodi ymagwedd gorfforaethol sy'n gweithio tuag at ffyniant i bawb yn Abertawe, sy'n mynd i'r afael â thlodi incwm, sy'n sicrhau gwasanaethau hygyrch o safon ac sy'n gwella'r cyfleoedd a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer cyfranogiad.

- Mae cynllun cyflwyno ar draws adrannau'n gosod ymrwymiadau ar draws y cyngor i sicrhau bod **trechu tlodi'n fusnes i bawb**. Caiff yr ymagwedd hon ei chefnogi ymhellach gan Fforwm Tlodi Cyngor Abertawe a Phartneriaeth Tlodi Abertawe, gan hyrwyddo'r neges a datblygu prosiectau a gwasanaethau sy'n cefnogi'r egwyddor hon.

- Mae nodweddion y strategaeth yn cynnwys mwy o gefnogaeth i rieni ifanc, gan gyflwyno prosiect peilot gofal plant estynedig Llywodraeth Cymru, gweithio gyda'r trydydd sector a phartneriaid eraill i greu mwy o leoliadau gwirfoddoli, a chynyddu cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth drwy'r strategaeth prentisiaid a hyfforddeion ar draws y cyngor ar gyfer pobl ifanc, gan glustnodi'r rheiny â'r angen mwyaf. Mae dangosyddion perfformiad allweddol priodol yn cael eu cwblhau ar draws y cyngor, gan gynnwys sefydlu gwaelodlinau, targedau ac amserlenni adrodd disgwyliedig ar gyfer pob amcan strategol.

Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar

- Mae'r cyngor yn parhau i weithio gyda'i bartneriaid iechyd i ddarparu'r dechrau gorau mewn bywyd i blant yn ein hardaloedd *Dechrau'n Deg* mwyaf difreintiedig. Mae *Dechrau'n Deg* yn cynnig gofal plant rhan-amser o safon am ddim i blant dwy flwydd oed mewn ardaloedd penodol yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Abertawe. Y nod yw eu helpu i ddatblygu fel eu bod yn barod i ddechrau'r ysgol feithrin, a helpu eu teuluoedd i gefnogi eu plant. Yn 2017/18, roedd 2,955 o blant

wedi elwa o raglen *Dechrau'n Deg* a pharhaodd cyfartaledd presenoldeb lleoliadau gofal plant i gyflawni ei darged, sef 80%. Llwyddodd y cyngor gyda'i gais i Lywodraeth Cymru am grantiau cyfalaf ar gyfer canolfannau Dechrau'n Deg y ddinas. Caiff mwy na £100,000 ei wario ar wella cyfleusterau cyn-ysgol i blant ifanc mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Abertawe. Caiff yr arian ei ddefnyddio i wella a diweddaru ardaloedd plant, ychwanegu cyfleusterau eraill a gwella diogelwch ar saith safle.

- Sefydlwyd a datblygwyd y Prosiect *Jig-so* integredig er mwyn cefnogi teuluoedd ifanc difreintiedig o feichiogrwydd ac yn ystod blynyddoedd cynnar y plentyn. Tîm amlddisgyblaeth o fydwragedd, ymarferwyr y Bwrdd Arholi Meithrinfeydd Cenedlaethol (NNEB) ac ymarferwyr Magu Plant a Datblygiad Iaith Cynnar yw hwn, sy'n gweithio'n agos gyda phartneriaid ehangach megis bydwragedd ac ymwelwyr iechyd craidd i ddarparu llwybr o gefnogaeth. Mae'r cyngor yn gweithio gyda chydweithwyr iechyd i ddatblygu ymhellach y *Prosiect Blynyddoedd Cynnar Gofal Sylfaenol* gan ehangu fwy o glystyrau meddygon teulu wrth i arian ddod ar gael. Cynhaliwyd digwyddiad cydweithredol *Y 1000 Diwrnod Cyntaf* gyda phartneriaid i ddatblygu cynlluniau i wella *Llwybr y Blynyddoedd Cynnar* a'r *Strategaeth Dechrau Gorau* ymhellach, ac i gyfrannu at flaenoriaeth y Blynyddoedd Cynnar o fewn Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid

- Mae gwaith monitro ac olrhain amlasiantaeth cadarn yn parhau i fynd rhagddo dan *Gynllun Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid* yr awdurdod, a'r Bwrdd NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) sy'n goruchwylio hyn. Yn ychwanegol, rydym wedi cymryd rhan mewn prosiectau cydweithredol megis rhaglen *Cynnydd*, sy'n darparu amrywiaeth llawn o weithgareddau cynnwys, dysgu a hyfforddiant i oedolion ifanc rhwng 11 ac 16 oed er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET ac i gynyddu eu lefelau cyrhaeddiad. Rydym hefyd wedi cymryd rhan yn y prosiect cydweithredol *Cam Nesaf* sy'n bwriadu lleihau nifer y bobl ifanc NEET sydd rhwng 16 a 24 oed.

- Mae Amgueddfa Abertawe wedi cynnal arddangosfa a gwaith prosiect sydd wedi cynnwys gweithio gyda phobl ifanc NEET a gofalwyr ifanc. Mae Oriel Gelf Glynn Vivian hefyd wedi cyflwyno nifer o raglenni dysgu a chynnwys ar gyfer pobl ddiamddiffyn, gan gynnwys Criw Celf yr Ifanc, sef dosbarth celf achrededig i bobl ifanc NEET a phlant a addysgir yn y cartref. Yn 2017/18, nodwyd bod 2.15% o bobl ifanc Abertawe'n NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) yn 16 oed ar ôl gadael addysg ffurfiol.

- Mae gan Ganolfan Dylan Thomas dair Sgwad Sgwennu Ifanc, un grŵp ar gyfer plant oed cynradd a dau ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd. Mae'r grwpiau'n cwrdd ddwywaith y tymor ar gyfer gweithdy am ddim gydag awdur proffesiynol. Mae eu sgiliau llythrennedd yn gwella, maent yn datblygu gallu meddyliol mwy creadigol a beirniadol, mae eu dyheadau'n codi ac maent yn dod yn fwyfwy hyderus wrth fynegi eu hunain. Mae'r grwpiau'n cynnwys pobl ifanc o bob rhan o Abertawe, gan gynnwys plant a addysgir yn y cartref.

Hawliau Lles a chamau a gymerwyd i fynd i'r afael â Diwygio Lles

- Darparodd Tîm Hawliau Lles y cyngor raglen hyfforddiant gynhwysfawr am hawliau lles er mwyn gwella sgiliau staff Cyngor Abertawe a sefydliadau partner, a'u cefnogi. Buont yn cynnal nifer o seminarau a hyfforddiant manylach am ddiwygio lles. Darparodd y tîm linell gymorth hawliau lles i gefnogi gweithwyr gydag ymholiadau budd-dal eu cleientiaid ac yn ystod blwyddyn ariannol 2017-18 darparwyd cyngor ar 584 o ymholiadau. Roedd ymholiadau'n amrywio o wiriadau budd-dal i gyngor arbenigol cymhleth. Roedd y tîm hefyd wedi cynrychioli pobl mewn 89 o wrandawiadau

tribiwnlys (nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys gohiriadau neu apeliadau a oedd wedi dod i ben). Cododd Tîm Hawliau Lles y cyngor £1,170,226 o fudd-daliadau lles trwy sicrhau hawliau yn 2017/18. Hefyd, gwnaeth yr Uned Cefnogi Tenantiaid (UCT) sicrhau £898,654 i ddefnyddwyr gwasanaeth a gefnogwyd gan y gwasanaeth yn 2017/18.

- Mae'r cyngor wedi datblygu perthynas â Shelter Cymru sydd wedi'i hariannu gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol er mwyn darparu cefnogaeth gyllidebol bersonol i bobl. Mae'r gwasanaethau'n darparu llinell gyngor a chyfeiriad e-bost penodedig i gynnig cyngor lles i gwsmeriaid, sy'n cynnwys cyngor ar sut i hawlio Budd-dal Tai, Gostyngiad Treth y Cyngor a Thaliad Tai Dewisol, ac sy'n rhoi help a chyngor ar newidiadau diwygio lles a budd-daliadau lles eraill. Mae staff y cyngor yn parhau i gefnogi cwsmeriaid Budd-dal Tai y mae'r terfyn budd-dal yn effeithio arnynt.

- Mae llyfrgelloedd yn gweithio gydag Undeb Credyd Celtic i ganiatáu defnyddio llyfrgelloedd fel canolfannau arbedion ac ernesau ychwanegol. Bydd hyn yn galluogi cyfleusterau bancio sylfaenol sydd wedi'u rheoli a'u cynnal gan wirfoddolwyr Undeb Credyd Celtic i fod ar gael mewn amrywiaeth eang o gymunedau.

Cartrefi Cyngor Ynni Effeithlon

- Cyflawnodd y cyngor raglen o waith gwella ar 250 o dai'r cyngor yn Abertawe er mwyn helpu tenantiaid i arbed arian ar eu biliau gwresogi. Mae'r prosiect - sy'n cynnwys adnewyddu toeon a gwaith cysylltiedig, cyflwyno systemau rendro wedi'u inswleiddio a chael gwared ar waliau ceudod wedi'u hinswleiddio - yn parhau mewn cartrefi mewn ardaloedd megis Cwmbwrla, Craig-cefn-parc, Casllwchwr, Winsh Wen, Pontarddulais, Penlan a Pharc Sgeti. Roedd y gwaith hwn yn helpu tuag at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru wrth fynd i'r afael â thlodi tanwydd yn Abertawe trwy ostwng biliau gwresogi tenantiaid. Ar ôl cwblhau'r gwaith, bydd y cartrefi'n edrych yn well gan roi hwb i'r olwg sydd ar gymunedau'n gyffredinol.

- Yn ychwanegol, adeiladodd y cyngor ddeg o gartrefi dwy ystafell wely ac wyth fflat un ystafell wely yn Colliers Way a Chwrt Trevor ym Mhenderi (y mae pobl bellach yn byw ynddynt). Fel rhan o gynllun peilot, bydd y cartrefi newydd yn helpu i arwain y ffordd rydym yn adeiladu tai cyngor yn Abertawe yn y dyfodol. Dyluniwyd pob cartref i fodloni safonau blaengar ac ynni effeithlon PassivHaus, gan olygu nad oes angen llawer o ynni i'w gwresogi a'u hoeri.

- Rhoddodd y gwaith adeiladu hwb i'r economi leol drwy gefnogi a chreu swyddi, gan ddarparu cyfleoedd i brentisiaid a defnyddio cyflenwyr lleol. Yn ystod y cyfnod adeiladu, cynhaliwyd dros 450 o ddiwrnodau hyfforddiant i brentisiaid lle cawsant gyfle i weithio ochr yn ochr â chrefftwyr medrus a phrofiadol. Roedd dau ymgeisydd profiad gwaith arall a oedd wedi bod yn ddi-waith yn y tymor hir wedi cael swyddi gyda Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol y cyngor dan raglen buddion cymunedol Y Tu Hwnt i Frics a Morter yr awdurdod, gyda'r tîm yn defnyddio is-gontractwyr a chyflenwyr lleol. Mae'r gwaith hwn yn helpu i fynd i'r afael â diffyg tai fforddiadwy yn Abertawe ond mae hefyd yn darparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Cwblhawyd y gwaith i adeiladu Colliers Way gan grefftwyr lleol ar ran Tîm Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol y cyngor, gan greu swyddi, hybu sgiliau a bod o fudd i gyflenwyr lleol hefyd. Parc yr Helyg yng Ngellifedw fydd y datblygiad nesaf i'w adeiladu, lle bydd y cyngor unwaith eto'n adeiladu cartrefi ynni effeithlon o safon.

Atal Digartrefedd a Chynnal Tenantiaethau

- Mae gan y cyngor nifer o wasanaethau gan gynnwys Swyddfeydd Tai Rhanbarthol, Uned Cefnogi Tenantiaid (UCT), Swyddogion Rhent, Swyddog Cynnwys Ariannol a'r Uned Cefnogi Cymdogaethau

er mwyn helpu tenantiaid i gynnal eu tenantiaethau ac atal dyledion a digartrefedd. Mae hyn yn helpu pobl i gynnal sefydlogrwydd a diogelwch ar gyfer eu teuluoedd, i ddiogelu eu hiechyd a'u lles ac i atal eithrio cymdeithasol. Fel rhan o'i waith, cynigiodd y cyngor gefnogaeth a chyngor uniongyrchol i denantiaid yr effeithiwyd arnynt gan ddiwygio lles, gan gynnwys cefnogaeth cyllidebu personol a chefnogaeth ddigidol. Mae'r Gwasanaeth Tai'n ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn barhaus, a chânt eu hadolygu o bryd i'w gilydd. Yn 2017/18, llwyddodd y cyngor i atal 68.75% o aelwydydd a oedd yn wynebu digartrefedd rhag dod yn ddigartref. Yn ychwanegol, cwympodd nifer y diwrnodau yr oedd teuluoedd digartref â phlant yn treulio mewn llety gwely a brecwast ar gyfartaledd o 3.8 niwrnod yn 2016/17 i 1.5 diwrnod yn 2017/18. Roedd y Gwasanaeth Tai yn y broses o ddatblygu Strategaeth Digartrefedd newydd i Abertawe yn 2017/19, a bydd y strategaeth ar waith erbyn 2018.

- I helpu pobl i gynnal eu cartrefi mae'r cyngor yn cynnig cefnogaeth a chyngor uniongyrchol i denantiaid yr effeithir arnynt gan Ddiwygio Lles, gan gynnwys cefnogaeth cyllidebu personol a chefnogaeth ddigidol. Yn 2017/18, llwyddodd 81% o bobl i reoli eu harian yn sgîl cefnogaeth gan yr UCT. Cefnogodd yr UCT 89% o bobl i reoli a chynnal eu tenantiaethau, gan leihau camau meddiannu a throi allan. Roedd 81% o bobl a oedd yn wynebu digartrefedd wedi llwyddo i aros yn eu cartrefi o ganlyniad i gefnogaeth yr UCT.

- Gwahoddwyd llawer o bobl ddigartref, ddiamddiffyn ac ynysig i gael cinio a pharti Nadolig am ddim. Aeth dros 200 o bobl i Neuadd Brangwyn y ddinas ar 12 Rhagfyr i fwynhau ail ddigwyddiad 'Gyda'n Gilydd dros y Nadolig'. Roedd y digwyddiad, a drefnwyd gan JR Events and Catering gyda chefnogaeth gan Gyngor Abertawe, yn cynnwys cinio Nadolig dau gwrs am ddim, coeden Nadolig, clecars Nadolig, cerddoriaeth fyw, cantorion, DJ a bwth tynnu lluniau. Yn ogystal, roedd mannau gwybodaeth a oedd yn ymwneud â chymorth tai, budd-daliadau a chynlluniau cyflogaeth ar gael yn y digwyddiad. Roedd cyfle i dorri gwallt a chael archwiliadau dannedd am ddim diolch i fusnesau lleol.

- Y llynedd, aeth y cyngor ati i helpu perchnogion i adfer 97 o anheddau gwag er mwyn eu defnyddio unwaith eto. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae bron 1,450 o eiddo gwag yn Abertawe wedi'u defnyddio eto. Gellir priodoli hyn i ymagwedd ragweithiol lle mae swyddogion yn cymryd pa bynnag gamau gweithredu y mae eu hangen i annog ailddefnyddio eiddo gwag, gan gynnwys y cynlluniau benthyciadau ar gyfer anheddau gwag a helpodd i greu 16 o anheddau ychwanegol y llynedd trwy droi anheddau gwag yn unedau ar wahân.

Archwilio Datblygu Menter Ynni

- Mae'r cyngor yn parhau i archwilio'r potensial i greu ei fenter ynni ei hun er mwyn helpu i ddarparu ynni cost isel i gartrefi a helpu i fynd i'r afael â biliau tanwydd domestig uchel a thlodi tanwydd. Yn sgîl cymeradwyaeth gan y Cabinet, mae'r cyngor wedi comisiynu'r Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus i ddatblygu astudiaeth dichonoldeb fanwl a chynnal diwydrwydd dyladwy er mwyn cadarnhau dichonoldeb sefydlu'r cwmni.

ARBED a Mesurau Effeithlonrwydd Ynni mewn Tai Cymdeithasol

- Mae'r cyngor yn parhau i wella eiddo er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella lles unigolion trwy fforymau megis Fforwm yr Amgylchedd Abertawe ac Abertawe Carbon Isel, a thrwy gyflwyno ceisiadau ARBED addas ar gais. Mae mesurau effeithlonrwydd ynni'n cael eu cynnwys yng Nghynllun Ardal Adnewyddu Tai Sandfields, sef rhaglen 5 mlynedd o welliannau i dai'r sector preifat a gwelliannau amgylcheddol i ardal â lefelau uchel o amddifadedd cymdeithasol lle nodwyd bod amodau tai'n wael. Yn ychwanegol, parhaodd y cyngor i wella ei stoc tai trwy waith amgáu, gosod

boeleri newydd ac inswleiddio llofftydd er mwyn cyfrannu at fynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella'r amgylchedd.

Banciau Bwyd a Thlodi Bwyd

- Mae'r cyngor wedi parhau i drafod â banciau bwyd o ran cryfhau cysylltiadau â busnesau er mwyn mynd i'r afael â thlodi bwyd. Cynhaliwyd cyfarfod â Banc Bwyd Eastside i drafod anghenion cyllid a chefnogaeth, a bydd y maes gwaith hwn yn cael ei ddatblygu gan y Bartneriaeth Tlodi. Darparodd Adran Cyllid y cyngor gyngor ar ostyngiadau treth a banciau bwyd, ac mae'r cyngor yn archwilio ymrwymo i ymgyrch 'Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff' WRAP, sy'n ceisio newid ymddygiadau er mwyn lleihau gwastraff bwyd.

- Parhaodd y cyngor i weinyddu'r Gronfa Tyfu'n Lleol i randiroedd, grwpiau cymunedol, ysgolion a chylchoedd chwarae er mwyn eu hannog i dyfu bwyd lleol. Yn ychwanegol, creodd y cyngor Fenter Bwyd (Llond Bol) – sef Cwmni Budd Cymunedol corfforedig – i fynd i'r afael â thlodi bwyd. Roedd disgwyl i staff y cyngor drosglwyddo i'r cwmni budd cymunedol ar ôl 31 Mawrth 2018. Mae'r cynllun busnes wedi'i gwblhau, mae'r bwrdd wedi'i sefydlu, mae aelodau wedi'u recriwtio ac mae'r gwaith wedi dechrau ar ddatblygu cynigion gweithio ar y cyd â chymdeithas dai Gwalia/Pobl yn ardal Blaen-y-maes yn Abertawe.

- Yn ogystal â'r uchod, mae Cyngor Abertawe'n cydweithio â darparwr tai cymdeithasol, Grŵp Pobl, ar fenter newydd a gynhelir o geginau Cynllun Gofal Ychwanegol Llys y Werin yng Ngorseinon. Mae prydau blasus, sy'n faethlon gytbwys, yn cael eu coginio'n ffres ar gyfer defnyddwyr Gofal Ychwanegol a defnyddwyr Gwasanaeth dydd y ganolfan. Bydd gwasanaeth peilot ar gyfer dosbarthu prydau hefyd yn cael ei lansio'n fuan yn ardaloedd côd post SA4 ac SA5 sy'n rhoi cyfle i breswylwyr gael bwyd iach a fforddiadwy. Bydd y gwasanaethau hyn yn rhan o gynigion y fenter bwyd a nodwyd uchod, a chânt eu defnyddio i helpu i fynd i'r afael â thlodi bwyd yn Abertawe ac i helpu preswylwyr y ddinas i gael mynediad at fwyd da. Byddai'r incwm dros ben yn cael ei ddefnyddio i ddarparu prydau am ddim i bobl sy'n llwgu a heb sicrwydd bwyd, a chefnogi gwaith y sefydliadau eraill sy'n gweithio mewn cymunedau yn y ddinas.

- Mae'r cyngor wedi parhau i roi rheolaeth i ddeiliaid rhandiroedd Abertawe dros eu safleoedd eu hunain. Mae 16 o randiroedd yn y ddinas sy'n darparu 307 o leiniau. Mae rhai safleoedd yn cael eu rheoli'n llwyddiannus gan y defnyddwyr eu hunain ond mae eraill yn cael eu rheoli gan y cyngor o hyd. Dan y cynlluniau, byddai'r holl safleoedd yn cael eu trosglwyddo i gymdeithasau aelodaeth ar brydlesau tymor hir a byddent yn talu rhent rhad a bod yn gwbl gyfrifol am y tir. Byddai'n golygu y byddent yn gallu casglu eu rhent eu hunain a gwario'r incwm ar eu blaenoriaethau eu hunain. Byddent hefyd yn gallu llunio eu rheolau safle eu hunain a chyflwyno cais am grantiau amrywiol nad ydynt ar gael i'r cyngor.

Treialu 30 awr o ofal plant am ddim

- Roedd y cyngor wedi treialu'r Cynllun Peilot Gofal Plant a aeth yn fyw ym mis Gorffennaf 2017 ar draws 7 ward a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Mawrth 2017. Mae'r cynnig wedi cael ei hysbysebu a'i hyrwyddo'n eang, a bwriedir iddo fynd i'r afael â chost gofal plant gan helpu i atal tlodi mewn gwaith a lleihau rhwystrau i gyflogaeth. Aeth y cyngor ati i hysbysebu'r cynllun trwy bresenoldeb staff mewn ffeiriau ysgol (yn y wardiau dewisol), trwy lythyrau at rieni y nodwyd eu bod yn gymwys ar gyfer y cynnig, trwy ddatblygu deunyddiau a thaflenni cyhoeddusrwydd, trwy ddigwyddiadau'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a gweithgareddau cymunedol eraill, a thrwy ddarparu sawl digwyddiad cynnwys darparwyr. Rhoddwyd ffocws penodol ar gynyddu ymwybyddiaeth rhieni cymwys o'r ffaith eu bod yn gallu cael gofal plant yn ystod y gwyliau fel rhan

o'r cynllun, yn ogystal â gofal yn ystod y tymor. Erbyn mis Ebrill 2018 derbyniwyd 335 o geisiadau, a phroseswyd 287 o geisiadau y cadarnhawyd eu bod yn gymwys i dderbyn y cynnig. Mae 90 o leoliadau gofal plant cofrestredig AGC wedi cofrestru ar gyfer y cynnig.

Esgyn/Cymunedau am Waith/Gweithffyrdd+/Cymunedau am Waith a Mwy

- Gwnaed gwaith i addasu o fod yn rhan o raglenni *Cymunedau'n Gyntaf* ac *Esgyn* a ddaeth i ben yn raddol ar draws Cymru yn ystod 2017/18. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r cyngor wedi llwyddo i ddyrannu cyllid gan Lywodraeth Cymru yn llwyddiannus er mwyn cyflwyno'r rhaglen newydd *Cymunedau am Waith a Mwy* a chlustnodi cyllid o'r Gronfa Etifeddiaeth, tan fis Mawrth 2020 i ddechrau. Mae'r rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy yn darparu cefnogaeth ar gyfer cyflogaeth drwy fentora un i un dwys. Mae'r rhaglen hon yn gweithio ar y cyd â'r rhaglen *Cymunedau am Waith*, ond gall gefnogi pobl nad ydynt yn gymwys ar ei chyfer. Mae Cymunedau am Waith a Mwy yn cefnogi'r rheiny sy'n ddi-waith yn y tymor byr a'r rheiny sy'n dioddef o dlodi gwaith. Mae Cymunedau am Waith a Mwy yn blaenoriaethu cefnogaeth mewn Ardaloedd Cyflwyno sy'n cyfateb i hen glystyrau Cymunedau'n Gyntaf, ond nid yw wedi'i chyfyngu i gefnogi pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn yn unig. Rhwng mis Ebrill 2014 a mis Rhagfyr 2017, cefnogodd *Rhaglen Esgyn*, a oedd yn gweithredu yn Ward Penderi, 126 o bobl i ddod o hyd i waith. Rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2018, mae'r rhaglen *Cymunedau am Waith* wedi cefnogi 165 o bobl i ddod o hyd i waith.

- Mae'r Gronfa Etifeddiaeth yn adeiladu ar elfennau llwyddiannus a mwyaf gwerthfawr hen raglen Cymunedau'n Gyntaf, wrth gefnogi ymhellach y broses o gyflwyno rhaglenni *Cymunedau am Waith* a Chymunedau am Waith a Mwy. Defnyddir adnoddau yn effeithiol i hyrwyddo cynhwysiad ariannol, cefnogaeth ddigidol, dysgu yn y gymuned a rhaglen newydd *Abertawe'n Gweithio*, sy'n cydlynu cefnogaeth ar gyfer cyflogaeth yn Abertawe ac yn sicrhau ymagwedd gyfannol at ddarparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser cywir.

- O ganlyniad i gyflwyno prosiect Gweithffyrdd a Mwy, a ddechreuodd yn 2016, yn llwyddiannus yn Abertawe, llwyddodd y cyngor i sicrhau arian ychwanegol er mwyn ehangu argaeledd y prosiect a chefnogi mwy o gyfranogwyr, ac ymestyn cyflwyniad y prosiect tan 31 Rhagfyr 2022. Yn ystod 2017/18, cefnogodd Gweithffyrdd a Mwy 192 o gyfranogwyr ar eu taith i gyflogaeth, gyda 71 ohonynt mewn cyflogaeth wrth adael. Roedd y prosiect hefyd yn gallu cynnig profiad gwaith â thâl neu gyfleoedd gwirfoddoli i 75 o'i gyfranogwyr. Mae Gweithffyrdd a Mwy yn gallu cefnogi'r rheiny dros 25 oed sy'n byw y tu allan i ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf ac sydd naill ai'n ddi-waith yn y tymor hir neu'n anweithgar yn economaidd â rhwystrau cymhleth.

- Wrth gyflwyno'r prosiect Gweithffyrdd+, daeth yn amlwg drwy adborth staff a'r system gwybodaeth reoli bod bwlch mewn darpariaeth cyflogadwyedd i'r rheiny dros 25 oed a oedd yn ddi-waith yn y tymor byr. O ganlyniad, ceisiodd y cyngor sicrhau cyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) i gyflwyno'r prosiect *Abertawe'n Gweithio: Diweithdra Tymor Byr* (STU). Ar ôl ei gymeradwyo, bydd y prosiect yn ategu'r llinynnau cefnogaeth presennol dan frand datblygol Abertawe'n Gweithio.

- Gwnaed gwaith hefyd i ddatblygu System Gwybodaeth Reoli gan adeiladu ar gronfa ddata gyfranogwyr Gweithffyrdd+ er mwyn sicrhau bod un system safonedig sy'n nodi ac yn olrhain cyfranogwyr trwy'r prosiectau amrywiol. Bydd y system yn creu data meintiol ac ansoddol am ddarpariaeth cyflogadwyedd i helpu i lywio cefnogaeth, anghenion cleientiaid a thueddiadau yn y dyfodol.

Trechu Tlodi drwy'r Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth

- Mae'r cyngor wedi cynnig rhaglenni dysgu ar y cyd ag ysgolion a gwaith allgyrsiol rhad/am ddim sy'n canolbwyntio ar y teulu mewn cyfleusterau cymunedol ac mewn lleoliadau celfyddydau ac amgueddfeydd. Roedd effaith yr ymgyrch i fod yn Ddinas Diwylliant yn sylweddol ar gyfer proffil lleoliadau celfyddydau ac orielau a gynhelir gan y cyngor, yn ogystal â'r sector annibynnol. Mae ffocws ar adeiladu'r gallu i ddatblygu'r celfyddydau yn y cyngor wedi arwain at fuddion sylweddol, gan gynnwys cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru am swydd dwy flynedd i gyflwyno'r rhaglen 'Cyfuno'. Dyma raglen sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi trwy ddiwylliant gan hybu sgiliau, hyder a hunan-barch; mae sawl comisiwn bach sy'n gweithio gyda'r mwyaf difreintiedig yn mynd rhagddynt. Mae gwaith y cyngor ar y celfyddydau a diwylliant mewn partneriaeth â'r prifysgolion wedi cynnwys rhoi ffocws ar sgiliau, gwaith cymunedol a chynnig cyfleoedd prentisiaethau yn y sector creadigol a diwylliannol.

- Mae llyfrgelloedd yn cefnogi dysgu cyn oed ysgol trwy weithgareddau Amser Rhigwm, sesiynau dysgu corfforol Traed Hapus a gweithgareddau celf a chrefft. Mae Llyfrgell Clydach wedi sefydlu cysylltiadau â chynllun gwirfoddoli Darganfod Prifysgol Abertawe ac mae grŵp crefftau'r llyfrgell wedi croesawu myfyrwyr, gan eu haddysgu sut i wau a gwneud gwaith crosio, ac yn gyfnewid am hyn, cafwyd hyfforddiant ar sut i ddefnyddio apiau celf a chrefft ar-lein. Rydym wedi cynnal digwyddiadau am ddim neu ddigwyddiadau arbennig yn ystod 17/18 megis y Theatr Awyr Agored, Gwledd y Gaeaf ar y Glannau, arddangosfa tân gwyllt flynyddol a digwyddiad Man Engine gyda'r hwyr. Lle nad oedd y digwyddiadau hyn am ddim, cynigiwyd prisiau gostyngedig Pasbort i Hamdden.

Digwyddiadau Amgylcheddol Rhad neu Am Ddim

- Cydweithiodd y cyngor ag amrywiaeth eang o wasanaethau mewnol a sefydliadau allanol i barhau i ddarparu gweithgareddau dysgu awyr agored rhad neu am ddim a rhaglen Digwyddiadau Amgylcheddol. Mae'r rhaglen yn ceisio hyrwyddo gwell ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o'r amgylchedd naturiol a'r budd mae'n ei ddarparu o ran gwella iechyd a lles, yn ogystal â datblygu sgiliau a gwybodaeth drosglwyddadwy, e.e. trwy annog, hwyluso, trefnu a chefnogi cyfleoedd gwirfoddoli. Yn ychwanegol, lluniwyd Map Gwyrdd Mannau Gwyrdd Hygyrch a Map Gwyrdd Tyfu Cymunedol mewn cydweithrediad â Fforwm yr Amgylchedd Abertawe i annog pobl i ymddiddori yn yr amgylched a byd natur, a dysgu amdanynt. Cefnogir hyn gan weithgareddau dysgu awyr agored, e.e. Gwarchodfa Natur Leol Coed yr Esgob, lle mae 15 o ysgolion a thros 650 o blant ysgol wedi ymweld â'r warchodfa i gynnal astudiaethau maes, ac mae cyfanswm o 271 o bobl wedi bod yn rhan o raglen o 17 o ddigwyddiadau cyhoeddus a drefnwyd ac a gynhaliwyd gan y Tîm Cadwraeth Natur. Roedd y tîm hefyd wedi cyflwyno prosiect 'Ein Gŵyr', a oedd wedi galluogi disgyblion o 5 ysgol uwchradd drefol i dreulio 4 diwrnod yn archwilio ac yn dysgu am gynefinoedd arbennig a bioamrywiaeth penrhyn Gŵyr. Gydag arian gan Grant Refeniw Sengl Llywodraeth Cymru, mae cymunedau lleol wedi cael eu cefnogi i reoli a gwella'u mannau gwyrdd lleol a'u safleoedd bywyd gwyllt; er enghraifft trwy blannu coed yng Nghaeau Chwarae Pentylla yn Townhill.

Cydlyniant Cymunedol

- Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe wedi sefydlu Gweithgor Strategol i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chaethwasiaeth fodern yn effeithiol. Cyflwynwyd sesiynau Ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern yn rheolaidd drwy bartneriaeth Bae'r Gorllewin a chynhaliwyd sesiwn 'Hyfforddi'r Hyfforddwr ar Gaethwasiaeth Fodern' yn Abertawe, gyda 30 o aelodau staff amlasiantaeth yn cymryd rhan ynddi.

- Parhaodd y cyngor i gynnal fframwaith ar gyfer cyflwyno ymyriadau a chefnogaeth y rhaglen *Prevent* i unigolion diamddiffyn sydd mewn perygl o gael eu denu at eithafiaeth dreisgar a/neu ddidrais; sefydlwyd Cynllun Gweithredu Prevent 2017-20 ac mae'n cael ei weithredu.

- Datblygodd y cyngor Gynllun Gweithredu Rhanddeiliaid Troseddau Casineb Abertawe gyda phartneriaid allweddol a datblygodd gwrs e-ddysgu gorfodol am Droseddau Casineb i staff y cyngor.

- Roedd y Grŵp Mynediad at Chwarae a'r Grŵp Teuluoedd a Chwarae Lleiafrifoedd Ethnig a Du (BAME) wedi parhau i gwrdd a nodi materion allweddol o ran mynediad a chynhwysiad. Yn ychwanegol, o ganlyniad i rôl y Grŵp Teuluoedd a Chwarae BAME fel rhwydwaith chwarae trawssector mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o droseddau casineb a dealltwriaeth o gaethwasiaeth fodern, cafwyd sawl cyfle hyfforddiant gyda phresenoldeb da gan bartneriaid mewnol ac allanol. Roedd arddangosfa Opera Abertawe yn Amgueddfa Abertawe'n cynnwys gwaith gyda llawer o grwpiau BAME gan gynnwys y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd a'r Ganolfan Gymunedol Tsieineaidd.

- Mae Llyfrgell Ganolog Abertawe wedi cynnal sioe ffilm LGBT lwyddiannus, "Britain on Film: LGBT Britain in 2018". Cyd-darodd hon â Mis Hanes LGBT. Cefnogwyd hyn gan sgwrs ac arddangosfa yn y Ganolfan Ddinesig am hanes materion LGBT yn Abertawe.

- Mae'r rhaglen Cyfuno a ddechreuodd ym mis Medi 2017 wedi bod yn ffordd gost-effeithiol o ddod â darparwyr y cyngor a'r trydydd sector ynghyd i greu mwy o gyfleoedd diwylliannol i gymunedau mwy amrywiol. Mae sesiynau gweithgareddau diwylliannol rheolaidd ac am ddim bellach yn cael eu darparu i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr, pobl NEET a phobl hŷn. Mae cynllun hyfforddi ar gyfer lleoliadau, "Uchelgais Diwylliannol", bellach wedi'i sefydlu er mwyn blaenoriaethu rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ddi-waith o gymunedau lleiafrifoedd yn ein hamgueddfa ac Oriel Gelf Glynn Vivian er mwyn helpu i wneud ein gweithlu'n fwy amrywiol.

- Enillodd y cyngor achrediad 'insport' am gynhwysiad wrth ddatblygu a chyflwyno rhaglenni chwaraeon a bywyd iach megis Parklives a "Ni Ferched", gan arddangos llwyddiant y rhaglenni hyn.

5. Y gwahaniaeth y mae'r amcan lles hwn yn ei wneud – astudiaeth(au) achos

Astudiaeth Achos 1 - Canolfan Blant Golwg y Mynydd

Cyfleuster pwrpasol a agorodd ym mis Ebrill 2018 yw Canolfan Blant, Meddygfa a Fferyllfa Golwg y Mynydd. Dyluniwyd y cyfleuster i ddiwallu anghenion cymunedol rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'r prosiect arloesol yn cynnal amrywiaeth o wasanaethau iechyd a lles yn yr un lleoliad gyda mannau a rennir sy'n galluogi pobl i gyfrannu i'r eithaf drwy fabwysiadu ymagwedd integredig. Mae enghreifftiau o'r gwahanol ffyrdd y mae'r Ganolfan Blant yn cyfrannu at y nodau cenedlaethol yn cynnwys:

Cymru lewyrchus – Mae hyfforddiant hyder a sgiliau'n paratoi rhieni i gymryd rhan mewn gweithgareddau economaidd neu ddychwelyd i'r gwaith.

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – Dengys hyn trwy ddyluniad carbon isel yr adeilad a'r ymrwymiad i raglenni parchu hawliau megis CCUHP.

Cymru gydnerth – Dewiswyd y safle oherwydd y man agored o'i amgylch. Bydd hyn yn rhoi bywyd newydd i'r ardal fel y gall ddod yn ased ar gyfer y gymuned ac annog pobl i beidio â thipio'n anghyfreithlon nac ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Ar ôl ei sefydlu, mae'r ganolfan yn bwriadu

dyblygu rhaglenni a gyflwynwyd yn lleoliad yr hen ganolfan i deuluoedd, megis cefnogi rhieni i dyfu ffrwythau a llysiau.

Cymru iachach - Mae pob grŵp a gweithgaredd yn rhoi ffocws ar gefnogi iechyd a lles. Mae rhai enghreifftiau o'r grwpiau hyn yn cynnwys ymwybyddiaeth ofalgar, teuluoedd iach, dawnsio llinell ac ioga i fabanod.

Cymru sy'n fwy cyfartal – Dyma'r amwynder 21ain Ganrif o safon sy'n cynnig cyfleoedd a fydd yn helpu plant o bob cefndir i gyflawni eu potensial.

Cymru o gymunedau cydlynus – Mae'r ganolfan ddeniadol, hygyrch, fodern a chroesawgar newydd yn ceisio cysylltu cymunedau ac ehangu gorwelion.

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - Mae'r ganolfan yn annog y celfyddydau, gweithgarwch corfforol a dathlu'r Gymraeg trwy ei gweithgareddau.

Trwy ddyluniad arloesol y ganolfan i gynnal gwasanaethau arbenigol yn yr un lleoliad, gellir cynllunio'r broses o gyflwyno gwasanaethau yn unol â'r pum ffordd o weithio.

Tymor hir - Bydd cyd-leoli darpariaeth gofal sylfaenol a chanolfan deuluoedd yn chwarae rôl allweddol wrth gyflawni amcanion strategol y gwasanaethau sylfaenol a chymunedol, a'r blaenoriaethau yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc sy'n ymwneud â gwasanaethau cydlynol, integredig a di-dor i deuluoedd. Yn y tymor hir, y gobaith yw y bydd gwasanaethau'r siop dan yr unto'n galluogi teuluoedd i dorri cylchred tlodi.

Atal – Mae dilyn ymagwedd ragweithiol a chyfannol o ran cynnwys rhieni'n galluogi swyddogion i ddeall materion lleol yn iawn a gweithio'n agos gyda theuluoedd, gan wneud iddynt deimlo'n falch o'i hunaniaeth, cael rhagolygon cadarnhaol ar gyfer y dyfodol a sicrhau parch a thriniaeth gyfartal a theg. Mae cefnogi teuluoedd yn ystod y blynyddoedd cynnar yn helpu i adeiladu gwydnwch o fewn teuluoedd gan leihau'r galw am wasanaethau yn hwyrach ym mywydau pobl.

Cydweithio - Bydd gwasanaethau'r Ganolfan Blant, sydd wedi'i chyd-leoli â'r feddygfa a'r fferyllfa, yn cael eu cydlynu er mwyn manteisio i'r eithaf ar y sefyllfa werthfawr hon, e.e. cynnig grwpiau babanod/tylino babanod ar yr un diwrnod â chlinigau babanod er mwyn annog a galluogi cynnwys rhieni. Mae cyd-leoli'n caniatáu ar gyfer cydlynu â'r gwasanaethau ymyrryd yn gynnar a threchu tlodi, ac mae'n datblygu cysylltiadau cadarn â chydweithwyr iechyd.

Integreiddio - Ceir cysylltiadau clir ag amrywiaeth o gynlluniau a strategaethau megis Cynllun Dinas Iach Abertawe, Canolfannau Cymunedol, y Strategaeth Tlodi a'r Strategaeth Atal, yn ogystal â Chynllun Ardal Bae'r Gorllewin.

Cyfranogaeth - Mae cyfranogiad a chyfranogaeth defnyddwyr gwasanaeth yn thema gyffredin drwy bob agwedd ar y gwaith. Mae preswylwyr lleol a theuluoedd sy'n mynd i'r ganolfan yn cwrdd yn rheolaidd ac maent yn aml yn cymryd rhan mewn gweithgareddau megis codi arian, llunio amserlenni etc. Ymgynghorwyd â theuluoedd lleol ar bob cam o'r gwaith i adeiladau'r ganolfan newydd trwy weithdai a digwyddiadau ymgynghori ar raddfa fwy a gynhaliwyd ar sail gymunedol. Mae plant a theuluoedd sy'n mynd i'r ganolfan wedi cymryd rhan wrth ddylunio a phaentio hysbysfyrddau. Mae teuluoedd hefyd wedi gweithio gydag artist lleol i ddylunio gwaith celf sy'n cynrychioli eu teimladau a'u profiadau yn hen Ganolfan Deuluoedd Mayhill a'u gobeithion, eu dymuniadau a'u dyheadau ar gyfer Canolfan Golwg y Mynydd.

6. Sut mae'r amcan lles hwn yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol.

- *Cymru lewyrchus* - Archwilio'r syniad o greu ein menter ynni ein hunain i ddarparu ynni rhad i gartrefi, gan helpu i fynd i'r afael â biliau tanwydd domestig uchel a thlodi tanwydd.
- *Cymru gydnerth* - Adeiladu mwy o gartrefi cyngor ynni effeithlon a thai fforddiadwy er mwyn bodloni anghenion tai, lleihau biliau tanwydd, adfywio ystadau a chreu manteision amgylcheddol, economaidd a chyflogaeth eang.
- *Cymru iachach* - Darparu digwyddiadau amgylcheddol rhad neu am ddim, gan gynnwys teithiau tywys ar droed ac ar feic, ystod eang o sgyrsiau, gweithdai a chyrsiau hyfforddi am fywyd gwyllt a materion amgylcheddol, a llawer o weithgareddau i blant sy'n hybu llythrennedd amgylcheddol ac iechyd a lles gwell.
- *Cymru sy'n fwy cyfartal* - Creu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer y rheiny sy'n ddi-waith yn y tymor hir neu sy'n anweithgar yn economaidd trwy gymalau budd cymunedol yng nghontractau'r cyngor.
- *Cymru o gymunedau cydlynus* - Rhoi'r *Cynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol* ar waith er mwyn hyrwyddo cymunedau cydlynus a chynhwysol yn Abertawe.
- *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu* - Helpu cymunedau tlotaf Abertawe i drechu tlodi drwy gael mynediad at y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth er mwyn hybu sgiliau, hyder, hunan-barch a dyheadau.
- *Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang* - Mesurau sy'n cyfrannu at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd gan gynnwys mesurau effeithlonrwydd ynni o ran tai ac adeiladu tai cyngor sy'n fwy ynni effeithlon.

7. Y gwersi a ddysgwyd a'r meysydd i'w datblygu

- Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gyflawni ei amcan lles ond dysgwyd gwersi ac mae meysydd i'w datblygu ymhellach.

Strategaeth Tlodi

- Gan fod y Strategaeth Trechu Tlodi'n cael ei rhoi ar waith, byddai gwell presenoldeb ar-lein yn fuddiol i gynyddu effaith y gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â thlodi. Yn ychwanegol, mae angen cryfhau'r cysylltiadau rhwng y *Strategaeth Trechu Tlodi* a'r gwaith i wella perfformiad addysgol yn y Cyfnod Sylfaen.

Strategaeth y Blynyddoedd Cynnar

- Mae cynllun gweithredu amlasiantaeth i gynyddu gwaith y Blynyddoedd Cynnar yn dilyn digwyddiad y *1000 Diwrnod Cyntaf* yn cael ei ddatblygu i gefnogi Cynllun Lles y BGC. Bydd yn waith heriol i gynnal y cyllid presennol ar gyfer darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar ar draws yr holl asiantaethau a chynyddu'r cyllid i ddatblygu ymagweddau newydd os ydynt yn angenrheidiol ar ôl llunio'r cynllun gweithredu.

Fframwaith Datblygu Ieuenctid

- Gallai toriadau sylweddol o ran cyllid ôl-16 oed Llywodraeth Cymru danseilio cynaladwyedd ehangder y 'cynnig' i ddysgwyr drwy'r *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid* yn y dyfodol. Mae'r rhaglen *Cam Nesa*, a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, yn cael ei chyflwyno ar hyn o bryd, ac mae hyn yn cynnig cyfle arall i wella lefelau cyflwyno gwasanaethau a chydweithio i'r rheiny sydd mewn perygl o fod yn NEET. Gallai nodi anghenion cefnogaeth tymor hir helpu i wella'r rhaglen *Cynnydd* sydd ar gael i helpu pobl ifanc rhwng 11 a 24 oed sydd mewn perygl o fod yn NEET.

Diwygio Lles

- Mae cyflwyno Credyd Cynhwysol wedi arwain at gynnydd deublyg yn nifer y galwadau ffôn a'r achosion cymhleth, a bydd y toriadau o ran hawliau budd-dal yn lleihau swm yr incwm budd-dal. Mae diwygio lles yn risg, yn enwedig mewn perthynas â chaledi ariannol, cyllidebu personol a thalu costau tai. I helpu i atal digartrefedd, mae'n hanfodol cefnogi tenantiaid er mwyn cadw pobl yn eu cartrefi a sicrhau nad yw ôl-dyledion rhent yn cynyddu ac yn arwain at droi allan. Dylai staff y cyngor, yn enwedig y rheiny sy'n darparu gwasanaeth reng flaen, fod yn ymwybodol o fudd-daliadau.

- Mae'r Tîm Hawliau Lles yn y broses o ddatblygu cwrs hyfforddiant ymwybyddiaeth o fudd-daliadau ar-lein a gallai hwn gael ei gynnwys fel rhan o'r hyfforddiant gorfodol i staff. Dylai staff sy'n ymwneud â'r cyhoedd wneud mwy o ddefnydd o'r llinell gymorth hawliau lles er mwyn helpu eu cleientiaid â materion budd-dal yn y lle cyntaf, yn hytrach na'u cyfeirio i sefydliadau eraill, er mwyn atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu. Mae sicrhau hawliau i fudd-daliadau'n weithgaredd ataliol clir. Mae ymrwymiad ar draws yr awdurdod ac ymrwymiad amser gan yr holl staff, yn enwedig gweithwyr cefnogi a gweithwyr cymdeithasol, yn allweddol er mwyn cyflawni hyn. Bydd y cynnydd yn y galw'n heriol o ran darparu adnoddau ond dylai leihau'r effaith ar wasanaethau'r cyngor yn y tymor hwy.

Cartrefi cyngor ynni effeithlon

- Mae adeiladu cartrefi newydd i fodloni safonau arloesol Passivhaus yn golygu nad oes angen llawer o ynni i'w gwresogi na'u hoeri fel eu bod yn gynnes ac yn rhad i'w gwresogi. Ymysg y nodweddion maent yn eu cynnig mae drysau a ffenestri arbenigol sy'n aerglos iawn. Mae'r *Strategaeth Rhagor o Dai Cyngor* yn nodi glasbrint ar gyfer datblygu tai fforddiadwy yn y dyfodol ond bydd cyllid yn gyfyngedig yn y blynyddoedd cynnar. Mae dichonoldeb parhaus cynllun busnes 30 mlynedd y cyngor i wneud gwelliannau i stoc tai'r cyngor yn ddibynnol ar barhad y polisi presennol gan y llywodraeth ganolog.

- Cyfarfu Pwyllgor y Rhaglen Graffu i drafod yr adroddiad am yr Arfarniad Opsiynau Mwy o Gartrefi ar Safle Parc yr Helyg a gyflwynwyd yn dilyn hynny i'r Cabinet ar 21 Mehefin. Mynegodd y pwyllgor ei farn i'r Cabinet ar y penderfyniad arfaethedig. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno'r cynigion ar gyfer ail ddatblygiad ym Mharc yr Helyg sy'n cynnwys 16 o dai un/dwy ystafell wely, gan gynnwys yr arfarniad o opsiynau a'r ymagwedd argymelledig mewn perthynas â safonau dylunio. Ar ôl ystyried yr adroddiad, roedd rhai o'r materion a amlygwyd gan y pwyllgor i'r Cabinet yn cynnwys:

    - Roedd cost sylweddol y gwaith allanol ym Mharc yr Helyg oherwydd natur y safle'n peri gofid i rai aelodau.
    - Roedd y pwyllgor yn deall y rhesymau dros ddewis Safon Abertawe fel y fanyleb a ffefrir yn ogystal â'r angen i fwrw ymlaen â'r rhaglen adeiladu tai er mwyn darparu mwy o dai fforddiadwy a chefnogi ymdrechion y cyngor i leihau tlodi, ond bydd angen i'r Cabinet feddwl yn ofalus am adeiladau cartrefi ni waeth beth yw'r pris.
    - Nododd y pwyllgor y gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i'r prosiect peilot cyntaf yn Colliers Way ac y byddai Safon Abertawe'n cael ei hystyried yn arloesol ac yn fwy tebygol o ddenu cyllid gan Lywodraeth Cymru.
    - Cytunwyd y byddai adeilad wedi'i gwblhau yn null Passivhaus ar Colliers Way a Safon Abertawe ym Mharc yr Helyg yn caniatáu cymhariaeth fwy cywir o berfformiad a chostau'r ddwy fanyleb er mwyn cyfeirio penderfyniadau ynghylch adeiladu tai yn y dyfodol.
    - Tynnodd aelodau'r pwyllgor sylw at y tai newydd trawiadol a adeiladwyd yn Colliers Way, a llongyfarchwyd pawb a oedd yn rhan o'r gwaith unwaith eto. Roeddent yn arbennig o falch o

glywed am y cyfraniad a wnaed gan brentisiaid y cyngor a'r profiadau cadarnhaol a gafwyd ganddynt o fod yn rhan o'r prosiect.

Atal digartrefedd

- Bydd y Strategaeth Digartrefedd yn nodi bylchau yn y gwasanaethau digartrefedd yn Abertawe a bydd yn nodi camau i fynd i'r afael â nhw dros gyfnod o 4 blynedd. Bydd angen i'r strategaeth gael ei chwblhau cyn diwedd 2018 a bydd angen adnoddau digonol er mwyn bodloni'r holl flaenoriaethau a nodwyd. Bydd yr adnoddau a'r gefnogaeth sy'n angenrheidiol i helpu pobl i gynnal eu tenantiaethau, megis sicrhau nad yw ôl-ddyledion rhent yn cynyddu ac yn arwain at droi allan, yn parhau i gael eu pennu gan y lefelau cyllid sydd ar gael.

- Cyfarfu cynghorwyr y Gweithgor Craffu Digartrefedd i ystyried yr hyn y gall y cyngor ei wneud i fynd i'r afael â digartrefedd yn Abertawe. Roeddent yn edrych yn benodol ar weithgareddau'r cyngor i reoli digartrefedd, y sefyllfa bresennol, perfformiad gwasanaethau perthnasol a'r heriau a wynebir. Cynhaliwyd cyfarfod â nifer o bartïon â diddordeb, gan gynnwys: Noddfa Digartref Abertawe, Shelter Cymru, Crisis, Wallich Dinas Fechan, Caer Las, Zac's Place, Matthew's House, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a swyddogion perthnasol o Gyngor Abertawe. Roedd rhai o'r materion a drafodwyd ganddynt yn cynnwys, er enghraifft:

    - Y nifer cynyddol o bobl ddigartref ag anghenion cymhleth/niferus gan gynnwys iechyd meddwl, a'r ffaith nad oes gan nifer ohonynt sgiliau bywyd sylfaenol a bod angen cefnogaeth barhaus arnynt dros gyfnod hir, yn enwedig i gadw tenantiaeth.
    - Bod yna bylchau o ran darparu hosteli sy'n derbyn menywod, pobl dan 21 oed, a darpariaeth ar gyfer dinasyddion yr UE neu bobl nad oes ganddynt fynediad at arian cyhoeddus.
    - Soniwyd am y ffaith mai ychydig iawn o lety brys sydd ar gael ar gyfer cyplau digartref.
    - Mae'r trothwy ar gyfer derbyn pobl ddigartref a diamddiffyn i gael cefnogaeth y gwasanaethau cymdeithasol yn rhy uchel.
    - Dadleuodd pob asiantaeth fod angen diwygio system y Porth, sef yr un system atgyfeirio ganolog sy'n gweithredu pob llety â chymorth (hostel) yn Abertawe.
    - Troi allan o lety â chymorth oherwydd ôl-ddyledion rhent a'r angen i gefnogi cleientiaid sy'n cael cymorth i agor cyfrifon banc er mwyn gallu talu taliadau gwasanaeth.

- Cytunodd y gweithgor y dylid cwblhau gwaith craffu cyn penderfynu ar y Strategaeth Digartrefedd cyn ei chyflwyno i'r Cabinet.

Menter Ynni

- Bydd gwaith i archwilio datblygu menter ynni sy'n eiddo i'r cyngor i gynhyrchu ynni fforddiadwy yn parhau. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd y cyngor yn archwilio sut mae cynghorau eraill, megis Bryste a Nottingham, wedi cyflwyno hyn.

ARBED a Mesurau Effeithlonrwydd Ynni

- Gellir gwneud mwy o waith gydag ARBED a mesurau effeithlonrwydd ynni yng nghartrefi'r cyngor gyda chyfalaf ychwanegol gan fod diffygion ariannol yn effeithio ar gleientiaid a staff. Gall y Fargen Ddinesig ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer arloesedd a buddsoddiad. Mae gwaith amgáu, newid boeleri ac inswleiddio llofftydd oll yn cyfrannu at ddileu tlodi tanwydd, ond gellir gwella synergedd rhwng adrannau a mynediad at gyllid; nid yw'r holl denantiaid yn cefnogi gwneud y gwelliannau hyn.

Treialu 30 Awr o Ofal Plant Am Ddim

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r cyllid er mwyn gallu cyflwyno'r cynnig gofal plant yn llawn erbyn mis Ionawr 2019 i helpu rhieni gyda chostau gofal plant ac i fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith a rhwystr allweddol i gyflogaeth. Mae sicrhau bod digon o leoedd gofal plant ar gael i ateb y galw yn risg, yn yr un modd â rhieni sy'n penderfynu manteisio ar elfen gofal plant y cynnig ond nid yr oriau addysg.

Cymunedau am Waith/Gweithffyrdd+/Cymunedau am Waith a Mwy

- Mae'r rhaglen newydd Cymunedau am Waith a Mwy wedi bod ar waith yn Abertawe ers 1 Ionawr 2018. Mae'n ategu'r rhaglen Cymunedau am Waith a oedd eisoes yn bodoli. Mae cyfleoedd i sicrhau ffrydiau ariannu ychwanegol ac amgen ar gyfer darpariaeth cyflogadwyedd yn cael eu harchwilio; er enghraifft trwy raglen Cymru'n Gweithio Llywodraeth Cymru. Mae gwaith yn parhau i roi System Gwybodaeth Reoli safonedig ar waith ar gyfer yr holl brosiectau cyflogadwyedd, a dylai fod ar gael yn 2018/19.

Trechu Tlodi drwy'r Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth

- Mae cyfle i'r cyngor gael gwared ar rwystrau canfyddedig i fynediad a datblygu ffyrdd newydd o ariannu digwyddiadau diwylliannol i deuluoedd ar incwm isel, gan ddefnyddio cynifer o asedau cymunedol a chyfleusterau lleol â phosib. Fodd bynnag, mae nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol sy'n rhoi'r cyfle i ddefnyddio diwylliant, y celfyddydau a threftadaeth i fynd i'r afael â thlodi'n gyraeddadwy trwy ariannu allanol yn unig.

Darparu Digwyddiadau Amgylcheddol Rhad neu Am Ddim

- Mae cyfle i ddarparu hyfforddiant ac addysg bioamrywiaeth ehangach o fewn y cyngor. Mae hefyd botensial i gynyddu'r defnydd o Warchodfa Natur Leol Coed yr Esgob a safleoedd bywyd gwyllt eraill ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau cost isel. Fodd bynnag, mae'r staff sy'n cyflwyno'r digwyddiadau a'r gweithgareddau hyn ar gontractau dros dro ar raglen dreigl yn bennaf, sy'n ddibynnol yn llwyr ar arian grant allanol.

Cydlyniant Cymunedol

- Bydd y rhaglen 'Cyfuno' yn helpu i adeiladu ar etifeddiaeth Y Penwythnos Mwyaf gan y BBC gan gyflwyno rhaglen gerddoriaeth greadigol gyda chefnogaeth gan Hwb Cerddoriaeth Abertawe i wella sgiliau'r grŵp targed hwn. Mae'r Tîm Datblygu Chwaraeon wedi cadw cyllid yn llwyddiannus er mwyn cyflwyno rhaglen helaeth yn ein cymunedau yn ystod 2018/19, gan gynnwys parhau i glustnodi gweithgareddau ar gyfer cymunedau BAME a chymunedau sy'n cael eu tangynrychioli. Rhaglen yn benodol i ferched a menywod ifanc yw "Ni Ferched" sy'n codi dyheadau, yn meithrin sgiliau ac yn magu hyder, ac mae partneriaeth gydag EYST wedi gweld cynnydd yn flaenorol yn nifer y bobl ifanc o gymunedau BAME a chymunedau ffoaduriaid sy'n cymryd rhan mewn rhaglenni gweithredol ar gyfer iechyd a lles yn eu cymunedau.

- Bu gweithgor craffu'n edrych ar y gwaith sy'n cael ei wneud i gefnogi a hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Buont yn siarad â chynrychiolwyr o Dîm Tlodi a'i Atal y cyngor, Heddlu De Cymru a'r Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol. Daethant i'r casgliadau canlynol:

    - Gallai cynghorwyr wardiau gael eu cynnwys yn fwy wrth brif ffrydio cydlyniant cymunedol.
    - Roeddent yn pryderu am y diffyg adnoddau ar gyfer prif ffrydio cydlyniant cymunedol, a'r ansicrwydd yn eu cylch, oherwydd toriadau cyllid gan Lywodraeth Cymru.
    - Mae'r partneriaethau presennol yn gweithio'n dda.
    - Mae angen gwell cyswllt â chydlynwyr ardaloedd lleol.
    - Roeddent yn falch o glywed am yr wybodaeth sy'n chwalu chwedlau. Hoffent weld hon yn cael ei defnyddio'n ehangach, ei chyflwyno ar-lein a'i rhannu ar gyfryngau cymdeithasol.
    - Clywodd cynghorwyr am rai o'r gweithgareddau gwych sy'n cael eu cynnal; roedd cynghorwyr yn clodfori digwyddiad Pride Abertawe yn benodol.
    - Byddai gwybodaeth i lywodraethwyr ysgolion yn ddefnyddiol fel y gallant gael effaith uniongyrchol ar gydlyniant cymunedol yn ysgolion Abertawe.
    - Dylid gwneud mwy o ddefnydd o gyfryngau lleol, gan gynnwys drwy gyfathrebu corfforaethol, i rannu straeon newyddion da a gwybodaeth sy'n chwalu chwedlau yn ein cymunedau.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ariannu'r rhaglen Cydlyniant Cymunedol am flwyddyn arall. Bydd y rhaglen newydd yn canolbwyntio ar 4 amcan:

    - Datblygu rhwydwaith cydlyniant cymunedol i Gymru
    - Gweithio ar lefel leol a strategol i chwalu rhwystrau i gynhwysiad ac integreiddio ar draws grwpiau ymylol
    - Cefnogi ymfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches a'r cymunedau sy'n eu cynnal yn ystod y broses integreiddio
    - Mynd i'r afael â gwahaniaethu, gelyniaeth, tyndra ac eithafiaeth.

- Dylai'r ymagwedd newydd hon gan Lywodraeth Cymru i alluogi pob cyngor i nodi blaenoriaethau lleol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y blaenoriaethau newydd ar gyfer y Cynllun Cylfawni Cenedlaethol o ran Cydlyniant Cymunedol, a chaiff yr adroddiad terfynol ei gyhoeddi ar ddechrau'r flwyddyn nesaf.

Trawsnewid a Datblygu Cyngor y Dyfodol

1. Pam mae hwn yn amcan lles?

- Rydym am foderneiddio a thrawsnewid y cyngor trwy ein rhaglen *Abertawe Gynaliadwy: Yn Addas i'r Dyfodol* er mwyn helpu i fynd i'r afael â galw cynyddol a chyllidebau refeniw llai.
- Rydym am foderneiddio gwasanaethau drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd, lleihau gweinyddiaeth a gwasanaethau swyddfa gefn. Rydym am greu incwm ychwanegol i dalu am wasanaethau a helpu teuluoedd yn gynt fel y gallwn leihau costau yn nes ymlaen.
- Rydym am wella effeithlonrwydd a lleihau costau rheoli a chefnogi busnes ymhellach. Rydym hefyd am barhau i adolygu ein holl wasanaethau i sicrhau y cânt eu cyflwyno yn y ffordd orau bosib ac er mwyn arbed arian drwy weithio gyda phartneriaid fel yr Heddlu a gwasanaethau iechyd, neu drwy atal yr angen am fynediad at wasanaethau statudol costus lle gellir diwallu'r anghenion hynny mewn ffordd arall.
- Rydym am i'r cyhoedd chwarae eu rhan drwy gydgynhyrchu gwasanaethau a helpu i'w cynnal, fel y cynllun llwyddiannus lle mae bowlwyr yn cynnal eu lawntiau eu hunain, neu drwy ailgylchu mwy gartref.
- Rydym am i fwy o bobl fod yn rhan o fusnes y cyngor a chymryd rhan wrth wneud penderfyniadau am bethau sy'n effeithio arnyn nhw, eu teuluoedd a'u cymunedau.
- Rydym am fuddsoddi yn ein blaenoriaethau fel canol y ddinas, gwella ystafelloedd dosbarth, gwella ac ehangu'n stoc tai ynni effeithlon a chyflwyno'r Fargen Ddinesig sydd â'r potensial i greu 10,000 o swyddi.

2. Y camau rydym wedi dweud y byddem yn eu cymryd i fodloni'r amcan lles hwn

- Parhau â rhaglen foderneiddio *Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol* er mwyn trawsnewid gwasanaethau, darparu gwell canlyniadau i breswylwyr a chyflawni cynaladwyedd ariannol.
- Cefnogi a hyfforddi gweithlu'r cyngor i gyflwyno gwasanaethau wedi'u trawsnewid fel bod gennym y bobl iawn â'r sgiliau iawn, sydd â'r llwybr datblygu a'r gwobrau priodol, a'n bod yn gweithio mewn ffyrdd sy'n rhoi'r canlyniadau mwyaf cynaliadwy i breswylwyr.
- Gweithio gydag eraill i gynyddu gallu a hyrwyddo gweithredu yn y gymuned er mwyn galluogi cymunedau i gynnal gwasanaethau a rheol asedau.
- Gweithio i sicrhau yr ymgysylltir yn fwy effeithiol a phenodol â'r trydydd sector er mwyn cyflawni blaenoriaethau a chanlyniadau a rennir y cyngor.
- Annog mwy o gymunedau i fod yn berchen ar barciau a gweithio gyda sefydliadau 'cyfeillion parciau' i sicrhau cynaladwyedd a rheolaeth tymor hir parciau a mannau cyhoeddus.
- Parhau i foderneiddio cynnwys y cyhoedd ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r cyngor drwy amserau cyfarfodydd mwy hygyrch, darlledu dros y we neu'n electronig ac e-ddeisebau.
- Parhau i gryfhau'r gwasanaeth Cymraeg a'r gwasanaethau iaith a gynigir yn gyffredinol gan y cyngor drwy ddarparu hyfforddiant iaith sylfaenol ar gyfer staff rheng flaen.
- Sicrhau bod cyllidebau cymunedol ar gael fel y gall pobl leol benderfynu, gyda'i cynrychiolwyr, beth yw eu blaenoriaethau lleol.
- Darparu'r cyfle i ddinasyddion lleol ddylanwadu ar sut caiff polisïau eu llunio a gwasanaethau eu datblygu drwy ddatblygu strategaeth cyd-gynhyrchu

3. Mesur llwyddiant

- Mae gan y cyngor wasanaethau sy'n gynaliadwy ac yn addas i'r dyfodol. Mae'r cyngor yn gynaliadwy'n ariannol ac mae ganddo weithlu sy'n medru cyflwyno gwasanaethau ar eu newydd wedd, gan gynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae pobl yn cymryd rhan yn fwy wrth wneud

penderfyniadau'r cyngor, wrth benderfynu ar flaenoriaethau lleol ac wrth gydgynhyrchu a helpu i gynnal gwasanaethau a rheoli asedau.

4. Gwneud cynnydd tuag at y camau i fodloni'r amcan lles hwn – yr hyn sydd wedi gweithio

Abertawe Gynaliadwy

- Rydym yn parhau i gyflwyno'n rhaglen drawsnewid - *Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol.* Cynhaliwyd cyfanswm o 17 o adolygiadau comisiynu meysydd gwasanaeth a chwblhawyd 15 ohonynt. Mae'r adolygiadau'n archwilio sut mae'r cyngor yn darparu gwasanaethau ar hyn o bryd ac yn gwerthuso ai'r modelau presennol o ddarpariaeth yw'r rhai mwyaf effeithiol ac a ydynt yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae'r rhan fwyaf o ganfyddiadau'r adolygiadau comisiynu meysydd gwasanaeth yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys datblygu modelau darpariaeth newydd, creu mwy o incwm a masnacheiddio, trawsnewid mewnol, cyfleoedd tendro ar gyfer y sector preifat, gwerthu asedau a lefelau uwch o gynhwysiad cymunedol a chamau gweithredu.

- Yn dilyn yr adolygiadau comisiynu o wasanaethau penodol, mae rhaglen *Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol* hefyd wedi dechrau'r broses o adolygiadau trawsbynciol sy'n cynnwys mwy nag un gwasanaeth neu adran megis cludiant a gwasanaethau yn y gymuned. Mae'r cyngor wedi arbed £60 miliwn trwy amrywiaeth o fesurau, gan gynnwys yr adolygiadau comisiynu.

- Dros y 18 mis diwethaf, rhoddwyd ffocws mawr ar ddarparu prosiectau blaenoriaeth uchel mewn perthynas â TGCh a Digidol yn Gyntaf. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwelliannau i'r wefan allanol er mwyn rhoi mynediad 24 awr at wasanaethau'r cyngor fel y gall dinasyddion wneud busnes gyda ni ar adeg ac mewn lle sy'n gyfleus iddyn nhw. Hefyd, datblygwyd gwefan sy'n fwy hwylus i'w defnyddio, sy'n canolbwyntio ar dasgau ac sy'n ymatebol ar ffonau symudol a thabledi. Mae gwaith cynllunio'n mynd rhagddo i ddatblygu hunaniaeth ddigidol unigol i ddinasyddion, ymwelwyr a busnesau.

- Mae gwelliannau i offer digidol (e.e. Skype for Business, Office 365 ac Office 2016) hefyd wedi galluogi ar gyfer gweithio callach a gweithio ystwyth. Rydym wedi cynyddu'r ddarpariaeth hunanwasanaeth ac mae gweithwyr ac aelodau bellach yn gallu gwneud mwy ar-lein, megis: cyflwyno cais am brawf llygaid, cyflwyno cais am wyliau blynyddol a hawlenni parcio, llunio gwerthusiadau ar-lein, defnyddio dangosfyrddau perfformiad a chyflwyno treuliau.

- Mae'r gwasanaeth digidol hefyd yn darparu prosiectau gwella a chynigion ar gyfer newid sy'n seiliedig ar wasanaethau lle mai technoleg yw'r galluogwr, megis: System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru Gyfan (WCCIS) sy'n integreiddio gofal cymdeithasol ac iechyd ar sail defnyddwyr gwasanaeth/cleifion; Hwb i ysgolion; ac ysgolion yr 21ain ganrif, sef rhaglen buddsoddi mewn isadeiledd gan Lywodraeth Cymru a gynhelir ochr yn ochr â rhaglen AoS2020 (Addysg o Safon) Abertawe.

Gweithlu

- Rydym wedi datblygu Strategaeth Datblygi Sefydliadol gyda'r cynnig o'i rhoi ar waith yn raddol dros bedair blynedd er mwyn sicrhau bod gan weithlu'r cyngor y sgiliau y mae eu hangen ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwaith wedi'i danategu gan egwyddorion 'gweision cyhoeddus yr 21ain ganrif' a 'chynghorydd yr 21ain ganrif' sy'n datblygu sgiliau ac ymagweddau pobl ar y cyd â strategaeth a diwylliant sefydliadol y cyngor ar gyfer y dyfodol.

- Mae'r Strategaeth Gweithio Ystwyth wedi galluogi ffyrdd newydd o weithio ac mae cau swyddfeydd ar wahân yn sgîl hynny wedi arwain at arbedion refeniw gwerth dros £1 filiwn y flwyddyn a £3 miliwn mewn derbyniadau cyfalaf. Mae'r cyngor bellach yn adolygu ffyrdd newydd o ddefnyddio'r lle sydd ar gael mewn adeiladau cyhoeddus er mwyn lleihau gweithio heb gwmni, gwella cydweithio a gweithio ystwyth, yn ogystal ag arbed arian a chreu incwm. Mae 2,000 - 3,000 metr sgwâr o le swyddfa wedi cael ei ryddhau yn y Ganolfan Ddinesig i greu mwy o gyfleoedd incwm. Mae gweithio hyblyg wedi lleihau'r angen i staff deithio at ddibenion busnes a'r costau cysylltiedig. Mae cyflwyno technolegau newydd wedi galluogi mwy o staff i weithio o bell, gan gynnwys o'r cartref.

- Yn 2017/18 bu cynnydd yn lefelau salwch staff o'u cymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru wrth i berfformiad ostwng o'r ail chwartel (y 6ed safle yng Nghymru) i'r trydydd chwartel (y 13eg safle yng Nghymru). Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar reoli absenoldeb er mwyn mynd i'r afael â lefelau salwch a chynyddu cynhyrchiant. Mae mwy o brosiectau i foderneiddio'r gweithlu'n mynd rhagddynt, megis adolygu contractau sero awr. Er nad oes gan y cyngor unrhyw weithwyr ar gontractau sero awr, mae'n ystyried ei ymagwedd at weithio hyblyg yn sgîl newidiadau i batrymau gwaith, e.e. gweithio ystwyth. Yn yr un modd, mae'r cyngor yn adolygu'r mathau o gontractau a ddefnyddir gan ei gyflenwyr.

Gweithredu yn y Gymuned a Gallu/Perchnogaeth a Chyfeillion Parciau.

- Rydym yn parhau i weithio i alluogi cymunedau i gynnal gwasanaethau a rheoli asedau. Yn sgîl archwiliad o adeiladau ac asedau cymunedol, trosglwyddwyd 4 safle o'r cyngor i'r gymuned yn llwyddiannus. Mae'r safleoedd hyn yn cynnwys Forge Fach a Neuadd Graigfelen yng Nghlydach, y Neuadd Fowls Dan Do yng Nglandŵr a thoiledau Southgate. Mae 41 o asedau eraill wrthi'n cael eu hystyried ar gyfer trosglwyddiad i'r gymuned ac mae 7 ohonynt yn y broses o gael eu trosglwyddo'n gyfreithiol ar hyn o bryd. Yn ychwanegol, cymeradwywyd cynnig i drosglwyddo 14 o safleoedd rhandir i ddeiliaid presennol y tir.

- Rydym yn cefnogi mwy o gymunedau i fod yn berchen ar barciau ac rydym yn gweithio gyda sefydliadau 'Cyfeillion Parciau' i sicrhau cynaladwyedd a rheolaeth tymor hir parciau a mannau cyhoeddus. Mae twf Cyfeillion Parciau wedi bod yn llwyddiannus iawn; mae grŵp Cyfeillion Parciau bellach wedi'i sefydlu, neu yn y broses o gael ei sefydlu, ym mhob parc ac mewn sawl man agored. Mae'r grwpiau hyn yn amhrisiadwy o ran helpu'r gymuned leol i ddefnyddio, hyrwyddo neu ddatblygu parciau a mannau agored, galluogi'r gymuned ehangach i gael mynediad iddynt, a chadw ein mannau gwyrdd arobryn a statws y Faner Werdd rhai ohonynt; cyflwynwyd cyfanswm o 6 chais am y Faner Werdd ar gyfer 2018. Mae arfer gorau'n cael ei hyrwyddo'n barhaus drwy grwpiau arfer gorau, gan gynnwys y Gymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus (APSE), a chyfarfodydd rheolaidd â grwpiau cyfeillion.

- Mae pob cae awyr agored wedi bod yn destun cytundeb hunanreolaeth newydd â chlybiau a grwpiau chwaraeon lleol a gweithredir y rhain yn effeithiol. Mae Gweithredu yn y Gymuned wedi datblygu fel elfen o'r gefnogaeth datblygu cymunedau a ddarperir gan y Gwasanaethau Diwylliannol, gan gynnwys gweithredu'r holl ganolfannau a phafiliynau cymunedol, a rhoddir cyngor ar sefydlu cynlluniau busnes a llywodraethu ar gyfer ceisiadau trosglwyddo asedau, lle y bo'n briodol.

Y Trydydd Sector

- Rydym yn parhau i weithio gyda'r trydydd sector i sicrhau yr ymgysylltir yn fwy effeithiol a phenodol ag ef i gyflawni blaenoriaethau a chanlyniadau a rennir. Gan weithio ar y cyd â'r trydydd sector, cynhaliom nifer o ddigwyddiadau yn ystod 2017-2018 er mwyn adolygu compact y trydydd sector (cytundeb sy'n amlinellu ffyrdd cydweithredol o weithio). Mae'r trydydd sector yn bartner a ac yn ddarparwr allweddol o ran gwasanaethau lleol ac mae'n chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu a chydgynhyrchu yn yr ardal leol. Mae gennym Swyddog Datblygu Cydgynhyrchiol yn y trydydd sector sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth, gwybodaeth a chefnogaeth ynghylch cydgynhyrchu i'r cyngor, partneriaid allweddol a phreswylwyr lleol. Rydym yn adeiladu ar yr ymagwedd gydgynhyrchiol a ddefnyddir i sicrhau taliadau uniongyrchol ac i weithio gyda gofalwyr sy'n rhieni, gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Corfforol a gwasanaethau eraill y cyngor. Rydym yn datblygu Strategaeth Cydgynhyrchu Corfforaethol gan ddysgu o'r cynlluniau peilot a gynhaliwyd eisoes yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a'i hehangu i wasanaethau eraill ar draws y cyngor.

Cynnwys y Cyhoedd wrth Wneud Penderfyniadau

- Rydym yn gweithio i foderneiddio cynnwys y cyhoedd ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r cyngor drwy amserau cyfarfodydd hygyrch, darlledu dros y we ac e-ddeisebau. Cymeradwywyd contract darlledu dros y we yn ddiweddar; mae gwaith yn parhau a chaiff darlledu dros y we ei gyflwyno unwaith y bydd yn barod. Treialwyd opsiynau ar gyfer e-bleidleisio ac mae gwaith i ddatblygu proses ar gyfer e-ddeisebau'n parhau.

Y Gymraeg

- Rydym yn parhau i gryfhau'r gwasanaethau Cymraeg ac ieithoedd i staff. Gan weithio mewn partneriaeth â'r rhaglen 'Cymraeg Gwaith', rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau sy'n cynnwys dosbarthiadau yn yr ystafell ddosbarth, sesiynau rhagflas, cyfleoedd anffurfiol i staff allu ymarfer defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, cyrsiau ar-lein a chyfeirio staff i gyfleoedd dysgu yn y gymuned. Yn ystod 2017-18, nodwyd bod gan 36.4% o staff sgiliau Cymraeg, sy'n gynnydd o 6.5% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O ganlyniad i'n haelodaeth o bartneriaeth Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru (WITS), rydym hefyd yn gallu darparu ar gyfer dehongli a chyfieithu ieithoedd eraill - Arabeg, Pwyleg, Cwrdeg (Sorani), Bengaleg a Rwmaneg oedd y 5 iaith bennaf y gofynnwyd amdanynt yn ystod 2017-18.

Cyllidebau Cymunedol

- Rydym yn parhau i sicrhau bod cyllidebau cymunedol ar gael fel y gall pobl leol a'u cynrychiolwyr benderfynu ar flaenoriaethau cymunedol. Adolygwyd polisi cyllidebau cymunedol y cynghorwyr ac mae bellach wedi'i ddylunio i gefnogi'r mesurau lleol sy'n flaenoriaeth i gynghorwyr unigol a'u cymuned leol ond nid ydynt yn cael eu hariannu gan gyllidebau eraill y cyngor. Defnyddiwyd yr arian i: ddechrau a chefnogi prosiectau cymunedol er mwyn gwella iechyd a lles; gwella tir a/neu hawliau tramwy cyhoeddus sy'n eiddo i'r cyngor; a gwella gwasanaethau, cyfleusterau a diogelwch cymunedol. Mae mwy o waith yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd i symleiddio'r broses a gwella cyfathrebu am y cynllun.

Cydgynhyrchu

- Rydym yn parhau i adeiladu ar ein proses cynnwys ac ymgynghori er mwyn sicrhau bod pobl leol yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. Roedd yr ymgynghoriad ar gyllideb y cyngor yn

cynnwys holiaduron ar-lein, gweithdai a digwyddiadau yn y gymuned a chasglu sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol. Derbyniwyd dros 1,000 o ymatebion gan unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau. Rydym hefyd wedi ymgynghori ag amrywiaeth o randdeiliaid yn ystod ein hadolygiadau comisiynu ac wrth lunio'n Cynllun Corfforaethol ac amrywiaeth o strategaethau a chynlluniau corfforaethol a phartneriaethau eraill. Mae gwaith cydgynhyrchu'n cael ei wneud i sicrhau bod cymunedau'n cael eu cynnwys yn y camau cyntaf o wneud penderfyniadau.

- Rydym yn datblygu Strategaeth Cydgynhyrchu a fydd yn cael ei threialu gyda phrosiect trawsbynciol 'Gwasanaethau yn y Gymuned' i sicrhau y gall preswylwyr, busnesau a rhanddeiliaid pwysig eraill fod yn rhan o'r gwaith i lywio gwasanaethau cymunedol yn y dyfodol. Mae'r prosiect yn cynnwys 5 ardal beilot ar gyfer datblygu gwasanaethau mewn canolfannau cymunedol (rhithiol a ffisegol) sy'n darparu ymagwedd gynhwysol ac integredig lle bynnag y bo modd. Cynhaliwyd cynlluniau a gweithdai amrywiol gydag aelodau, a chynhaliwyd gweithdai i wasanaethau mewnol, allanol a phartner ar ddechrau mis Ionawr 2018.

5. Y gwahaniaeth y mae'r amcan lles hwn yn ei wneud – astudiaeth(au) achos.

Astudiaeth Achos 1: Gwasanaethau yn y Gymuned

- Mae Gwasanaethau yn y Gymuned yn brosiect sylweddol o fewn ymagwedd thematig y cyngor at drawsnewid trawsbynciol. Mae'n bwriadu sefydlu canolfannau cymunedol ar draws 5 ardal beilot yn Abertawe trwy cyd-leoli ac integreiddio nifer o wasanaethau'r cyngor a gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau eraill ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Yn bwysig, mae'n ceisio cyd-ddylunio a chydgynhyrchu'r prosiect ochr yn ochr â phreswylwyr y 5 ardal beilot hyn. Er bod gan y cyngor ymrwymiadau arbedion refeniw sylweddol yn y tymor canolig, mae'r ymagwedd yn rhoi cyfle i ailystyried sut gallwn gyflwyno gwasanaethau mewn ffyrdd gwell. Mae ailgynllunio gwasanaethau yn unol ag egwyddorion sy'n ategu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant wedi arwain at botensial sylweddol i wneud mwy o gyfraniad at y nodau llesiant cenedlaethol.

- Er bod y prosiect yn newydd o hyd, cafwyd nifer o fuddion eisoes. Er enghraifft, mae wedi galluogi datblygu cysylltiadau agosach â phartneriaid iechyd sy'n darparu gwell mynediad at wybodaeth er mwyn cefnogi lles corfforol a meddyliol. Mae cynlluniau blaengar wrthi'n cael eu datblygu i gefnogi rhagnodi cymdeithasol fel rhan o rwydwaith clwstwr meddygon teulu lleol. Mae'r prosiect yn gweithredu fel canolfan i gefnogi pobl trwy fynd i'r afael â thlodi a digartrefedd trwy gysylltu â rhaglenni cyflogadwyedd, addysg a hyfforddiant, cyngor ar fudd-daliadau lles a chyngor ar ddyled ac arian. Mae hefyd yn alluogwr ar gyfer amrywiaeth o brosiectau allgymorth a ddarperir drwy weithio mewn partneriaeth. Mae'r prosiect hefyd yn cefnogi rhyngweithio cymdeithasol ymhlith y boblogaeth hŷn fel galluogwr ar gyfer amrywiaeth o brosiectau allgymorth a ddarperir drwy weithio mewn partneriaeth, gan hyrwyddo mynd i'r ganolfan fel lleoliad "cwrdd" i helpu grwpiau hunanddibynnol a chymunedol i ffynnu.

- Mae llyfrgelloedd yn annog sefydlu grwpiau crefft y mae'n hawdd cael mynediad atynt drwy ddarparu lleoedd addas mewn lleoedd hygyrch. Mae datblygiad diweddar wedi gweld twf yn nifer y corau sy'n defnyddio llyfrgelloedd yn llwyddiannus i gefnogi iechyd a lles drwy gerddoriaeth a chaneuon. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gynnal nifer o fentrau dysgu oedolion, Blynyddoedd Cynnar, ar ôl yr ysgol a chynhwysiad digidol ac mae'n parhau i gefnogi blaenoriaethau cyffredinol y cyngor trwy gynnig gwasanaethau yn y gymuned.

Astudiaeth Achos 2: Gweithio Ystwyth

- Treialwyd ac agorwyd swyddfa gweithio ystwyth gyntaf y cyngor a adeiladwyd at y diben ym mis Ebrill 2017. Dyluniwyd yr ardal waith newydd gan ddefnyddio swyddfeydd presennol a chafodd ei hailwampio gan ailgylchu dodrefn a charpedi presennol y cyngor i leihau costau. Roedd y cynllun peilot cychwynnol yn cynnwys oddeutu 100 aelod o staff a dyluniwyd y swyddfa yn ôl cymhareb 7 desg i 10 aelod o staff. Roedd staff hefyd wedi derbyn gliniaduron a thechnoleg newydd er mwyn rhoi hyblygrwydd iddynt weithio oddi ar y safle a heb orfod bod yn y swyddfa. Nod y prosiect oedd rhyddhau lle swyddfa a lleihau costau, gan greu incwm o bosib trwy osod eiddo i bartneriaid a darparu gwell cyfleoedd i weithio ar y cyd. Cwblhawyd cam 2 y prosiect gweithio ystwyth ym mis Mehefin 2017 ac roedd yn cynnwys ailddatblygu adeiladau cyfagos a chynnwys 100 o weithwyr ychwanegol. O ganlyniad i gam 2 y rhaglen gweithio ystwyth, gadawyd y rhan fwyaf o drydydd llawr y Ganolfan Ddinesig gan alluogi'r cyngor i ystyried isosod y trydydd llawr i greu incwm.

- Cwblhawyd cam 3 y rhaglen gweithio ystwyth ym mis Tachwedd 2017. Roedd cam 3 yn cynnwys 120 o weithwyr ychwanegol o'r Adran Gyfreithiol, yr Adran Gyllid a Rhaglen Bae'r Gorllewin. Roedd adeiladau ychwanegol hefyd yn rhan o gam 3 a chyflwynwyd parthau i'r ardal gweithio ystwyth wrth i'r ardal ehangu er mwyn galluogi pobl i ddod o hyd i dimau yn yr ardal agored fawr.

- Fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac oherwydd Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol y cyngor, rydym yn ymweld â chwmnïau a all ailddefnyddio ac ailgylchu o leiaf 80% o'n dodrefn presennol. Dyma ymagwedd newydd ac arloesol at brynu dodrefn; bydd yn hyrwyddo egwyddorion cynaliadwy, yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd, yn lleihau ein hôl troed carbon ac yn cyfrannu at ddatblygu'r economi leol yn gymdeithasol ac yn economaidd.

- Enillodd y Rhaglen Ystwyth wobr genedlaethol am arloesedd yn y sector cyhoeddus gan y corff proffesiynol Aces - *the Association of Chief Estates Surveyors and Property Managers in the Public Sector* - ym mis Rhagfyr 2017. Ym mis Ionawr 2018, llofnododd Prifysgol Abertawe brydles ar gyfer trydydd llawr y Ganolfan Ddinesig, sy'n ffynhonnell bwysig o incwm i'r cyngor.

6. Sut mae'r amcan lles hwn yn cyfrannu at gyflawni'r holl nodau llesiant cenedlaethol.

- *Cymru lewyrchus* - Cefnogi a hyfforddi gweithlu'r cyngor i gyflwyno gwasanaethau wedi'u trawsnewid sy'n darparu'r canlyniadau mwyaf cynaliadwy i breswylwyr.
- *Cymru gydnerth* - Parhau â rhaglen foderneiddio'r cyngor, *Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol*, er mwyn trawsnewid gwasanaethau, cyflwyno gwell canlyniadau i breswylwyr a chyflawni cynaladwyedd ariannol wrth leihau ein hôl troed carbon.
- *Cymru iachach* - Annog mwy o gymunedau i fod yn berchen ar barciau a gweithio gyda sefydliadau 'cyfeillion parciau' i sicrhau cynaladwyedd a rheolaeth parciau a mannau cyhoeddus yn y tymor hir.
- *Cymru sy'n fwy cyfartal* - Darparu'r cyfle i ddinasyddion lleol ddylanwadu ar sut caiff polisïau eu llunio a gwasanaethau eu datblygu drwy ddatblygu strategaeth cydgynhyrchu.
- *Cymru o gymunedau cydlynus* - Sicrhau bod cyllidebau cymunedol ar gael fel y gall pobl leol benderfynu, gyda'i cynrychiolwyr, beth yw eu blaenoriaethau lleol.
- *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu* - Parhau i gryfhau'r gwasanaethau Cymraeg a'r gwasanaethau ieithoedd a gynigir yn gyffredinol gan y cyngor drwy ddarparu hyfforddiant iaith sylfaenol i staff rheng flaen.
- *Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang* - Parhau i foderneiddio cynnwys y cyhoedd ym mhrosesau democrataidd a gwneud penderfyniadau'r cyngor drwy amserau cyfarfodydd hygyrch, darlledu dros y we, pleidleisio electronig ac e-ddeisebau.

7. Y gwersi a ddysgwyd a’r meysydd i'w datblygu

- Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth gyflawni ei amcan lles ond dysgwyd gwersi ac mae meysydd i'w datblygu ymhellach.

Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol

- Mae llwyddiant rhaglen drawsnewid y cyngor, *Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol,* yn hollbwysig er mwyn i'r cyngor allu ymateb yn addas i galedi parhaus, pwysau demograffig, galw cynyddol a disgwyliadau cyhoeddus sy'n newid. Caiff y rhaglen ei hadolygu a'i haddasu'n flynyddol o ganlyniad i gwblhau prosiectau yn ôl y disgwyl, newidiadau yn yr amgylchedd gan gynnwys deddfwriaeth newydd, neu bwysau neu heriau newydd sy'n gofyn am ymagwedd arloesol. Mae'n cymryd amser i drawsnewid arwain at ganlyniadau a buddion sylweddol - wrth symud ymlaen, mae'r cyngor yn edrych ar ffyrdd o gynyddu cyflymder a graddfa arloesedd a newid.

- Yn 2017/18, roedd y cyngor yn canolbwyntio ar ddatblygu strategaeth gwneud penderfyniadau pedair blynedd ar gyfer y gyllideb a’r cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Roedd hyn yn cynnwys creu llai o arbedion generig gyda chyfrifoldeb am glustnodi opsiynau arbed arian i feysydd penodol. Mae'r cyfluniad hwn o flaenoriaethau, trawsnewidiad ac arbedion/CATC bellach yn cael ei gyflwyno. Er mwyn gwella gwaith paratoi, lluniwyd cynlluniau i gyflwyno’r cylch, cynllunio cyllideb a’r 'wythnos cynllunio cyllideb' yn gynt yn ystod haf 2018. Mae cynnydd o ran cyflawni arbedion cyllidebol bellach yn cael ei olrhain ac adroddir amdano'n fisol er mwyn darparu rhybudd ymlaen llaw ac i amlygu risgiau i gyflawni arbedion a gynlluniwyd.

- Mae adolygiad o strategaeth a rhaglen Abertawe Gynaliadwy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, ac mae'n cynnwys fframwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel ffordd o fynd i'r afael â bylchau yng nghyllideb y flwyddyn ddiwethaf wrth sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy. Bydd hyn yn cynnwys ailystyried opsiynau blaenorol o’r adolygiadau comisiynu yn ogystal â chydgynhyrchu, datblygu'r gweithlu, meysydd newydd ar gyfer adolygiadau sy'n seiliedig ar gyllideb, adolygiadau Meddwl trwy Systemau, adolygu cyfleoedd i rannu gwasanaethau â phartneriaid ac adeiladu gallu digidol, ymysg pethau eraill. Mae'r cyngor wedi dechrau defnyddio pecyn cymorth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar ddechrau pob proses o newid gwasanaeth/prosiect. Mae hyn wedi gweithio'n dda a chaiff ei gynnwys ymhellach yn y flwyddyn sydd i ddod.

- Adolygiadau Comisiynu'r cyngor yw'r prif ffyrdd o gyflwyno newid trawsffurfiol drwy’r rhaglen Abertawe Gynaliadwy. Cyflwynwyd rhai cynigion ar gyfer gwella gan Swyddfa Archwilio Cymru yn sgîl adolygiad o'r trefniadau llywodraethu mewn perthynas ag adolygiadau comisiynu'r cyngor: yn gyntaf, i wella mynediad cyhoeddus at wybodaeth am weithgarwch Adolygiadau Comisiynu'r cyngor; ac, yn ail, i nodi'r effaith fwriadedig i ddefnyddwyr gwasanaeth a'r ffyrdd y caiff yr effaith honno ei gwerthuso yn y dyfodol. Mewn ymateb, mae'r cyngor wedi datblygu gwe-dudalennau ac wedi cofnodi casgliad o straeon llwyddiant canlyniadau a fydd ar gael ar y gwe-dudalennau. Yn ychwanegol, mae effaith pob Adolygiad Comisiynu'n cael ei chynnwys yn ystod ei gynllun gweithredu 3 blynedd. Bydd y prosiect cydgynhyrchu corfforaethol yn darparu gwybodaeth sy'n fwy ystyrlon i breswylwyr a chymunedau am effaith a chanlyniadau.

Gweithlu

- Perygl gostyngiadau cyllidebol sylweddol a newid trawsffurfioll cysylltiedig yw bod lleihau nifer y staff yn effeithio ar allu'r gweithlu i gyflwyno gwaith presennol neu ychwanegol yn ogystal â'r gallu i wreiddio modelau cyflwyno newydd a ffyrdd newydd o weithio.

- Yn sgîl hyn, mae'r cyngor yn adolygu ei Strategaeth Datblygu Sefydliadol i gefnogi a hyfforddi ei weithlu i gyflwyno gwasanaethau wedi'u trawsnewid. Mae'r cyngor yn bwriadu newid ei ddiwylliant sefydliadol i gefnogi "gweithio gyda'n gilydd, gweithio'n wahanol" a chynnwys trawsnewidiad, arloesedd a dysgu sefydliadol. Yn ychwanegol, cafwyd datblygiadau pellach o ran cefnogi cynllunio'r gweithlu, gan gynnwys arweiniad newydd i ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy, e-ddysgu a gweithdai i gefnogi uwch-reolwyr.

Cydgynhyrchu

- Mae'r cyngor yn datblygu ymagwedd gydgynhyrchiol ac ymrwymiad Abertawe gyda chymorth CLlLC i ddarparu cyfleoedd i ddinasyddion gymryd rhan. Bydd cyfleoedd i adeiladu ar arfer presennol a'r hyn sy'n gweithio'n dda, ac i rannu'r wybodaeth honno a dealltwriaeth gyffredin drwy'r sefydliad. Er enghraifft, yr hyn a ddysgwyd o raglen canolfannau cymunedol trawsbynciol 'Gwasanaethau yn y Gymuned' a mentrau cydgynhyrchu eraill, megis gwaith sy'n mynd rhagddo yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion i ddefnyddio cydgynhyrchu i lywio elfennau o'u rhaglen wella a'u fframwaith arfer ac, yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ofalwyr sy'n rhieni a phlant sy'n cydgynhyrchu'r Strategaeth Anableddau Plant newydd.

- Caiff hyn ei wneud ar adeg pan fydd adnoddau staff yn ddiffygiol oherwydd gostyngiadau cyllidebol tynn. Fodd bynnag, mae yna gyfleoedd i helpu i liniaru hyn; er enghraifft drwy ddefnyddio'r Gymuned Arloesol staff i ddatblygu mecanweithiau cynnwys newydd i gefnogi perthnasoedd newydd â dinasyddion; adolygu rôl aelodau etholedig ac Aelodau Hyrwyddo wrth gydgynhyrchu, a; chynnwys grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Bydd gofyn i staff ddatblygu sgiliau a galluoedd newydd ac felly mae hyn yn amlwg yn gysylltiedig â datblygiad gweithlu'r cyngor a strategaethau datblygu sefydliadol.

Y Gymraeg

- Mae'r cyngor yn buddsoddi adnoddau mewn hyfforddi staff i ddatblygu gwell sgiliau Cymraeg. Ariannwyd y cyrsiau hyn gan y cyngor a chânt eu darparu i staff yn ystod amser gwaith. Mae'r cyngor yn cefnogi staff trwy eu rhaglen ac yn derbyn adborth yn y tymor canolig ac ar ddiwedd y tymor er mwyn pennu addasrwydd y cwrs. Rhoddir ystyriaeth i gyrsiau a chyllid yn y dyfodol yn seiliedig ar adborth gan staff.

- Fodd bynnag, mae gan y cyngor waith ar ôl i'w wneud wrth sicrhau bod Safonau'r Gymraeg, a gyflwynwyd yn ddiweddar, yn cael eu cynnwys yn ei waith beunyddiol. I'r perwyl hwn, mae'r cyngor wedi datblygu arweiniad syml i bob aelod o staff ei ddilyn, sy'n nodi 7 gwiriad Cymraeg hanfodol y mae eu hangen ar bawb er mwyn iddynt allu wneud eu swydd. Mae hyn yn ychwanegol i gyngor ac awgrymiadau sydd ar gael ar we-dudalennau staff sy'n trafod y Gymraeg, gan gynnwys ymadroddion cyffredin a thempledi cyfryngau cymdeithasol, mwy o wybodaeth am Safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i staff ac aelodau eu dilyn, a rhestr o hyrwyddwyr y Gymraeg sydd ar gael i helpu yn y cyngor .

Rhan 2: Sut rydym wedi gweithio wrth gymryd camau i gyflawni ein hamcanion lles

- Bydd y rhan hon o'r adolygiad yn nodi sut mae'r cyngor wedi gweithio wrth gwblhau'r camau i gyflawni ei amcanion lles yn unol â'r egwyddorion cynaladwyedd (5 ffordd o weithio) a nodwyd yn y Ddeddf.

Mynd i'r afael â heriau tymor hir

- *Diogelu Pobl rhag Niwed* - Mae poblogaeth sy'n heneiddio'n cynrychioli cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn arwain at gynnydd mewn clefydau a chyflyrau sy'n gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio, fel dementia. Bydd gweithio gyda phartneriaid drwy'r Strategaeth Heneiddio'n Dda, trwy ddatblygu statws Abertawe fel y ddinas gyntaf yng Nghymru sy'n ystyriol o ddementia a thrwy ddatblygu Siarter Pobl Hŷn yn helpu pobl i aros yn iach a heneiddio'n dda, ac yn helpu i leihau'r galw ar wasanaethau statudol.

- *Gwella Addysg a Sgiliau* - Mae lansiad Partneriaeth Sgiliau Abertawe yn ystod haf 2018 yn bwriadu sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu'r sgiliau a'r cymwysterau cywir ar gyfer y tymor hir, economi newydd y dyfodol a Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Datblygwyd cwricwlwm 10 mlynedd newydd ar gyfer lleoliadau ac ysgolion yng Nghymru er mwyn galluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau cywir ar gyfer y dyfodol. Bydd y cwricwlwm newydd yn rhoi pwyslais ar gymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm, gan roi sgiliau cynaliadwy sy'n addas ar gyfer y dyfodol i bobl ifanc.

- *Trawsnewid ein Heconomi a'n Hisadeiledd* - Mae twf technoleg glyfar a symudol a diwydiant uwch-dechnoleg yn debygol o barhau. Yng Nghymru, rydym ar ei hôl hi o ran y sgiliau digidol sy'n angenrheidiol ar gyfer yr economi newydd. Mae tystiolaeth bod bwlch cynhyrchedd Abertawe yn culhau, ond mae'r bwlch yn sylweddol o hyd. Mae Abertawe'n parhau i dangyflawni ei photensial fel canolfan ranbarthol. Bydd y Fargen Ddinesig yn helpu i lywio Abertawe ac economi'r rhanbarth, gan ddarparu'r newid technolegol a'r sgiliau y mae eu hangen i gyflawni heriau economaidd y dyfodol. Mae'r cyngor yn mynd i'r afael â heriau tymor hir wrth ailddatblygu canol y ddinas fel ei fod yn iachach, yn fwy gwydn ac yn addas i'r dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys: ymgorffori gofynion ar gyfer effeithlonrwydd ynni a gwastraff; perfformiad adeiladu call; ffynonellau adnewyddadwy; gwella bioamrywiaeth ac isadeiledd gwyrdd; a defnyddio deunyddiau cynaliadwy naturiol a/neu wedi'u hailgylchu.

- *Trechu Tlodi* - Mae gan Abertawe niferoedd mawr o bobl nad ydynt yn gweithio o hyd. Mae effaith andwyol yr amddifadedd hwn yn dechrau ar oed ifanc iawn ac yn cynyddu drwy gydol oes person. Mae *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid* y cyngor yn ceisio helpu i dorri'r cylch hwn drwy darparu cyfleoedd i sicrhau bod gan bobl ifanc gyfleoedd i fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant fel y gallant gyflawni eu potensial yn y dyfodol.

- *Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol* - Mae galw a disgwyliadau cynyddol ar wasanaethau cyhoeddus o hyd, ond gyda llai o arian i'w cyflwyno. Un o amcanion ein rhaglen drawsnewid - *Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol* - yw sicrhau bod gwasanaethau'r cyngor yn gynaliadwy yn y dyfodol ac yn y tymor hir. Mae'r rhaglen yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy yn y dyfodol trwy foderneiddio gwasanaethau, trwy wneud y defnydd gorau o dechnolegau digidol, drwy fasnacheiddio a chreu incwm a thrwy lywio cyngor ar gyfer y dyfodol sy'n annog gweithredu yn y gymuned a chyfranogiad wrth wneud penderfyniadau a chyflwyno gwasanaethau.

Atal problemau rhag codi neu waethygu

- *Diogelu pobl rhag niwed* - Bydd datblygu gwasanaethau ataliol yn helpu i osgoi'r angen i bobl gael mynediad at wasanaethau statudol a bydd yn helpu i leihau'r galw. Bydd datblygu Strategaeth Ataliol a gwasanaethau ataliol cysylltiedig, megis cydlynu ardaloedd lleol, a'u rhoi ar waith yn hyrwyddo annibyniaeth pobl ac yn gwella'u lles. Bydd gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o ddiogelu a rhoi trefniadau diogelu effeithiol ar waith yn atal pobl rhag bod yn agored i niwed sylweddol ac ecsbloetiaeth.

- *Gwella Addysg a Sgiliau* - Rydym wedi gweithio i ddatblygu cysylltiadau agos rhwng Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen er mwyn sicrhau bod plant yn barod i fynd i'r ysgol ac nid ydynt dan anfantais addysgol yn hwyrach yn ystod yr ysgol. Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid iechyd i sicrhau bod yr holl blant yn cael mynediad at gymorth rhan-amser yn y Cyfnod Sylfaen o'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed.

- *Trawsnewid ein Heconomi a'n Hisadeiledd* - Mae newid yn yr hinsawdd a pheryglon cysylltiedig fel llifogydd yn bygwth ein twf economaidd, ein cynhyrchedd, ein lles, ein hisadeiledd a'n hamgylchedd. Bydd gwaith y cyngor i ddarparu trafnidiaeth gynaliadwy a charbon isel, megis cerbydau trydan, ac ymdrechion i fuddsoddi yn yr Economi Werdd, megis cynlluniau effeithlonrwydd ynni gan gynnwys tai, yn cyfrannu at atal newid yn yr hinsawdd wrth helpu i gryfhau'r economi leol.

- *Trechu Tlodi* - mae rhai o agweddau niweidiol y premiwm tlodi, megis costau trafnidiaeth, tanwydd a bwyd, yn parhau i fod yn anghymesur o uchel yn Abertawe i aelwydydd incwm isel. Mae adeiladau cartrefi cyngor ynni effeithlon sy'n bodloni safonau Passivhaus, mesurau effeithlonrwydd ynni mewn tai cyngor ac archwilio creu menter ynni sy'n eiddo i'r cyngor yn enghreifftiau o ffyrdd o weithio a fydd yn helpu i leihau costau tanwydd ac atal tlodi tanwydd.

- *Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol* - Mae *Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol* yn annog yr holl staff a rhanddeiliaid i adolygu gwasanaethau newydd o safbwynt ataliaeth er mwyn helpu i atal pobl rhag gorfod troi at wasanaethau statudol. Mae Strategaeth Atal y cyngor yn ceisio hyrwyddo ymyrryd yn gynnar er mwyn cefnogi pobl sydd yn y perygl mwyaf, i newid ymddygiad ac atal yr angen am wasanaethau arbenigol drud. Rhagwelir y bydd hyn yn helpu i wneud teuluoedd a chymunedau'n fwy gwydn, yn lleihau'r galw am wasanaethau'r cyngor, yn lleihau costau ac yn cyflawni gwell canlyniadau. Byddwn yn mabwysiadu ymagwedd cyngor cyfan at reoli'r galw am wasanaethau, gan geisio gwella ein dealltwriaeth o gyswllt â chwsmeriaid a sut gellir ail-lunio gwasanaethau i ddileu, lleihau neu arallgyfeirio galw. Mae'r strategaeth hon yn ceisio gwreiddio ymyrryd yn gynnar ac atal ym musnes y cyngor a rhoi hyd yn oed mwy o ffocws ar wella lles.

Gweithio mewn partneriaeth ag eraill

- *Diogelu Pobl rhag Niwed* - Mae cam-drin domestig yn aml yn drosedd gudd nad yw'n cael ei hadrodd i'r heddlu nac unrhyw asiantaeth arall, a dyna pham mae nifer amcangyfrifedig y dioddefwyr yn llawer uwch na nifer y digwyddiadau a'r troseddau a gofnodir gan yr heddlu ac asiantaethau eraill. Mae'r cyngor yn gweithio gyda phartneriaid drwy'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau, a darparu ymatebion effeithiol, amserol ac addas i ddioddefwyr.

- *Gwella Addysg a Sgiliau* - Mae ERW yn bartneriaeth rhwng 6 awdurdod lleol, gan gynnwys cynghorau Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Powys, Ceredigion, Sir Gâr a Sir Benfro. Prif ddiben

y consortiwm hwn yw cyflwyno gwasanaeth gwella ysgolion unigol. Mae rhannu arfer da, arloesedd a syniadau wedi bod yn gadarnhaol gydag awdurdodau'n helpu ei gilydd i wella.

- *Trawsnewid ein Heconomi a'n Hisadeiledd* - Mae'r cyngor yn parhau i gefnogi Partneriaeth Bioamrywiaeth Abertawe a Fforwm yr Amgylchedd Abertawe, sy'n cyflwyno amrywiaeth eang o fentrau amgylcheddol strategol a gweithredol mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill. Mae hefyd yn gweithio gyda CNC ac eraill i gefnogi cyflawni amcan lles 'Gweithio gyda Natur' y BGC. Mae'r cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â CNC i ddatblygu Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd/Canllawiau Cynllunio Atodol ar draws y sir. Mae cydweithio wrth ddatblygu'r strategaeth hon yn galluogi'r ddau sefydliad i gyfuno.

- *Trechu Tlodi* - Mae'r cyngor yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i helpu i fynd i'r afael â thlodi, er enghraifft drwy Fforwm Partneriaeth Tlodi Abertawe. Mae prosiectau *Cynnydd* a *Cam Nesaf* yn enghreifftiau o gydweithio rhwng cynghorau Sir Benfro, Sir Gâr, Ceredigion, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phowys i ddarparu gweithgareddau cynnwys, dysgu a hyfforddiant i bobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed a rhwng 16 a 24 oed sy'n bwriadu lleihau nifer y bobl ifanc mewn perygl o ddod yn NEET.

- *Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol* - Mae Gwasanaethau yn y Gymuned yn brosiect pwysig o fewn rhaglen drawsnewid drawsbynciol y cyngor. Mae'n ceisio sefydlu ffyrdd newydd o weithio mewn cymunedau ar draws y ddinas trwy archwilio sut gellir cyd-leoli ac integreiddio gwasanaethau mewn rhyw fath o 'ganolfan gymunedol'. Mae'r prosiectau hyn yn ffordd sefydledig o ddarparu gwasanaethau yn wahanol ac yn arloesol trwy leoli sefydliadau partner ger gwasanaethau'r cyngor er budd pobl leol.

Integreiddio - Cydlynu ac Osgoi Gwrthdaro

- *Diogelu Pobl rhag Niwed* - Mae'r cyngor wedi gweithio i sicrhau bod diogelu'n 'fusnes i bawb' ac nid yw'n gyfrifoldeb y gwasanaethau gofal cymdeithasol yn unig. Er enghraifft, mae 563 o staff yng Ngwasanaethau Adeiladau Corfforaethol Abertawe wedi derbyn hyfforddiant diogelu. Fel rhan o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), mae gan Gyngor Abertawe ddyletswydd i sicrhau bod 100% o'i weithlu'n cwblhau hyfforddiant Grŵp 1 ar VAWDASV, naill ai drwy e-ddysgu neu wyneb yn wyneb i'r rheiny nad oes ganddynt fynediad at TG. Hyd yn hyn mae dros hanner y gweithlu wedi cwblhau'r hyfforddiant. Mae'n bwysig bod yr holl staff, ni waeth beth yw eu swydd, yn cael eu hyfforddi i nodi materion megis cam-drin domestig, trais rhywiol, anffurfio organau cenhedlu benywod etc., ac ymateb iddynt.

- *Gwella Addysg a Sgiliau* - Mae'r Adran Addysg yn gweithio gyda sawl partner cyflwyno allweddol ac yn cydnabod nad oes modd cyflawni cynnydd ar wahân. Trwy grwpiau ymgynghori allweddol, gan gynnwys y Bartneriaeth Gwella Ysgolion, y Bwrdd Plant a Phobl Ifanc, PACA, ERW, Coleg Gŵyr Abertawe, prifysgolion, Iechyd ac arweinwyr ysgolion, y nod yw sicrhau y cydlynir amcanion y broses gynllunio a chyflwyno a rennir. Mae lansio Partneriaeth Sgiliau Abertawe yn ceisio datblygu hyn ymhellach.

- *Trawsnewid ein Heconomi a'n Hisadeiledd* - Rhagwelir y bydd Dinas a Sir Abertawe'n gweld twf sylweddol yn y boblogaeth dros y degawd nesaf. Bydd angen tai, swyddi, isadeiledd a chyfleusterau cymunedol newydd ar y Sir er mwyn cefnogi twf economaidd a chodi safonau byw, yn ogystal â pharchu treftadaeth ddiwylliannol a naturiol y Sir. Mae'n hollbwysig bod twf yn cael ei gynllunio a'i gydlynu'n drylwyr er mwyn mwyafu budd i'r gymuned a chyflawni datblygiadau sydd er budd y sir a'i phobl. Bydd y CDLl yn galluogi cyflwyno datblygu cynaliadwy, ac yn sicrhau bod nodau llesiant

cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn gytbwys yn y broses benderfynu er mwyn sicrhau y ceir y datblygiadau cywir yn y man cywir.

- *Trechu Tlodi* - Gall gwaith yn ystod blynyddoedd cynnar bywyd plentyn helpu i gefnogi teuluoedd a lliniaru effeithiau amddifadedd ar gyfleoedd a rhagolygon bywyd yn y dyfodol. Gall darpariaeth Blynyddoedd Cynnar ar y cam cynharaf posib mewn bywyd plentyn helpu i atal yr angen am wasanaethau statudol costus, cefnogi plant i gyflawni yn yr ysgol a thorri cylch canlyniadau gwael yn y dyfodol; yn enwedig y rheiny a achosir gan brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Ar yr un pryd, gellir hyrwyddo a chyfleu negeseuon iechyd cyhoeddus allweddol er mwyn helpu i wella iechyd a lles yn gyffredinol.

- *Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol* - Rydym yn parhau i gyflwyno a chynnal Adolygiadau Comisiynu. Dyluniwyd arfarniadau opsiynau (cynnyrch Adroddiadau Comisiynu) i ailfodelu gwasanaethau er mwyn lleihau dyblygu, a chysylltu gwasanaethau. Mae prosiect peilot Gwasanaethau yn y Gymuned wedi nodi bylchau mewn gwasanaethau a dyblygu, ac wedi darparu canolfan i bobl leol a darparwyr gwasanaethau gael mynediad at well gwybodaeth a chefnogaeth mewn perthynas â chyflogaeth, addysg, hyfforddiant, iechyd a lles

Cynnwys Pobl

- *Diogelu Pobl rhag Niwed* - Mae Cyngor Abertawe'n datblygu ymagwedd gydgynhyrchiol o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol sydd wedi gweld newid yn y ffordd y mae defnyddwyr gwasanaethau'n cysylltu â'r cyngor. Rydym yn parhau i agor prosesau caffael a chomisiynu i gefnogi ymagweddau cydgynhyrchu; rydym yn cydgynhyrchu manyleb gwasanaeth ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol ac rydym yn cynnwys dinasyddion yn y broses dendro. Rydym hefyd yn cynnwys dinasyddion yn y gwaith o ailfodelu ac ailddendro Byw â Chymorth.

- *Gwella Addysg a Sgiliau* - Rydym yn cynnwys athrawon a disgyblion yn fwy yn ein gwaith monitro a hyfforddi, a thrwy wreiddio Hawliau Plant yn ein hysgolion. Mae gennym nifer o fforymau sefydledig er mwyn cynnwys plant a phobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau megis *Llais y Disgybl*, *cynghorau ysgol, y Sgwrs Fawr* a'r *Arolwg Mawr*. Mae ERW yn gofyn am farn Penaethiaid yn rheolaidd a chydgynhyrchwyd cynllun busnes ERW gan bartneriaid ar draws y rhanbarth.

- *Trawsnewid ein Heconomi a'n Hisadeiledd* - Cefnogir creu grwpiau 'cyfeillion' er mwyn adfywio parciau, traethau a rhandiroedd lleol. Mae enghreifftiau llwyddiannus yn cynnwys Parc Llewellyn, a enillodd wobr y Faner Werdd o ganlyniad i waith y Grŵp Cyfeillion.

- *Trechu Tlodi* - Mae prosiectau *Cymunedau am Waith a Mwy* a *Gweithffyrdd+* (dan faner *Gweithio Abertawe*) yn bwriadu mynd i'r afael â diweithdra ac anweithgarwch economaidd, ac yn darparu cefnogaeth ar gyfer cyflogaeth drwy fentora un i un dwys. Mae unigolion yn cymryd rhan ac yn cael eu cefnogi yn y broses o ddod o hyd i gyflogaeth, ac ar ôl iddynt ddechrau gweithio. Yn ychwanegol i gynnwys cleientiaid, mae'r prosiectau'n cynnwys cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant yn uniongyrchol er mwyn gweld a oes unrhyw fylchau sgiliau y mae angen eu llenwi er mwyn cefnogi cleientiaid wrth iddynt ddod o hyd i swydd. Nid oes un fath o gefnogaeth sy'n addas i bawb, ond caiff ei modelu a'i theilwra i ddiwallu anghenion unigolion a chyflogwyr.

- *Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol* - Bydd rhaglen drawsnewid drawsbynciol 'Gwasanaethau yn y Gymuned' yn cynnwys y gymuned mewn agweddau ar ddylunio a datblygu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau mwy cydlynol ar gael i gefnogi preswylwyr gyda'r hyn sy'n bwysig iddyn

nhw. Rydym hefyd yn adeiladu ar y ffordd rydym yn cynnwys pobl leol trwy ddatblygu ymagwedd gydgynhyrchiol at adolygu a datblygu amrywiaeth o wasanaethau'r cyngor.

Rhan 3 - Sut mae'r cyngor yn newid y ffordd rydym yn gweithio: Ble mae angen i'r newid ddigwydd

Mae'r cyngor yn cydnabod bod rhaid i ni weithio'n wahanol os ydym am fynd i'r afael â heriau'r dyfodol. Cyn cyflawni'r newid hwn, mae'n rhaid i ni newid systemau ar draws y cyngor sy'n cefnogi cyflwyno gwasanaethau penodol. Rydym o'r farn mai canolbwyntio ar 'saith maes newid' o fewn ein sefydliad yw'r ffordd orau o'n helpu i newid y ffordd rydym yn cyflwyno gwasanaethau y tu allan i'r sefydliad.

Mae'r 'meysydd newid' hanfodol hyn eisoes wedi dechrau addasu'r ffyrdd y mae gwasanaethau'n gweithio:

Cynllunio corfforaethol
Mae'r ffordd rydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol ac yn gosod ein hamcanion lles wedi newid. Aethom ati i adolygu a chyhoeddi'n Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017/22 ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017. Aed ati i adolygu'r Cynllun Corfforaethol a'n hamcanion lles drwy ymgynghori â phobl leol a thrwy asesu'r dystiolaeth ganlynol:

- Tueddiadau a heriau'r dyfodol.
- Asesiad o les lleol.
- Ein hamcanion cydraddoldeb, gan gynnwys y Gymraeg.
- Cyfeiriad at ddangosyddion cenedlaethol.
- Ein hymrwymiadau polisi.

Diwygiwyd ein Cynllun Corfforaethol a'n hamcanion lles ar gyfer 2017/22 yn dilyn yr adolygiad hwn. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn disgrifio'r camau sy'n cael eu cymryd i gyflawni ein hamcanion lles a chyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol sy'n cael eu hamlinellu yn y Ddeddf.

Mae'r cynllun hefyd yn nodi sut rydym yn mwyafu'n cyfraniad at ein hamcanion lles a'r nodau cenedlaethol drwy'r ffordd rydym yn gweithio, sy'n unol ag egwyddorion cynaliadwy fel a ganlyn:

- Edrych ymlaen at yr heriau tymor canolig a thymor hir.
- Atal problemau rhag codi neu waethygu.
- Sicrhau nad yw ein hamcanion yn gwrthddweud ei gilydd, a'u bod yn ategu amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- Gweithio mewn partneriaeth ag eraill.
- Cynnwys pobl leol.

I gynllunio'n fwy effeithiol ar gyfer y tymor hir, rydym yn cynllunio ar gyfer pum mlynedd yn hytrach na blwyddyn. Rydym hefyd yn ystyried sut mae pob un o'n gwasanaethau'n dilyn y pum ffordd o weithio ac yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol ar y cam cynharaf posib. Mae hyn yn golygu bod cynllunio'n cynnwys y timau sy'n cyflwyno gwasanaethau o'r 'gwaelod i fyny' yn ogystal ag ystyried gwybodaeth 'o'r brig i'r gwaelod' megis tueddiadau'r dyfodol, amcanion eraill a chynlluniau ein partneriaid ar draws y rhanbarth.

Mae Asesiad Effaith Integredig yn croesgyfeirio gweithgareddau â sut maent yn cyfrannu at amcanion lles y cyngor, ac mae bellach wedi'i gynnwys fel rhan o'r broses cynllunio gwasanaethau. Mae'r broses yn helpu gwasanaethau i ystyried sut caiff gweithgareddau eu dylunio yn unol â'r pum ffordd o weithio

ac yn nodi risgiau, bylchau a chyfleoedd cysylltiedig. Caiff cynllunio ei lywio'n gynyddol gan gyfranogaeth dinasyddion wrth nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.

Cynllunio Ariannol
Bob blwyddyn mae'r cyngor yn dyrannu adnoddau ariannol i sicrhau ein bod yn gallu cymryd y camau sy'n angenrheidiol i gyflawni ein hamcanion lles. Mae'r gyllideb flynyddol wedi'i gosod yng nghyd-destun y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac wedi'i chysylltu â'r broses Gynllunio Corfforaethol. Mae'r strategaeth drosgynnol yn ddogfen fyw sy'n cael ei diweddaru wrth i wybodaeth ddod ar gael ac wrth i beryglon gael eu deall.

Mae ein rhaglen drawsnewid *Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol* yn ategu'r broses gwneud penderfyniadau gydag egwyddorion cyllidebu clir gan gynnwys canlyniadau cynaliadwy, ataliaeth, cynnwys a modelau cyflwyno newydd (gan weithio gyda phartneriaid yn aml). Mae tri maes ffocws y rhaglen, sef Cyngor y Dyfodol, Trawsnewid a Digidol, yn amlygu ffocws y rhaglen yn y tymor hir. Mae ymgynghori ar gyllidebau yn cynnwys preswylwyr, grwpiau cymunedol, partneriaid, cyflogwyr, y Fforwm Cyllideb Ysgolion, Penaethiaid trawsgyfnod, undebau llafur ac eraill.

Yn ystod proses gosod cyllideb 2018/19 cyflwynwyd y pum ffordd o weithio drwy gyfres o gwestiynau a luniwyd i herio ffyrdd o feddwl. Mae'r ymagwedd hon sy'n seiliedig ar gwestiynau'n gofyn i ni ystyried strategaethau corfforaethol allweddol a strategaethau partneriaid yn ogystal â gosod sut gellir cyflawni buddion ac ymateb i heriau tymor hwy gan ystyried Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru. Mae Strategaeth Atal y cyngor ar gyfer 2018 yn ymrwymo i ymagwedd 'buddsoddi i arbed' dros gyfnod o ugain mlynedd yn seiliedig ar achosion busnes sy'n mynd i'r afael ag ymyriadau ataliol, ac mae'r gwaith i hwyluso a monitro'r broses hon yn cael ei archwilio. Rydym yn archwilio posibiliadau cydweithredol ar gyfer rhannu gwasanaethau â phartneriaid a chyfuno cyllidebau. Caiff effaith cynlluniau cyllidebol ar gynlluniau gwasanaethau eraill a gwasanaethau'r partneriaid ei chwestiynu. Yn olaf, bydd y potensial ar gyfer cyllidebau cymunedol, a chynlluniau i gynnwys pobl wrth bennu'r gyllideb a chytuno arni, yn cael ei ddadansoddi. Ar gyfer cyllideb 2019/2020, rydym yn bwriadu datblygu'r ymagwedd hon ymhellach drwy addasu Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Dylunio Gwasanaethau. Caiff rhaglen *Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol* 2018/19 ei hadolygu yn ystod 2018/19.

Cynllunio'r gweithlu (pobl)
Mae newid diwylliannol yn hanfodol i fynd i'r afael â heriau'r dyfodol. I roi'r sgiliau cywir i staff ac i gefnogi datblygu sefydliadol, pennwyd dyheadau strategol ar gyfer 2017-22 gan fynd i'r afael ag arweinyddiaeth a datblygiad staff. Mae ymwybyddiaeth o'r pum ffordd o weithio wedi cael ei gwella trwy hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig ac integreiddio datblygu cynaliadwy o fewn cefnogaeth staff ar gyfer cynllunio gwasanaethau. Anogwyd persbectif tymor hir drwy weithdai rhagofal i uwch-reolwyr.

Mae cynllunio'r gweithlu'n helpu i amcangyfrif gofynion y gweithlu a chyfrifo niferoedd, natur a ffynonellau gweithwyr posib a allai ateb y galw hwnnw. Y llynedd cynhaliwyd 16 gweithdy i friffio staff a rheolwyr ar draws gwasanaethau ar sut i fynd i'r afael â'r dasg hon gyda'r nod o wella cynaladwyedd a chysylltu â chynllunio olyniaeth wrth symud ymlaen. Mae pecyn cymorth a thempledi ar gael i gefnogi gweithgareddau cynllunio'r gweithlu, megis nodi llwybrau gyrfa trwy weithlu'r cyngor a chefnogi gweithgareddau cynllunio olyniaeth. Caiff gofynion cynllunio'r gweithlu eu hadolygu yn ystod cynllunio gwasanaethau a defnyddir yr wybodaeth wrth ddatblygu cynllun gweithlu corfforaethol.

Mae arferion gweithio ystwyth yn tyfu o ganlyniad i fuddsoddiad ac mae diwylliant gweithio ystwyth yn datblygu, sydd wedi effeithio ar ddulliau arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae mwy o weithio

rhanbarthol a gweithio mewn partneriaeth a modelau llywodraethu newydd yn arwain at fwy o weithio matrics ar draws timau.

Mae staff yn parhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwella corfforaethol trwy'r Gymuned Arloesedd - grŵp o wirfoddolwyr brwd sy'n awyddus i wneud gwahaniaeth - sydd wedi arwain at brosiectau a chanlyniadau buddiol.

Mae'r broses o drawsnewid Adnoddau Dynol (AD) a Datblygu Sefydliadol (DS) yn wasanaeth syml unigol sy'n addas i'r dyfodol yn cynnwys datblygu arbenigedd cynllunio'r gweithlu ynghyd â'r ffocws ailgynlluniedig ar gefnogi effeithlonrwydd sefydliadol gwell trwy ddefnyddio technoleg ac adeiladu sgiliau newydd ar draws y tîm AD. Bydd hyn yn galluogi'r swyddogaeth o ddarparu gwasanaeth ymgynghori AD a DS sy'n fwy pellgyrhaeddol ar draws pob gwasanaeth.

Caffael
Mae egwyddorion caffael cynaliadwy wedi'u nodi yn Natganiad Polisi Caffael Cymru ac maent yn ategu arfer caffael y cyngor. Mae swyddogion caffael yn gweithio'n anffurfiol gyda'r gwasanaethau ar gamau cynharaf posib y broses gaffael fel y gall rheolwyr ddatblygu manylebau sy'n ystyried gwerth am arian ar sail bywyd cyfan (rhoddir ystyriaeth i gostau mewn perthynas â chynnal a chadw, gwerthu eiddo a nwyddau traul).

Mae Holiaduron Addasrwydd Cyflenwyr hefyd yn cynnwys adran am gynaladwyedd sy'n rhoi ffocws ar faterion amgylcheddol ond sydd hefyd yn trafod cydraddoldebau a diogelu yn ogystal â meini prawf technegol ac economaidd mwy traddodiadol.

Menter arobryn yw Y Tu Hwnt i Frics a Morter sy'n sicrhau buddion cymdeithasol o weithgarwch adeiladu ac adfywio ar draws sectorau yn Ninas a Sir Abertawe er budd parhaus y gymuned. Mae cymalau budd cymunedol yn cynnig ymagwedd newydd at gaffael cyhoeddus. Gellir cynnwys cymalau i ddylanwadu ar y meysydd canlynol:

- Hyfforddiant a recriwtio penodol sy'n hybu, er enghraifft, y rheiny sy'n ddi-waith yn y tymor hir.
- Mentrau cadwyn gyflenwi sy'n ymroddedig i ddod o hyd i gynnyrch lleol.
- Ymgynghoriadau cymunedol (contractwyr ystyriol).
- Cyfraniadau at addysg.
- Hyrwyddo mentrau cymdeithasol.
- Buddion amgylcheddol yn ystod y gwaith ac ar ôl ei gwblhau.

Diweddarwyd ein Polisi Budd Cymunedol yn 2016 ac ehangwyd yr ymagwedd hon er mwyn cynnwys holl brosiectau caffael y cyngor. Mae cyflwyno cymalau budd cymunedol yn bwriadu sicrhau bod aelodau'n cymunedau, yn enwedig pobl ifanc a'r rheiny sydd heb fod yn rhan o'r farchnad swyddi ers peth amser, yn cael cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ystyriol. Mae hyn yn manteisio ar gyfleoedd i gyflawni gwerth ychwanegol a mwyafu cyfraniad at y nodau llesiant o ganlyniad i wariant y sector cyhoeddus yn Abertawe.

Mae Cyngor Abertawe'n cefnogi datblygiad cyflenwyr lleol ac yn deall y gwerth ychwanegol a geir trwy gaffael yn lleol. Ar gyfer prosiectau mawr, cynhelir sesiwn ymwybyddiaeth cyflenwyr ar gyfer busnesau lleol gyda mwy o gefnogaeth ar e-dendro'n cael ei darparu gan Busnes Cymru. Mae PDChP Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol y cyngor wedi datblygu cynllun gweithredu a adolygwyd yn unol â'r pum ffordd o weithio er mwyn cyflwyno egwyddorion caffael cynaliadwy sy'n caniatáu i gyflenwyr lleol gyflwyno cais am gontractau'r cyngor. Caiff y broses hon ei gwella ymhellach drwy dreialu'r broses o addasu Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Dylunio Gwasanaeth.

Cymerwyd camau i hyrwyddo ymagwedd economi gylchol drwy ailwampio amgylchedd gweithio ystwyth newydd. Mae hyn yn cael ei gyflawni trwy addasu deunyddiau a chyfarpar presennol at ddiben gwahanol, a'u hailddefnyddio yn hytrach na phrynu rhai newydd allan o gatalog. Mae'r ymagwedd hon, sydd wedi datblygu ffyrdd newydd o weithio gyda menter gymdeithasol, wedi bod yn bosib trwy adeiladu ar brofiad cyrff cyhoeddus eraill, yn enwedig Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Rheoli risgiau
Adolygwyd y ffordd y mae'r cyngor yn diffinio ac yn rheoli risgiau yn 2017 yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Polisi Rheoli Risgiau newydd a gymeradwywyd gan y Cabinet yn 2017/18 yn nodi sut rydym yn rheoli ac yn cyfleu risgiau drwy'r cyngor wrth gynnwys pum ffordd o weithio'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd y polisi newydd yn rheoli sut mae'r cyngor yn rheoli risgiau er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau a'i amcanion, risgiau sy'n codi wrth gyflwyno gwasanaethau, risgiau i iechyd a llywodraethu corfforaethol ac ariannol a'r risgiau tymor hir sy'n wynebu'r cyngor a'r gymuned.

Mae'r cyngor yn ceisio deall y risgiau a'r heriau strategol tymor byr, tymor canolig a thymor hwy sy'n wynebu'r cyngor a'r gymuned a mynd i'r afael â hwy. Mae'r polisi'n nodi bod angen i ni atal risgiau rhag digwydd a lliniaru eu heffaith petaent yn digwydd. Mae hefyd yn disgrifio y bydd angen i ni weithio gydag eraill o bosib i atal risgiau rhag digwydd neu i'w rheoli. Mae angen i ni fod yn ofalus nad yw mynd i'r afael â risgiau'n creu risgiau a phroblemau i gyrff cyhoeddus eraill. Bydd cynnwys cleientiaid, cwsmeriaid a dinasyddion i atal a rheoli risgiau'n helpu hefyd.

Wrth ystyried sut i ymateb i risgiau, bydd yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015) yn cael ei gweithredu. Trwy gynnwys egwyddor cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae cyfle yn y polisi hwn i swyddogion cyfrifol/perchnogion y risgiau gynnwys dinasyddion wrth nodi, gwerthuso a rheoli risgiau os yw hyn yn berthnasol ac yn addas iddynt. Rydym bellach yn y broses o weithredu'r polisi.

Rheoli Perfformiad
Er mwyn mesur yr hyn sy'n bwysig yn well, caiff dangosyddion perfformiad eu symleiddio cymaint â phosib. Rydym wedi addasu'r broses gosod targedau i roi opsiynau gwahanol i wasanaethau o ran gosod targedau sy'n addas ar gyfer yr hyn mae'r dangosydd yn ceisio ei gyflawni: er enghraifft, defnyddio targedau estynnol pan rydym am gyflwyno gwelliant a thargedau amrywiol os yw'n fwy addas i fonitro perfformiad o fewn paramedrau penodol.

Mae cynllunio gwasanaethau hefyd bellach yn cynnwys ffordd ansoddol o gofnodi ac olrhain cyfraniad gwasanaethau at amcanion lles y cyngor a'r pum ffordd o weithio fel y gellir adolygu dilyniant dros amser a'r pellter a deithiwyd ynghyd â risgiau, bylchau a chyfleoedd. Mae hyn yn ategu mesurau meintiol gan ei fod yn bosib monitro cynnydd a chynllunio ar gyfer cyflawni'n hamcanion lles.

Asedau
Mae'r cyngor bob amser yn edrych ar ffyrdd newydd o wella'r ffordd rydym yn rheoli ein hadeiladau, ein tir a'n hamwynderau'n fwy effeithiol. Mae gweithio ar y cyd yn nodwedd gynyddol o sut rydym yn rheoli ein hystad. Mae'r Bwrdd Eiddo Lleol yn galluogi cyrff cyhoeddus i weithio ar y cyd i ddod o hyd i atebion sy'n diogelu asedau er lles ein cymunedau yn y tymor hir. Wrth symud ymlaen, mae'r gwaith hwn yn parhau a chaiff ei ysgogi gan y Gweithgor Asedau Cenedlaethol, gan gysylltu â Chynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe.

Yn ychwanegol i weithio gyda phartneriaid, rydym yn cynnwys dinasyddion nid yn unig yn ein prosesau ymgynghori ond hefyd trwy eu galluogi i fod yn gyfrifol am asedau a'u defnyddio yn y tymor hir ar ôl rhoi gweithredoedd diogelu ar waith er mwyn eu cadw ar lefel gymunedol. Mae Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol bellach yn diffinio'r gofynion yn glir ac yn cynnig proses glir ar gyfer cyflawni hyn. Mae'r eglurdeb hwn a chefnogaeth swyddogion wedi galluogi 7 o brosiectau i gyrraedd camau terfynol y broses yn 2017/18. Yn ychwanegol, cynigiwyd cyfleoedd i denantiaid rhandiroedd ar draws Abertawe reoli eu safleoedd eu hunain gan sicrhau eu bod yn gynaliadwy ac yn gadarn. Mae cefnogaeth Swyddog Datblygu Hamdden Cymunedol wedi hwyluso gwaith i alluogi cymunedau i reoli canolfannau cymunedol a mannau gwyrdd niferus.

Mae cydgynhyrchu'n ganolog i ddatblygu 'Gwasanaethau yn y Gymuned', sef cyfres o brosiectau peilot sy'n bwriadu adleoli sefydliadau partner ger gwasanaethau'r cyngor o fewn cymunedau. Mae dinasyddion yn cymryd rhan ym mhob agwedd ar ddylunio a datblygu canolfannau cymunedol newydd i sicrhau bod gwasanaethau cydlynol gwell ar gael i gefnogi preswylwyr gyda'r hyn sy'n bwysig iddynt.

Mae newid y ffordd rydym yn gweithio'n helpu'r cyngor i gael gwell gwerth o'n hasedau. Mae gweithio ystwyth, lle mae staff yn mabwysiadu technoleg sy'n eu galluogi i weithio yn unman, yn lleihau lle swyddfa nad yw'n cael ei ddefnyddio'n ddigonol gan y gall staff rannu desgiau. Cyflawnwyd arbedion gwerth dros £1 filiwn y flwyddyn a gwerth £3 miliwn mewn derbyniadau cyfalaf. Mae'r newidiadau hyn hefyd yn effeithio ar y ffordd y mae staff yn gweithio, ac yn rhoi ffocws newydd ar ymddygiadau cydweithredol a gweithio mwy hyblyg fel rhan o dimau rhithiol a all gynnwys partneriaid y tu allan i'r awdurdod lleol. Mae'r ymagwedd hon hefyd wedi trawsnewid sut rydym yn ystyried cyfarpar a dodrefn 'gwastraff' trwy ystyried sut gallwn ailddefnyddio, addasu diben neu ailwampio eitemau sydd eisoes yn eiddo i ni yn hytrach na phrynu rhai newydd.

Rhan 4 - Llywodraethu ac Atebolrwydd

Mae'r cyngor yn cydnabod ei fod ar ddechrau'r daith i gynnwys y Ddeddf yn ei drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd o hyd, ond mae wedi dechrau gwneud cynnydd da.

Llywodraethu

Mae datblygu cynaliadwy wedi bod yn egwyddor drefniadol ganolog Cyngor Abertawe ers 2012, ac mae wedi'i chynnwys yn nhrefniadau llywodraethu Abertawe fel rhan o Bolisi Datblygu Cynaliadwy. Mae hyn wedi darparu sail dda i alluogi Abertawe i ddechrau cydweddu'r ddyletswydd lles a dechrau cyflawni cynnydd o sefyllfa lle caiff mecanweithiau sy'n cefnogi datblygu cynaliadwy eu mabwysiadu'n fwriadol i sefyllfa yn y dyfodol lle y disgwylir i'r pum ffordd o weithio fod yn elfen awtomatig o ddylunio a chyflwyno gwasanaethau. I ddechrau, y gred oedd y byddai angen Bwrdd Cenedlaethau'r Dyfodol annibynnol er mwyn cefnogi a goruchwylio'r broses o roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith. Fodd bynnag, penderfynwyd wrth i'r cyngor aeddfedu yn ei ymagwedd y byddai'n fwy addas gweithredu hyn fel rhan o fusnes a phrosesau gwneud penderfyniadau beunyddiol y cyngor.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei cynnwys fwyfwy ym mhob agwedd ar lywodraethu. Roedd datganiad lles cyntaf y cyngor wedi'i integreiddio yng Nghynllun Corfforaethol 2017/22, sef *Cyflwyno Abertawe Llwyddiannus a Chynaliadwy.* Mae egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth wraidd rhaglen drawsnewid y cyngor, *Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol*, ac mae'r cyngor wedi dechrau defnyddio ymagwedd sy'n seiliedig ar gwestiynau i gynnwys y pum ffordd o weithio yn y broses gosod cyllideb sy'n gysylltiedig â'r CATC a'r Cynllun Corfforaethol. Addaswyd cynlluniau gwasanaethau i gynnwys y Ddeddf trwy alluogi gwasanaethau i ddangos eu cyfraniad at amcanion lles y cyngor yn well, a dangos sut gallant fwyafu'r cyfraniad hwnnw drwy'r pum ffordd o weithio. Mae'r ymagwedd hon hefyd yn galluogi gwasanaethau i nodi bylchau, cyfleoedd a risgiau y mae'r Ddeddf yn eu hamlygu.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynnwys dinasyddion yn fwy mewn democratiaeth leol a phenderfyniadau'r cyngor, ac mae strategaeth cydgynhyrchu wrthi'n cael ei datblygu i gynnwys dinasyddion yn fwy wrth lunio a chyflwyno gwasanaethau.

Mae Dinas a Sir Abertawe wedi cymeradwyo a mabwysiadu Côd Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion fframwaith newydd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth/Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru, *'Delivering Good Governance in Local Government 2016'.* Dengys Datganiad Llywodraethu Blynyddol y cyngor sut mae'r cyngor yn llywodraethu ac yn gwneud penderfyniadau'n unol â'r côd ac egwyddorion llywodraethu da. Mae Pwyllgor Archwilio'r cyngor yn rhoi sicrwydd ar effeithiolrwydd rheolaeth fewnol, rheoli risgiau a llywodraethu yn y cyngor.

Mae'r Polisi a'r Fframwaith Rheoli Perfformiad corfforaethol diwygiedig yn ceisio cynnwys y pum ffordd o weithio wrth nodi ac asesu risgiau ac wrth ymateb iddynt a'u rheoli. Adolygwyd a diwygiwyd risgiau corfforaethol y cyngor yn sgîl llunio Cynllun Corfforaethol y cyngor ar gyfer 2017/22 a chymeradwyo'r Polisi Rheoli Risgiau newydd

Rhestrir risgiau corfforaethol y cyngor, sy'n cyd-fynd â'n hamcanion lles, isod, a dyma'r risgiau a fyddai'n effeithio ar y cyngor cyfan pe baent yn dod i rym, gan effeithio'n andwyol ar allu'r cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau a'i amcanion:

- Gweithio rhanbarthol.
- Rheolaeth ariannol ac Abertawe Gynaliadwy.
- Ailddatblygu canol y ddinas.
- Diogelu pobl ddiamddiffyn.
- Cyrhaeddiad a chyflawniad disgyblion.
- Trechu tlodi.
- Strategaeth y gweithlu.
- Diogelwch digidol, data a gwybodaeth.
- Cynllunio rhag argyfyngau, cydnerthu a pharhad busnes.
- Iechyd a diogelwch.
- Gofynion deddfwriaethol a statudol newydd.
- Y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd (BREXIT)
- Efadu trethi.

Ychwanegwyd y risgiau corfforaethol diwygiedig at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Erbyn hyn mae gan y Cabinet berchnogaeth ar y cyd o'r risgiau corfforaethol â'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae gan holl Aelodau'r Cabinet fynediad at Gofrestr Risgiau Corfforaethol y cyngor. Caiff y risgiau corfforaethol eu hadolygu bob mis ac, wrth symud ymlaen, cânt eu hadolygu gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet bob chwarter. Ers cymeradwyo'r polisi newydd, mae'r Pwyllgor Archwilio'n derbyn adroddiad bob chwarter am statws cyffredinol risgiau yn y cyngor. Mae gan y Pwyllgor Archwilio fynediad at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ac mae copi wedi'i chynnwys ym mhecyn adroddiadau cyhoeddus y Pwyllgor Archwilio.

Atebolrwydd

Mae'r cyngor yn rhoi gwybod am berfformiad trwy ddefnyddio dangosyddion cenedlaethol i helpu i fesur cynnydd wrth gyflawni ei amcanion lles. Cyflwynir adroddiad monitro perfformiad i'r Cabinet bob chwarter ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r adroddiadau hyn yn destun adolygiad gan banel craffu'r cyngor ar sail chwarterol a blynyddol. Yn ychwanegol, mae'r cyngor yn destun fframwaith perfformiad cenedlaethol a chaiff cynnydd ei fesur gan ddefnyddio Mesurau Atebolrwydd

Cyhoeddus cenedlaethol. Mae crynodeb o berfformiad y cyngor yn erbyn mesurau perfformiad cenedlaethol ar gyfer 2017/18 wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Mae cyrff arolygu ac archwilio, megis Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru, yn profi perfformiad gwasanaethau penodol ac i ba raddau mae'r cyngor yn cyfrannu at y nodau cenedlaethol, ac yn mwyafu ei gyfraniad drwy'r pum ffordd o weithio. Mae'r cyrff rheoleiddiol hyn yn cyhoeddi eu canfyddiadau; yn eu Hadroddiad Gwella Blynyddol am Gyngor Abertawe ar gyfer 2017/18, canfu Swyddfa Archwilio Cymru fod y cyngor yn cyflawni ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus.

Mae'r cyngor yn ymgynghori ac yn cysylltu â thrigolion Abertawe ac eraill i gael eu barn am y gwasanaethau a ddarperir ganddo. Mae cwynion a chanmoliaeth gan y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau hefyd yn ffynhonnell wybodaeth a ddefnyddir i wella gwasanaethau. Mae'r cyngor yn ceisio defnyddio potensial offer digidol a reolir gan ddefnyddwyr i olrhain canlyniadau. Un enghraifft aroloesol yw datblygiad cynnar offeryn lles ar-lein i blant ysgol - My Selfie. Datblygwyd a threialwyd My Selfie gyda sawl ysgol ac mae'n rhoi cyfle i blant gael mewnwelediad i'w lles ei hunain.

Mae nifer o gyfarfodydd pwyllgorau'n agored i'r cyhoedd a chroesawir cwestiynau. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd y cyngor, craffu a Phartneriaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe. Mae Aelodau Etholedig yn darparu her werthfawr i dimau gwleidyddol a thimau arweinyddiaeth weithredol. Maent yn sicrhau bod cynnydd yn foddhaol ond hefyd fod y ffordd y mae'n cael ei gyflawni'n cael yr effaith orau bosib ar wasanaethau a sefydliadau eraill yn Abertawe. Trefnwyd sawl sesiwn hyfforddi i gynghorwyr, aelodau craffu a chynghorwyr cymuned a thref yn 2017/18 lle bu llawer ohonynt yn bresennol, ac maent wedi helpu i roi dealltwriaeth i ddatblygu cynaliadwy i gynghorwyr y maent yn ei defnyddio i herio cynllunio a chyflwyno gwasanaethau. Mae gan Aelod y Cabinet dros Gymunedau Gwell (pobl) gyfrifoldeb portffolio am wreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym musnes y cyngor.

Mae aelodau craffu'n benodol yn defnyddio'r ffyrdd o weithio i galw aelodau'r Cabinet a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyfrif. Mae cwestiynau'n canolbwyntio fwyfwy ar y pum ffordd o weithio. Mae gofyn i Aelodau'r Cabinet roi gwybod yn systemaidd am effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar eu portffolios a'r ffordd maent yn gweithio ac yn gwneud penderfyniadau. Mae gofyn iddynt esbonio'r cysylltiadau rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'u gwaith a sut mae hyn yn gwneud gwahaniaeth.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn destun gwaith craffu rheolaidd o ran sut mae'n gwneud gwahaniaeth. Gwahoddir aelodau statudol i roi tystiolaeth mewn perthynas â'r blaenoriaethau maent yn eu harwain. Yn ogystal ag aelodau etholedig, mae craffu hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr sefydliadau partner y BGC. Mae'r panel yn cynnwys cadeiryddion pwyllgorau craffu eraill, gan sicrhau bod ymagwedd integredig a chadarn at ymchwiliadau.

Mae'r Tîm Craffu wedi helpu'r cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau allweddol mewn sawl ffordd:

- Gwnaed nifer o argymhellion ar sut gall y cyngor wella a datblygu'r ffordd y mae'n gweithio gydag eraill ar draws y rhanbarth er lles Abertawe a'i phreswylwyr. Er enghraifft, o ran cryfhau trefniadau llywodraethu cyrff rhanbarthol, yr angen am gyfathrebiadau gwell rhwng sefydliadau gweithio rhanbarthol a lleol, a gwerthuso effaith er mwyn dangos gwerth clir a dysgu o brofiad.
- Rhoddwyd argymhellion ymchwiliadau blaenorol ar waith er mwyn gwella a datblygu llywodraethu ysgolion, adeiladu cymunedau cynaliadwy a pharatoi plant ar gyfer yr ysgol.

- Mae gwaith y tîm craffu dros y flwyddyn ddiwethaf wedi canolbwyntio hefyd ar y Rhaglen Abertawe Gynaliadwy, gyda'r holl Adolygiadau Comisiynu'n destun craffu cyn penderfynu, gan sicrhau bod her 'cyfaill beirniadol' i benderfyniadau arfaethedig. Mae hefyd waith i fonitro canlyniadau adolygiadau cynharach.
- Ceir 'sgwrs' reolaidd rhwng aelodau'r tîm craffu a'r Cabinet drwy lythyrau'r cadeiryddion. Mae'r rhain yn caniatáu i'r pwyllgor a phaneli/gweithgorau gyfathrebu'n gyflym ag aelodau perthnasol o'r Cabinet ar ôl cyfarfodydd. Maent yn defnyddio'r llythyrau hyn i fynegi pryderon, amlygu arfer da a gwneud argymhellion.
- Mae'r Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol yn eitem reolaidd a drafodir gan Bwyllgor y Rhaglen Graffu.
- Mae'r Panel Craffu Perfformiad Ysgolion yn parhau i gyfrannu at gyrhaeddiad disgyblion drwy ei waith gydag ysgolion unigol a gwella ysgolion yn gyffredinol.
- Bydd ymchwiliad newydd i gydraddoldebau'n mynd rhagddo yn ystod 2018.

Gweithio rhanbarthol
Mae adroddiadau'r adolygiad hwn sy'n trafod y cynnydd a wnaed o ran dilyn y camau i gyflawni'n hamcanion lles yn nodi sut rydym yn gweithio ar y cyd ag eraill. Mae tair partneriaeth ranbarthol allweddol y mae'r cyngor yn cymryd rhan ynddynt: Bargen Ddinesig Bae Abertawe, Bae'r Gorllewin a Gwella Ysgolion ERW.

Mae Ymchwiliad Craffu Gweithio Rhanbarthol y cyngor wedi gwneud rhai argymhellion er mwyn gwella gweithio rhanbarthol. Daethant i'r casgliad y gellir gwella gweithio rhanbarthol trwy:

- Lywodraeth Cymru'n rhoi eglurder ac yn symleiddio'r darlun rhanbarthol ar draws Cymru
- Mynd i'r afael â'r heriau i'r cysondeb y mae gweithio rhanbarthol yn gofyn amdano
- Cydnabod pwyntiau cadarnhaol, nodi a mynd i'r afael â'r rhwystrau i weithio rhanbarthol i Abertawe a'i phartneriaethau.
- Sicrhau bod gan bob partneriaeth ranbarthol drefniadau llywodraethu, herio a chraffu da
- Sicrhau bod partneriaethau/cydweithrediadau rhanbarthol yn cynnwys y sefydliadau cywir gan gynnwys y trydydd sector a'r sector preifat
- Asesu gofynion adnoddau ar gyfer y dyfodol, gan sicrhau ein bod yn dysgu o brofiadau'r gorffennol a bod ein cynllunio ar gyfer y dyfodol yn gydlynol
- Sicrhau yn y pen draw fod gweithgareddau gweithio rhanbarthol yn dangos effeithiau cadarnhaol clir ar gyfer preswylwyr Abertawe

Derbyniodd Cabinet y cyngor yr holl argymhellion perthnasol a wnaed ac mae wedi datblygu cynllun gweithredu i'w rhoi ar waith.

Crynodeb o'n perfformiad yn erbyn Dangosyddion Cenedlaethol 2017/18

Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru a Data Cymru (Uned Ddata Llywodraeth Leol gynt) yn cyhoeddi adnoddau sy'n cynnwys gwybodaeth am berfformiad awdurdodau lleol. Mae hyn yn ei gwneud yn bosib cymharu perfformiad 22 awdurdod lleol Cymru ar draws y gwasanaethau hynny. Mae'r adran hon yn crynhoi ein perfformiad yn 2017/18 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Perfformiad Cenedlaethol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol
Yn 2017/18, casglwyd 31 o ddangosyddion perfformiad a chynigiwyd eu cyhoeddi'n genedlaethol. O ganlyniad i newidiadau o ran dyddiadau cyhoeddi cyfresi o ddata, mae gan 13 allan o'r 31 o ddangosyddion ddata y gellir ei gymharu yn erbyn perfformiad yn 2016/17, a dengys y rhain fod:

- 6 ohonynt wedi gwella neu wedi cyflawni 100% unwaith eto;

- 2 wedi aros yn ddigyfnewid; a
- gwelwyd gostyngiad yn 5 ohonynt.



Mae'r tabl isod yn cynrychioli cymhariaeth dros y 5 mlynedd diwethaf o ran sut rydym wedi perfformio yn erbyn cynghorau eraill yng Nghymru yn seiliedig ar y dangosyddion cenedlaethol a gyhoeddwyd ar gyfer pob blwyddyn.

Wrth gymharu cyfresi data rhwng blynyddoedd gwahanol, rhaid cofio y dadansoddwyd nifer gwahanol o ddangosyddion statudol ar gyfer pob blwyddyn.



	Gwelliant	Gostyngiad	Sefydlog
17/18	46.15%	38.46%	15.38%
16/17	39.13%	47.83%	13.04%
15/16	39.47%	52.63%	7.89%
14/15	51.22%	31.71%	17.07%
13/14	68.20%	31.80%	0.00%
12/13	74.40%	23.10%	2.60%

Mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi dadansoddi lle caiff dangosyddion eu gosod mewn safleoedd chwartel o'u cymharu â'u dangosyddion perfformiad perthnasol ar gyfer pob adran y cyngor. Eleni, gan fod y cymariaethau'n dangos niferoedd isel, nid ydynt yn cynrychioli'r chwarteli priodol o ran dadansoddi adrannau. Bydd cyfresi data coll ar gyfer Gwastraff a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gael i'r cyhoedd ar Data Cymru ar yr adeg berthnasol.

Fodd bynnag, mae'r rhestr o Fesurau Cenedlaethol Cymaradwy ar gael ar hyn o bryd yn http://www.mylocalcouncil.info/default.aspx?lang=cy-GB, sy'n cynnwys gwybodaeth am berfformiad cenedlaethol hanesyddol.

Ble i gael mwy o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar gynnwys y cynllun hwn, gallwch gysylltu trwy e-bostio improvement@swansea.gov.uk neu drwy ffonio 01792 637570. Gellir dod o hyd i'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017/22 yn yr archif trwy glicio ar y ddolen ganlynol: https://www.abertawe.gov.uk/CynllunCorfforaethol2017-22

Cynllun Corfforaethol 2018/22 Cyflwyno Abertawe Llwyddiannus a Chynaliadwy: http://www.abertawe.gov.uk/CynllunGwellaCorfforaethol

Cynllun Lles y BGC
https://www.abertawe.gov.uk/cynllunlleslleol Mae rhagor o wybodaeth am y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gael yma: http://www.abertawe.gov.uk/bgc

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy

Adroddiadau'r Bwrdd Craffu
https://www.abertawe.gov.uk/craffu

Pwyllgor Archwilio
https://democracy.swansea.gov.uk/ieListMeetings.aspx?CId=123&Year=0&LLL=0

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
http://www.abertawe.gov.uk/cynlluncydraddoldebstrategol

Adroddiadau Arolygu Swyddfa Archwilio Cymru
http://www.audit.wales/cy/adroddiadau-a-chyhoeddiadau?combine=&field_topics_tid_i18n=All&field_sectors_tid_i18n=55&created_1=All&field_area_tid_i18n_1=All&field_reports_tid_i18n=All

Adroddiadau Arolygu Estyn
http://www.estyn.gov.uk/english/inspection/inspection-reports/?searchTitle=&searchType=All&localAuthority=51&searchPostcode=&searchDistance=10&submitted=1099951074.1462868757

Adroddiadau Arolygu Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
http://cssiw.org.uk/our-reports/?lang=cy

My Local Council
http://www.mylocalcouncil.info/